Criminal Justice Joint Inspection

# Ugain mlynedd yn ddiweddarach, ydy MAPPA yn cyflawni ei amcanion?

Cyd-arolygiad thematig o Drefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Aml-Asiantaethol

Gorffennaf 2022

# Cynnwys

**Cynnwys** ..... 2
**Rhagair** ..... 4
**Ffeithiau cyd-destun** ..... 6
**Crynodeb gweithredol** ..... 7
**Argymhellion** ..... 11
**1. Rhagarweiniad** ..... 13
1.1. Pam y thema hon? ..... 13
1.2. Y cefndir ..... 13
1.3. Nodau ac amcanion ..... 17
1.4. Sgôp yr arolygiad ..... 18
1.5. Amlinelliad o'r adroddiad ..... 19
**2. Arweinyddiaeth, strategaeth, a pholisi** ..... 20
2.1. Arweinyddiaeth a llywodraethu cenedlaethol ..... 20
**Rheoli perfformiad** ..... 21
2.2. Arweinyddiaeth yn yr awdurdodau cyfrifol ..... 22
2.3. Hyfforddiant MAPPA ..... 26
2.4. Y byrddau rheoli strategol ..... 26
2.5. Cynghorwyr lleyg ..... 27
2.6. Casgliadau a goblygiadau ..... 27
**3. Adnabod, gosod lefelau a rhannu gwybodaeth o dan MAPPA** ..... 29
3.1. Adnabod a gosod lefelau ..... 29
3.2 Set ddogfennau MAPPA ..... 32
3.3. Cyfarfodydd MAPPA ..... 32
3.4. Categori 3 ..... 33
3.5. ViSOR a rhannu gwybodaeth ..... 35
3.6. Adolygiadau achos difrifol ..... 37
3.7. Casgliadau a goblygiadau ..... 37
**4. Cadw pobl yn ddiogel** ..... 39
4.1. Llais y bobl sydd ar brawf ..... 39
4.2. Rheolaeth Lefel 1 yn y gymuned ..... 39
4.3. Rheolaeth Lefel 1 mewn carchardai ..... 41
4.4. Rheolaeth Lefel 1 a 2 yn y gymuned ..... 43
4.5. Rheolaeth Lefel 2 mewn carchardai ..... 46
Monitro cyfathrebu carcharorion ..... 47
4.6. Casgliadau a goblygiadau ..... 48

**Dogfennau Cyfeiriol** ........ **49**
**Atodiad 1: Geirfa** ........ **50**
**Atodiad 2: Methodoleg** ........ **53**
**Atodiad 3: Tablau data** ........ **57**

**Cydnabyddiaeth**

Cafodd yr arolygiad hwn ei arwain gan Arolygiaeth Prawf EM Noreen Wallace gyda chymorth tîm o arolygwyr o Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, y Gwasanaethau Tân ac Achub (HMICFRS) ac Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (HMIP). Cafodd gymorth ychwanegol ei ddarparu gan staff gweithredol, ymchwil, cyfathrebu a chorfforaethol o Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Cynhaliwyd cyfweliadau â defnyddwyr gwasanaeth gan gwmni Penal Reform Solutions. Y rheolwr sy'n gyfrifol am y rhaglen arolygu hon yw Helen Davies. Hoffem ddiolch i bawb a gymrodd ran mewn unrhyw ffordd yn yr arolygiad hwn. Heb eu cymorth a'u cydweithrediad ni fyddai'r arolygiad wedi bod yn bosib. Cofiwch drwy gydol yr adroddiad hwn fod enwau yn yr enghreifftiau ymarfer wedi eu newid i ddiogelu hunaniaeth yr unigolion.

© Hawlfraint y Goron 2022

Gallwch ail-ddefnyddio'r wybodaeth yma (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu e-bostiwch psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle'r ydym wedi nodi deunydd sydd â hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi ofyn am ganiatâd gan bwy bynnag sy'n dal yr hawlfraint honno.

ISBN: 978-1-915468-04-8

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael i'w lawrlwytho yn:

www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation

Cyhoeddwyd gan:

Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi
1st Floor Civil Justice Centre
1 Bridge Street West
Manchester
M3 3FX

Dilynwch ni ar Twitter @hmiprobation

# Rhagair

Mae Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Aml-Asiantaethol (MAPPA) wedi bod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol ers 20 mlynedd. Dyluniwyd y trefniadau hyn i hyrwyddo cydweithrediad a rhannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng asiantaethau i reoli unigolion peryglus. Er y gall asiantaethau cyfiawnder troseddol byth ddileu'r risg, mae gan y cyhoedd hawl i ddisgwyl iddynt gymryd pob cam rhesymol i leihau'r potensial bod unigolion a gyflawnodd droseddau treisgar neu rywiol difrifol yn achosi niwed pellach. Mae bodolaeth MAPPA yn ffurfioli dyletswyddau cyfiawnder troseddol ac asiantaethau eraill i weithio gyda'i gilydd. Mae hefyd wedi arlwyo'r ffordd ar gyfer cyfathrebu a gweithio'n well ar y cyd y tu allan i'r strwythur cyfarfodydd ffurfiol.

Mewn arolygiadau blaenorol o MAPPA, roeddem yn poeni er bod gwybodaeth yn cael ei rhannu, nad oedd hyn bob tro'n arwain at waith rheoli risg amlwg. Mae gwelliannau wedi eu gwneud i strwythur MAPPA ac mae bellach yn ymgorffori'r dull 'Pedwar Piler' (Kemshall, 2010). O ddilyn y fformat hwn, mae'n gosod rheoli risg wrth galon y broses. Y dystiolaeth o waith maes ein harolygiadau yw bod MAPPA, pan gynhelir cyfarfodydd ffurfiol, yn rheoli risg ac amddiffyn y cyhoedd yn well yn y rhan fwyaf o achosion. Yn aml iawn mae cymorth ac adnoddau ychwanegol yn cael eu cyfrannu a fyddai wedi bod yn annhebygol heb y fforwm MAPPA. O'u defnyddio'n effeithiol, mae cyfarfodydd aml-asiantaethol yn cynnig craffu a throsolwg angenrheidiol mewn achosion cymhleth. Fodd bynnag, dehonglir canllawiau MAPPA'n wahanol mewn ardaloedd lleol ar draws Cymru a Lloegr gydag ymarfer amrywiol wedi datblygu o ganlyniad. Mewn rhai ardaloedd, cawsom fod y meini prawf a'r canllawiau'n cael eu dehongli'n rhy gul gan arwain at ymylu a thanddefnyddio MAPPA. Er bod y boblogaeth MAPPA'n parhau i dyfu (o 70% ers 2011), mae cyfran yr achosion a reolir ar Lefel 2[1] ac sy'n derbyn trosolwg aml-asiantaethol llawn wedi haneru a gwelsom dystiolaeth nad yw Lefel 2 bob amser yn cael ei defnyddio'n iawn i gynorthwyo i reoli unigolion cymhleth. Dylai dros 20% o'r achosion Lefel 1 a arolygwyd gennym fod wedi cael eu rheoli ar Lefel 2, oedd yn bryder. Nid oes ychwaith un fformiwla unigol ar gyfer dyrannu adnoddau staff i waith MAPPA. Mewn rhai ardaloedd, mae'r adnoddau ar gyfer MAPPA'n annigonol ac yn dibynnu gormod ar staff gweithredol sydd â llwythi gwaith trwm yn barod.

Rheolir y mwyafrif helaeth o achosion MAPPA (98.4%)[2] ar Lefel 1 ac, am y tro cyntaf, rydym wedi arolygu'r gwerth y mae statws MAPPA Lefel 1 yn ei ychwanegu at reolaeth o unigolyn. Ar ôl eu cael yn euog o droseddau rhywiol neu dreisgar difrifol, dylid adolygu achosion Lefel 1 yn rheolaidd, gydag adborth gan yr holl asiantaethau sy'n gweithio â'r unigolyn yn goleuo'r adolygiadau hyn. Yn rhy aml, gwelsom nad oedd hyn wedi'i wreiddio yn yr ymarfer; mewn gormod o achosion felly, nid oedd ymarferwyr yn ymwybodol o wybodaeth hanfodol gan arwain at reoli risg a chynllunio gwael. Roedd hyn yn arbennig o wir am unigolion sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar, gyda chynllunio cyn-rhyddhau boddhaol ond yn digwydd mewn llai na dau o bob tri achos a arolygwyd ac yn aml yn digwydd yn rhy hwyr a heb eu goleuo gan yr holl wybodaeth berthnasol i gynllunio rhyddhau effeithiol. Yn rhy aml yn yr achosion hyn, roedd diffyg trosolwg trylwyr gan reolwyr. Unwaith yr oeddent yn y gymuned, dim ond ychydig dros hanner yr achosion Lefel 1 a arolygwyd oedd yn cael digon o gyswllt i gefnogi'r cynllun rheoli risg.

Yn aml iawn mae'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o MAPPA mewn carchardai'n brin y tu allan i unedau rheoli troseddwyr ac felly, er bod rhai gwelliannau wedi eu gwneud, mae bylchau o hyd yn y wybodaeth a roddir gan staff yr adeiniau a'r adrannau diogelwch. Felly hefyd gyda phlismona, mae unedau sy'n arbenigo mewn rheoli troseddwyr rhywiol yn ymgysylltu'n dda â'r broses ond mae ymwybyddiaeth staff y tu allan i'r timau hyn o MAPPA'n brin. Oherwydd nad yw troseddwyr treisgar a reolir o dan MAPPA'n cael eu dyrannu i'r timau arbenigol bob tro, gall hyn fod yn rhwystr i waith aml-asiantaethol effeithiol. Gwaethygir y bylchau mewn rhannu gwybodaeth gan y diffyg cynnydd

[1] Rhoddir manylion am lefelau MAPPA ar dudalen 16.

[2] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2021). *Multi-Agency Public Protection Arrangements (MAPPA): annual report 2020 to 2021*.

gyda gwreiddio defnyddio'r databas ViSOR (y gofrestr troseddwyr treisgar a rhywiol yn flaenorol) i gofnodi gwybodaeth risg ar gyfer pob achos sy'n gymwys ar gyfer MAPPA.

Fe wnaethom gasglu, ar gyfer achosion Lefel 2 a 3, bod MAPPA mwy neu lai'n cyflawni ei amcanion o reoli'r risgiau a gyflwynir gan droseddwyr treisgar a rhywiol i'r cyhoedd; ar gyfer achosion Lefel 1, mae angen mwy o welliannau. Rydym felly wedi gwneud nifer o argymhellion a ddylai, o gael eu dilyn, gryfhau'r trefniadau a sicrhau bod MAPPA'n ychwanegu gwerth ar bob lefel reoli.

**Justin Russell**
Prif Arolygydd Prawf EM



**Charlie Taylor**
Prif Arolygydd Carchardai EM



**Wendy Williams CBE**
Arolygydd Cwnstabliaeth EM

Gorffennaf 2022

# Ffeithiau cyd-destun

**Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Aml-Asiantaethol: ffeithiau allweddol**

| | |
|---|---|
| **238,500** | Cyfanswm nifer y bobl dan oruchwyliaeth prawf ar 30 Rhagfyr 2021[3] |
| **87,657** | Cyfanswm poblogaeth MAPPA ar 31 Mawrth 2021[2] |
| **51,489** | Cyfanswm poblogaeth MAPPA ar 31 Mawrth 2011[5] |

**Categorïau MAPPA[4]**

| | |
|---|---|
| **64,325** | Nifer y bobl wedi cofrestru o dan Gategori 1 MAPPA ar 31 Mawrth 2021[2] |
| **37, 225** | Nifer y bobl wedi cofrestru o dan Gategori 1 MAPPA ar 31 Mawrth 2011[5] |
| **22,944** | Nifer y bobl wedi cofrestru o dan Gategori 2 MAPPA ar 31 Mawrth 2021[2] |
| **13,785** | Nifer y bobl wedi cofrestru o dan Gategori 2 MAPPA ar 31 Mawrth 2011[5] |
| **388** | Nifer y bobl wedi cofrestru o dan Gategori 3 MAPPA ar 31 Mawrth 2021[2] |
| **479** | Nifer y bobl wedi cofrestru o dan Gategori 3 MAPPA ar 31 Mawrth 2011[5] |

**Lefelau MAPPA[6]**

| | |
|---|---|
| **86,268** | Nifer y bobl wedi cofrestru o dan Lefel 1 MAPPA ar 31 Mawrth 2021[2] |
| **48,650** | Nifer y bobl wedi cofrestru o dan Lefel 1 MAPPA ar 31 Mawrth 2011[5] |
| **1,233** | Nifer y bobl wedi cofrestru o dan Lefel 2 MAPPA ar 31 Mawrth 2021[2] |
| **2,649** | Nifer y bobl wedi cofrestru o dan Lefel 2 MAPPA ar 31 Mawrth 2011[5] |
| **156** | Nifer y bobl wedi cofrestru o dan Lefel 3 MAPPA ar 31 Mawrth 2021[2] |
| **190** | Nifer y bobl wedi cofrestru o dan Lefel 3 MAPPA ar 31 Mawrth 2011[5] |

[3] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2021). *Offender Management Statistics quarterly: July to September 2021*.

[4] Mae tri chategori MAPPA: Categori 1, troseddwyr rhywiol cofrestredig; Categori 2, troseddwyr treisgar a gafwyd yn euog o drosedd treisgar penodedig a'u dedfrydu i 12 mis neu fwy yn y carchar, neu droseddwyr rhywiol anghofrestredig; Categori 3, troseddwyr peryglus eraill sydd angen rheolaeth aml-asiantaethol gyson arnynt. Oherwydd nad yw achosion Categori 3 yn awtomatig gymwys oherwydd y math o drosedd a hyd y ddedfryd, dim ond ar Lefel 2 a 3 y mae'n digwydd.

[5] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2011). *Multi-Agency Public Protection Arrangements (MAPPA) annual report: 2010 to 2011*.

[6] Mae tair lefel reoli o dan MAPPA: Lefel 1, rheolaeth asiantaethol arferol sy'n cynnwys rhannu gwybodaeth ond nid oes angen cynnal cyfarfodydd aml-asiantaethol; Lefel 2, lle y mae angen dull aml-asiantaethol weithredol a chyson; a Lefel 3 os oes hefyd angen uwch-gynrychiolwyr o'r asiantaethau perthnasol gyda'r awdurdod i ymrwymo adnoddau.

# Crynodeb gweithredol

### Rhagarweiniad

Wedi eu dyfeisio yn 2011 a chael statws statudol yn 2003, mae'r Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Aml-Asiantaethol (MAPPA) wedi bod yn eu lle ers dros 20 mlynedd bellach. Maen nhw wedi creu fframwaith aml-asiantaethol ffurfiol i geisio dod ag asiantaethau cyfiawnder troseddol, a gwasanaethau eraill, at ei gilydd i reoli'r risg a gyflwynir gan droseddwyr treisgar neu rywiol i'r cyhoedd. O dan y trefniadau hyn, y carchardai, prawf a'r heddlu yw'r awdurdod cyfrifol (RA) ym mhob ardal cyfiawnder troseddol. Mae eu hangen i sefydlu bwrdd rheoli strategol (SMB) er mwyn cyflawni'r ddyletswydd o adolygu'r trefniadau'n barhaus, monitro pa mor effeithiol ydyn nhw a gwneud unrhyw newidiadau iddynt sy'n ymddangos i fod yn angenrheidiol neu'n effeithlon. Mae gan asiantaethau perthnasol eraill ddyletswydd i gydweithredu (DTC) ar MAPPA gymaint ag y bo'n bosib ac yn unol â'u swyddogaethau statudol.

Drwy rannu gwybodaeth mewn ffordd ffurfiol, mae'n haws adnabod y risg a gyflwynir gan unigolyn a rhoi mesurau yn eu lle i leihau'r risg o achosi niwed difrifol pellach drwy gynllun rheoli risg cytunedig ar y cyd. Mae nifer yr unigolion sy'n dod o dan MAPPA'n parhau i dyfu; fodd bynnag, mae cyfran yr achosion a reolir ar Lefel 2 a 3 yn parhau i ostwng.

### Methodoleg

Edrychodd y cyd-arolygiad hwn ar waith carchardai, prawf a'r heddlu gyda darparu MAPPA. Oherwydd pandemig Covid-19, cafodd llawer o'r gwaith arolygu ei wneud o bell, gyda chyfweliadau a grwpiau ffocws yn cael eu cynnal ar-lein. Cyd-arolygwyd cyfanswm o 107 o achosion gan Arolygiaeth Prawf EM, Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM a'r Gwasanaethau Tân ac Achub (HMICFRS), wedi eu dewis o chwe ardal MAPPA. Cafodd 67 o weithwyr prawf, oedd yn gyfrifol am yr achosion yn ein sampl, eu cyfweld. Bu arolygwyr o Arolygiaeth Carchardai EM ac Arolygiaeth Prawf EM yn adolygu cofnodion 48 o garcharorion, gan gyfweld 37 ohonynt. Cynhaliwyd ystod o gyfarfodydd a grwpiau ffocws â staff sy'n darparu MAPPA ar lefelau gweithredol a strategol ar draws yr heddlu, carchardai a'r gwasanaeth prawf, a gyda chynrychiolwyr o asiantaethau dyletswydd-i-gydweithredu. Yn olaf, cynhaliodd arolygwyr o'r tair arolygiaeth ystod o gyfarfodydd ag uwch-arweinwyr o bob un o'r awdurdodau cyfrifol MAPPA sydd â chyfrifoldebau cenedlaethol ar gyfer MAPPA.

Comisiynwyd cwmni Penal Reform Solutions (PRS) i gynnal cyfweliadau o bell ag unigolion sy'n dod o dan reolaeth MAPPA. Fe wnaeth ymgynghorwyr gyda phrofiad byw o fynd drwy'r system cyfiawnder troseddol eu hunain gyfweld 41 o unigolion i holi eu barn am, a'u dealltwriaeth o, MAPPA. Mae copi o'u hadroddiad llawn ar gael yma (insert link). Rhoddir dadansoddiad mwy manwl o'n methodoleg yn Atodiad 2.

### Polisi, strategaeth ac arweinyddiaeth

Rhoddir arweinyddiaeth genedlaethol weladwy i MAPPA gan Grŵp Amddiffyn y Cyhoedd (PPG) HMPPS, sy'n cynnwys y tîm MAPPA Cenedlaethol. Mae'r tîm yn cynrychioli'r holl asiantaethau RA drwy ddod â staff ar secondiad at ei gilydd o'r heddlu, carchardai a'r gwasanaeth prawf i wneud gwaith trosolwg a chefnogi'r byrddau SMB. Mae'r tîm MAPPA Cenedlaethol yn adolygu'r canllawiau'n rheolaidd gan addasu i ateb y diben, gan gynnwys gwaith ar ddatblygu'r Categori 4 newydd ar gyfer achosion terfysgaeth yn ddiweddar, sy'n digwydd ar garlam.

Y tîm MAPPA sy'n darparu a rheoli'r wefan MAPPA, sy'n cynnig mynediad hawdd i'r canllawiau a'r dogfennau perthnasol a hefyd yn 'gwe-letya' fforymau trafod, cyfleoedd ymgynghori a diweddaru'n rheolaidd ar unrhyw newidiadau i'r canllawiau. Ar lefel weithredol, mae'r tîm MAPPA Cenedlaethol yn cynnal Grŵp Gwelliannau MAPPA (MIG) sy'n denu nifer dda o gydlynwyr MAPPA i fynychu.[7] Nod

[7] Mae'r cydlynydd MAPPA yn cefnogi a hefyd yn atebol i'r bwrdd rheoli strategol (SMB) MAPPA lleol am reoli gweithgareddau MAPPA.

y fforwm hwn yw cyfathrebu newid a rhannu ymarfer gorau. O reidrwydd, oherwydd bod MAPPA yn drefniadau lleol, mae hyblygrwydd yn y canllawiau i ganiatáu i'r model weithio ym mhob ardal cyfiawnder troseddol a chysylltu i wahanol strwythurau. Fodd bynnag, nid yw effaith yr amrywiadau lleol ar ansawdd y gwasanaeth yn cael ei fonitro ddigon yn ganolog. Ni ddefnyddir prosesau archwilio'n rheolaidd na'n gyson a phrin felly yw eu heffaith ar gymell ymarfer effeithiol. Ychwaith, nid oes cydlynu digon ar sicrhau ansawdd ar lefel genedlaethol i dynnu sylw at ymarfer gorau neu daflu golau ar beth sydd angen ei wella.

Mae'r cyfrifoldeb am lywodraethu'n gorwedd gyda Grŵp Llywio Cenedlaethol yr Awdurdodau Cyfrifol (RANSG) sy'n cael ei gyd-gadeirio gan uwch-arweinwyr o HMPPS a'r heddlu. Mae'r grŵp yn dod ag uwch-arweinwyr o bob un o'r asiantaethau RA, a chynrychiolwyr o'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a'r Bwrdd Parôl, at ei gilydd. Mae'r grŵp yn gyfrifol am y cynllun busnes MAPPA Cenedlaethol a ddefnyddir gan fyrddau SMB fel sail i'w cynlluniau lleol. Byddai'r broses cynllun busnes yn cael ei gwella ymhellach pe bai gan ardaloedd lleol fwy o fewnbwn i'r cynllun cenedlaethol, gan greu proses fwy cynhwysol. Mae gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) swyddog arweiniol ar gyfer MAPPA a'r gwaith o reoli troseddwyr rhywiol neu dreisgar (MOSOVO), sy'n helpu i wella cysondeb a pherfformiad. Yn y gwasanaeth prawf, penaethiaid amddiffyn y cyhoedd sy'n gyfrifol am MAPPA yn eu rhanbarth.

Mae gan bob ardal cyfiawnder troseddol gydlynydd MAPPA penodol. Eu rôl yw arwain ar yr ochr weithredol a bod yn gyswllt i'r SMB. O ystyried yr amrywiadau anferth ym maint ardaloedd daearyddol y cydlynwyr, mae pwysau'r rôl hon yn amrywio'n sylweddol. Er enghraifft mae gan Cumbria, oedd â 815 o droseddwyr MAPPA ar 31 Mawrth 2021, un cydlynydd, yr un fath â Llundain oedd â 10,131. Mae hyn yn golygu bod rheolwyr prawf gweithredol yn gyfrifol am dasgau MAPPA ar ben eu prif rôl, ac er eu hymdrechion gorau gall hyn olygu llai o gyswllt effeithiol ag asiantaethau partner oherwydd prinder amser.

Ar y llaw arall, mae gan rai ardaloedd fwy o adnoddau MAPPA pwrpasol ond oherwydd y ffordd y defnyddir yr adnoddau hyn, gwelsom mai ychydig iawn o effaith y maen nhw'n ei gael ar ansawdd y gwaith rheoli gan MAPPA, ac yn yr achosion gwaethaf mae'n arwain at weld MAPPA fel maes gwaith elitaidd nad yw'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn gallu uniaethu â fo. Clywsom gan staff carchardai, prawf ac o'r heddlu, mewn amrediad o wahanol swyddi, y bydden nhw'n croesawu mwy o hyfforddiant MAPPA i wella eu hyder.

### Adnabod, gosod lefelau a rhannu gwybodaeth o dan MAPPA

Mae'r tîm MAPPA Cenedlaethol yn darparu set o ddogfennau i gynorthwyo byrddau SMB i ddarparu MAPPA'n lleol. Gellir diwygio'r dogfennau hyn i ateb yr angen yn lleol er bod yn rhaid cadw rhai elfennau allweddol neu roi rhesymau dros beidio. Lle mai prawf neu'r heddlu yw'r asiantaeth arweiniol, mae ganddynt broses effeithiol i adnabod achosion sy'n awtomatig gymwys ar gyfer MAPPA ar y pwynt dedfrydu. Fodd bynnag, nid yw penderfynu ar y lefel reoli gywir bob amser yn digwydd yn brydlon, gan roi rhesymau clir, sy'n gallu effeithio'n negyddol ar reoli risg a chynllunio i ryddhau unigolion sy'n gadael y carchar. Er bod achosion Lefel 2 a 3 yn cael eu hadolygu'n rheolaidd drwy gyfarfodydd aml-asiantaethol, nid oes gan bob ardal broses effeithiol i adolygu achosion Lefel 1.

Mae dulliau'r byrddau SMB o strwythuro'r trefniadau'n amrywio, gan gynnwys y broses atgyfeirio a dehongli'r trothwy ar gyfer rheoli achosion Lefel 2 a 3. Yn ôl y canllawiau, dylid ystyried achosion ar gyfer eu rheoli o dan Lefel 2 'os byddai cyfarfodydd aml-asiantaethol ffurfiol yn ychwanegu gwerth at reolaeth yr asiantaeth arweiniol o'r risg o niwed difrifol a gyflwynir' ac aseswyd bod yr achos yn cyflwyno risg uchel neu uchel iawn o niwed difrifol, neu os yw lefel y risg yn is ond mae angen i asiantaethau eraill gyfrannu'n weithredol i reoli risgiau newydd sy'n codi.[8] Yn ein harolygiad yn 2011 (Arolygiaethau Cwnstabliaeth a Phrawf EM, 2011), dywedsom y dylai'r trothwy fod yn uchel oherwydd yr adnoddau sydd eu hangen i reoli achosion Lefel 2 a 3. Fodd bynnag, mewn rhai

[8] Mae Lefel 2 hefyd ar gael ar gyfer unigolion sydd wedi eu rheoli ar Lefel 3 ond nad oes angen eu rheoli ar y lefel honno mwyach.

ardaloedd mae’r trothwy wedi mynd yn rhy uchel a rhy gul ei sgôp fel bod achosion ond yn cael eu dyrannu i’w rheoli ar Lefel 2 os oes rhwystr i ddefnyddio adnodd na ellir ei gyflawni'r un ffordd arall. Mae’r dehongliad hwn yn golygu bod achosion cymhleth yn cael eu gwrthod pan fo gwir angen trosolwg ac atebolrwydd aml-asiantaethol. Mewn rhai ardaloedd sy’n gwneud hyn, mae MAPPA’n mynd yn rhywbeth ymylol sy’n cael ei danbrisio a’i danddefnyddio gan ymarferol.

Cyn pandemig Covid-19, roedd angen cynrychiolaeth wyneb yn wyneb gan asiantaethau DTC ac RA yng nghyfarfodydd MAPPA, a allai fod yn anodd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mae’r rhan fwyaf o’r cynrychiolwyr wedi croesawu symud at gyfarfodydd MAPPA ar-lein ac mae nifer dda fel arfer yn mynychu. Mae sgôp y dangosyddion perfformiad allweddol (KPI) yn eithaf cyfyng ond yn ysgogi presenoldeb da yn y cyfarfodydd MAPPA ac SMB. Mae gan y rhan fwyaf o ardaloedd banel sefydlog o gynrychiolwyr sy’n mynychu cyfarfodydd Lefel 2 a 3 i roi cyngor arbenigol i gefnogi trafodaethau. Yn wahanol i ganfyddiad arolygiadau MAPPA blaenorol, mae’r cyfarfodydd erbyn hyn yn cynhyrchu camau gweithredu clir fel arfer, sy’n cysylltu’n uniongyrchol i reoli risg. Cedwir cofnodion o’r cyfarfod bob tro; ond cawsom nad yw gwybodaeth hanfodol bob amser yn cael ei diweddaru yn y cofnodion, yn enwedig y cynllun rheoli risg. Mae templed y cofnodion yn feichus ac nid yw bob amser yn hawdd gwahaniaethu rhwng y camau gweithredu presennol a’r rhai blaenorol. Dyluniwyd set ddiwygiedig o ddogfennau i ateb y problemau hyn ond nid ydynt yn cael eu defnyddio eto.

Oherwydd pryderon cynyddol am y lefel uchel o gam-drin domestig, penderfynwyd ehangu canllawiau MAPPA i annog ystyried defnyddio Categori 3 mewn achosion cam-drin domestig perthnasol; fodd bynnag ni ddaeth hyn yn arferol eto, yn enwedig ar gyfer rhai sy’n cyflawni troseddau lefel is dros gyfnod o amser ond sy’n cyflwyno risg wirioneddol o niwed i’w dioddefwyr drwy gam-drin hirdymor.

Y databas ViSOR yw’r storfa ddynodedig ar gyfer gwybodaeth risg am achosion MAPPA. Fodd bynnag, er iddo fod ar gael i bob un o’r tair asiantaeth RA ers tua 15 mlynedd, nid yw’n cael ei ddefnyddio fel y dylai. Nid yw cofnod ViSOR yn cael ei greu i bob achos MAPPA a’r heddlu yw’r unig asiantaeth sy’n ddibynadwy am ychwanegu gwybodaeth risg. Pur anaml y defnyddir ViSOR gan staff carchardai a phrawf ac nid yw’r rhan fwyaf yn glir beth yw manteision na phwrpas y system.

### Cadw pobl yn ddiogel

Pan fydd yr unigolion iawn yn cael eu hatgyfeirio, barnwn ar y cyfan fod MAPPA’n ychwanegu gwerth at reoli achosion Lefel 2 a 3. Mae achosion Lefel 2, ac yn enwedig rhai Lefel 3, yn cael eu rheoli’n dda gan ddangos bod gwybodaeth gyfunol yr asiantaethau sy’n cyfrannu at achos yn gallu cyflymu mynediad at wasanaethau, ac mewn rhai achosion yn derbyn cymorth na fyddai wedi bod ar gael fel arall. Mae rheolaeth o dan MAPPA hefyd yn cyfrannu trosolwg a chraffu i’r achosion mwyaf cymhleth, sy’n werthfawr ynddo’i hun. Mewn achosion lle yr ymddengys nad oes fawr o obaith y bydd unigolyn peryglus yn newid er gwell, mae’n hanfodol sicrhau bod yr holl wybodaeth wedi’i rhannu a bod yr asiantaethau’n gwneud eu gorau i reoli’r risg. Er gwaethaf potensial positif MAPPA, gwelsom fylchau mewn rhai achosion. Yn rhy aml, mae achosion sy’n cael eu hatgyfeirio’n hwyr yn atal cynllunio cyn-rhyddhau i unigolion sy’n dod allan o’r carchar gan olygu nad yw trefniadau pwysig, fel llety, yn eu lle’n ddigon cynnar. Nid yw trefniadau munud olaf yn helpu o gwbl i sicrhau bod unigolion sy’n cael eu rhyddhau’n gwybod beth sy’n ddisgwyliedig ohonynt na’n eu hannog i gydymffurfio ag amodau eu trwydded. Mae ansawdd y wybodaeth a roddir gan garchardai i gyfarfodydd MAPPA’n gwella ond weithiau’n parhau i fod yn brin o fanylion am sut y mae unigolyn wedi ymddwyn drwy gydol eu dedfryd. Nid yw staff carchardai y tu allan i unedau rheoli troseddwyr (OMU) bob amser yn llwyr ddeall pa wybodaeth sy’n bwysig i’r risg a gyflwynir gan unigolyn, a dylid felly ei rhannu, ac nid yw rhai adrannau diogelwch yn rhannu gwybodaeth bwysig â staff rheoli troseddwyr a chyfarfodydd MAPPA, fel mater o drefn. Yn ogystal, mae’r diffyg adnoddau i fonitro cyfathrebu carcharorion yn golygu y collir cyfleoedd i adnabod a rhoi sylw i’r risgiau a gyflwynir gan unigolion peryglus.

Er i Fframwaith Polisi Lefel 1 gael ei gyhoeddi’n ddiweddar ar gyfer achosion a reolir gan y Gwasanaeth Prawf, credwn fod lle i wella sut y rheolir achosion Lefel 1. Yn y rhan fwyaf o

ardaloedd, roedd gormod o'r achosion hyn yn talu sylw annigonol i hel gwybodaeth gan asiantaethau eraill i oleuo adolygiadau. O ganlyniad, mewn rhai achosion nid oedd yr ymarferwyr cyfrifol yn ymwybodol o wybodaeth bwysig na'n cymryd y camau priodol i roi sylw i risgiau newydd. Yn rhy aml, nid oedd trosolwg y broses reoli'n ateb y diffygion yn yr achosion hyn. Lle'r oedd prosesau trylwyr ac adnoddau da i adolygu achosion Lefel 1, gwelsom ddarlun gwahanol a llawer mwy positif. Yn yr ardaloedd hyn, roedd ansawdd y gwaith o reoli achosion Lefel 1 yn debyg i Lefel 2 a 3.

# Argymhellion

Dylid cwblhau'r argymhellion o fewn 12 mis.

**Dylai Grŵp Amddiffyn y Cyhoedd Gwasanaeth Prawf a Charchardai Ei Mawrhydi:**

1. diwygio'r canllawiau fel bo'n ofynnol i holl achosion MAPPA gael cofnod wedi'i greu yn y data-bas aml-asiantaethol cyffredin (ViSOR ar hyn o bryd, fydd yn cael ei ddisodli gan system amddiffyn y cyhoedd aml-asiantaethol MAPPS).
2. adolygu *aide-memoire* agenda cyfarfodydd MAPPA i gynnwys proc i glywed cyfraniadau gan yr unigolyn sy'n destun y cyfarfod MAPPA.
3. casglu gwybodaeth archwilio a sicrhau ansawdd gan y byrddau rheoli strategol a chyflwyno adroddiadau dadansoddol cenedlaethol i dynnu sylw at anghysondeb a hyrwyddo bod yn fwy cyson wrth osod lefelau.

**Dylai Grŵp Llywio Cenedlaethol Awdurdodau Cyfrifol MAPPA:**

4. datblygu hunanasesiad y gall byrddau rheoli strategol eu defnyddio i adolygu eu trefniadau ar gyfer hyrwyddo cysondeb ac ymarfer gorau, a sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i wneud y gwaith MAPPA angenrheidiol.
5. adolygu canllawiau MAPPA i ehangu'r ystod o swyddi sy'n cael cadeirio byrddau SMB yr heddlu.

**Dylai'r byrddau rheoli strategol:**

6. cynnal grwpiau gorchwyl a gorffen i adolygu'r adnoddau ar gyfer MAPPA yn eu hardal i sicrhau bod digon o staff ar gael i sgrinio atgyfeiriadau, cynllunio a chadeirio cyfarfodydd a chynhyrchu cofnodion cyfarfodydd cywir yn brydlon.
7. dadansoddi data atgyfeirio lleol o leiaf ddwywaith y flwyddyn i sicrhau bod yr holl achosion priodol yn cael eu hatgyfeirio at MAPPA a bod ffocws ar amrywiaeth ac anghymesuredd yn y cohort MAPPA.
8. sicrhau bod y sgrinio yn eu hardal yn derbyn bod trosolwg aml-asiantaethol o achosion cymhleth yn rheswm dilys ac angenrheidiol dros ddyrannu achosion i Lefel 2 a 3.
9. gweithredu panel sefydlog ar gyfer cyfarfodydd MAPPA Lefel 2 a 3 gyda chynrychiolaeth, o leiaf, gan asiantaethau'r awdurdodau cyfrifol, gwasanaethau gofal cymdeithasol plant, gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau tai awdurdod lleol i sicrhau bod gan bob cyfarfod ddigon o wybodaeth ac arbenigedd i gynorthwyo rheoli risg.
10. archwilio a sicrhau ansawdd achosion MAPPA ddwywaith y flwyddyn, gan gynnwys achosion Lefel 1 ac atgyfeiriadau Lefel 2 a 3 a wrthodwyd, er mwyn ysgogi ymarfer da, sicrhau bod achosion priodol yn cael eu hatgyfeirio, a datblygu sgiliau cadeiryddion MAPPA.

**Dylai'r Gwasanaeth Prawf sicrhau:**

11. bod lefelau MAPPA achosion carcharu a chymunedol yn cael eu penderfynu'n amserol, gan ystyried y dyddiad rhyddhau cynharaf posib ac unrhyw ryddhau dros dro, a bod ganddynt yr holl wybodaeth angenrheidiol gan yr holl asiantaethau perthnasol ym mhob achos.

**Dylai'r Gwasanaeth Prawf a Charchardai sicrhau:**

12. bod gan bob achos Lefel 1 drosolwg rheoli boddhaol gyda ffocws priodol ar gyfnewid a rhannu gwybodaeth ag asiantaethau eraill i oleuo asesu ac adolygu risg.
13. bod cofnodion ViSOR yr holl achosion MAPPA'n cael eu diweddaru i roi darlun llawn o'r holl wybodaeth risg berthnasol.

**Dylai'r gwasanaeth prawf, yr heddlu a charchardai sicrhau:**

14. bod atgyfeiriadau Categori 3 yn cael eu gwneud i reoli unigolion sy'n cyflwyno risg uchel o gam-drin domestig lle y byddai rheolaeth a throsolwg aml-asiantaethol ffurfiol drwy MAPPA'n ychwanegu gwerth i'r cynllun rheoli risg.
15. bod strategaeth hyfforddi gynhwysfawr ar gyfer yr holl staff sy'n rhan o'r broses MAPPA gan wneud defnydd llawn o'r pecynnau hyfforddiant presennol fel bod staff ym mhob rôl yn gallu paratoi ar gyfer a chyflwyno neu gyfrannu at achos mewn fforwm aml-asiantaethol a deall sut y mae MAPPA'n cysylltu i fforymau aml-asiantaethol eraill fel Rheolaeth Integredig o Droseddwyr a Chynadleddau Asesu Risg Aml-Asiantaethol (MARAC).

**Dylai'r carchardai sicrhau:**

16. bod prosesau amddiffyn y cyhoedd mewn carchardai, gan gynnwys monitro cyfathrebu, yn cael eu dilyn yn drylwyr er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gyda chyfiawnhad am sut y rheolir carcharorion yn defnyddio MAPPA.
17. bod yr uned rheoli troseddwyr yn derbyn adnoddau a hyfforddiant llawn i ddarparu gwaith MAPPA effeithiol mewn carchardai.

**Dylai heddluoedd sicrhau:**

18. bod yr holl achosion MAPPA a reolir ar Lefel 2 a 3 yn cael eu dyrannu i reolwr troseddwyr heddlu hyfforddedig.
19. bod llwythi gwaith staff sy'n rheoli troseddwyr rhyw yn cael eu hadolygu yn erbyn disgwyliadau cenedlaethol, ac os ydynt yn rhy drwm y dylid eu hysgafnu a chyfathrebu hyn i'r staff perthnasol.

# 1. Rhagarweiniad

## 1.1. Pam y thema hon?

Mae'r arolygiad hwn wedi'i gomisiynu gan y Grŵp Prif Arolygwyr Cyfiawnder Troseddol ac mae'n rhan o *Gynllun Busnes Cyd-Arolygiad 2021-2023.*

Ar 31 Mawrth 2021 roedd 87,657 o unigolion cymwys ar gyfer MAPPA yng Nghymru a Lloegr.[9] Rheolir y rhan fwyaf gan y Gwasanaeth Prawf gan felly gyfrif am gyfran helaeth o'r llwyth achosion o tua 234,827 sydd gan y Gwasanaeth Prawf.[10] Mae ychydig dros hanner y boblogaeth garchardai'n garcharorion MAPPA.

Tynnodd ein harolygiad diwethaf o MAPPA (gan Arolygiaethau Cwnstabliaeth a Phrawf EM, 2015) sylw at y ffaith bod y mwyafrif llethol (97% bryd hynny, 98.4% erbyn hyn)[5] o achosion cymwys ar gyfer MAPPA'n cael eu rheoli ar Lefel 1 gan awgrymu bod hwn yn faes gwaith oedd angen ei gyd-arolygu, yn enwedig oherwydd bod nifer yr achosion a reolir ar Lefel 2 a 3 yn parhau i ostwng. Roedd ein gwaith maes felly'n ystyried gwerth MAPPA i'r tair lefel o reoli achosion. Gyda'r mewnbwn ychwanegol gan Arolygiaeth Carchardai EM, buom yn trafod ansawdd ymgysylltu pob un o'r tri awdurdod sydd â chyfrifoldeb am MAPPA. Oherwydd bod gan y rhan fwyaf o achosion MAPPA gyswllt â'r heddlu, carchar a phrawf, roedd cyfranogiad y tair arolygiaeth berthnasol yn gyfle i ni lunio barn holistig am ba mor effeithiol yw polisïau, prosesau a chyfathrebu ar MAPPA rhwng pob un o'r asiantaethau.

Ers ein harolygiad diwethaf, mae'r gwasanaethau prawf wedi uno a gwnaed newidiadau i'r trefniadau ar gyfer pobl sy'n gadael y carchar o dan y trefniadau Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMIC). Bu'r arolygiad hwn yn ystyried pa gynnydd a wnaed ag argymhellion yr arolygiadau ac adolygiadau blaenorol gan drafod pa mor effeithiol yw'r newidiadau a wnaed i wasanaethau.

## 1.2. Y cefndir

### Rhagarweiniad

Cyflwynwyd MAPPA yn 2001 o dan *Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2002* a chawsant yna eu cryfhau gan *Ddeddf Cyfiawnder Troseddol (CJA) 2003* fel y trefniant statudol ar gyfer rheoli troseddwyr rhywiol a threisgar. Mae'n cynnig cyfrwng fel bod asiantaethau'n gallu cyflawni eu cyfrifoldebau'n well ac amddiffyn y cyhoedd mewn ffordd fwy cydlynus. Fodd bynnag nid yw'n gorff statudol ac mae cyfrifoldebau a dyletswyddau llawn pob asiantaeth yn parhau. Roedd *CJA 2003* yn darparu ar gyfer sefydlu MAPPA ym mhob un o'r 42 ardal cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr. Gall gwaith amddiffyn y cyhoedd o ansawdd uchel, a rhannu gwybodaeth yn effeithiol, leihau ond nid dileu'r potensial o achosi risg o niwed difrifol.

Mae'r awdurdod cyfrifol am MAPPA ym mhob ardal cyfiawnder troseddol yn cynnwys yr heddlu, prawf a charchardai, sy'n gweithio gyda'i gilydd i drefnu i asesu a rheoli'r risg a gyflwynir gan droseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA drwy sefydlu bwrdd rheoli strategol (SMB) i gadw trosolwg ar MAPPA yn yr ardal.

Mae gan asiantaethau eraill 'ddyletswydd i gydweithredu' (DTC) â'r awdurdod cyfrifol. Y rhain yw:

- timau troseddwyr ifanc (YOT)
- yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)
- y Weinyddiaeth Amddiffyn
- Addysg, y gwasanaethau cymdeithasol, a chyfrifoldebau iechyd awdurdodau lleol

---


[9] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2021). *Multi-Agency Public Protection Arrangements (MAPPA): annual report 2020 to 2021.*

[10] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2021). *Offender Management Statistics quarterly: July to September 2021.*


- NHS England
- yr awdurdod iechyd
- y grŵp comisiynu clinigol (CCG) neu'r bwrdd iechyd lleol
- yr Ymddiriedolaeth GIG
- yr awdurdod tai lleol
- darparwyr tai cymdeithasol preifat cofrestredig, a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sy'n darparu neu'n rheoli tai preswyl y gallai troseddwyr MAPPA fod yn byw ynddynt
- darparwyr gwasanaethau monitro electronig
- Fisas a Mewnfudo'r DU, Llu Ffiniau'r DU, a Gorfodaeth Mewnfudo'r DU (Y Swyddfa Gartref).

**Lefelau a chategorïau MAPPA**


Mae unigolion yn dod yn gymwys am eu rheoli o dan MAPPA drwy ddisgyn i un o dri chategori. Mae cymhwyso'n awtomatig ar gyfer Categorïau 1 a 2 yn digwydd ar sail dedfryd yr unigolyn.




Unwaith y mae achos yn cael ei adnabod i fod yn gymwys ar gyfer MAPPA, penderfynir ar y lefel reoli. Dim ond ar Lefel 2 a 3 y mae achosion Categori 3 yn bodoli.





Mae poblogaeth MAPPA wedi parhau i dyfu, wedi'i gyrru'n bennaf gan y cynnydd yn y nifer a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol sydd yna'n wynebu cyfnodau hir o hysbysiad, a hyd y dedfrydau o garchar am droseddau rhyw difrifol, sy'n cael effaith gronnus ar niferoedd MAPPA.




Yn wahanol i'r niferoedd yn gyffredinol, mae nifer yr unigolion a reolir ar Lefel 2 wedi gostwng.[11]

[11] Cafodd y cwestiwn a ofynnwyd i ardaloedd MAPPA ei newid yn 2015/2016 felly ni ellir cymharu'r ffigurau â rhai blynyddoedd blaenorol. Dim ond troseddwyr a reolir yn y gymuned y mae ffigurau 2015/2016 ymlaen yn ei gynnwys, o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol pryd yr oedd rhai ardaloedd yn cynnwys troseddwyr a reolir yn y carchar.




**Set ddogfennau MAPPA**

Mae'r tîm MAPPA Cenedlaethol yn darparu set o ddogfennau templed a ddefnyddir yn y broses MAPPA. Mae'r dogfennau allweddol hyn yn cynnwys:

| Enw'r ffurflen | Disgrifiad |
|---|---|
| **MAPPA A – Atgyfeiriad at Lefel 2 neu 3** | Ffurflen atgyfeirio gychwynnol yn cynnwys manylion personol yr unigolyn, asesiad risg a chynllun rheoli risg, y rhesymau dros atgyfeirio a'r asiantaethau sydd i'w gwahodd i fynychu cyfarfodydd. |
| **MAPPA B – Cofnodion cyfarfodydd** | Templed cofnodion cyfarfodydd; dogfen gronnol a ychwanegir at bob cyfarfod, ac yn cynnwys yr holl gamau gweithredu blaenorol a phresennol. |
| **MAPPA C - Agenda** | Hefyd yn cael ei alw'n *aide-memoire* (cymorth cof) ar gyfer cadeiryddion MAPPA i'w helpu i strwythuro cyfarfodydd. |
| **MAPPA F – Adroddiad gan garchardai** | Adroddiad rhannu gwybodaeth a gwblheir gan staff carchardai i roi gwybodaeth am ymddygiad / cynnydd yn ystod y ddedfryd, yn cynnwys gwybodaeth ddiogelwch i gyfarfodydd MAPPA yn y gymuned. |
| **MAPPA K – Archwiliad achosion** | Ffurflen ffurfiol ar gyfer cynnal archwiliad o achos unigol ac ystyried ansawdd rheoli'r achos, gan gynnwys 'sgôr' rhifyddol. |
| **MAPPA L – Archwiliad cyfarfodydd** | Ffurflen ffurfiol ar gyfer cynnal archwiliad o gyfarfod unigol ac ystyried pa mor dda y cafodd y cyfarfod ei reoli, gan gynnwys sgôr rhifyddol. |
| **MAPPA N – Hysbysiad SFO** | Hysbysiad i'w gwblhau pan fydd unigolyn a reolir gan MAPPA'n cael ei gyhuddo o drosedd pellach difrifol ac i gofnodi'r penderfyniad ynghylch a oes angen adolygiad achos difrifol o dan MAPPA. |
| **MAPPA Q – Ffurflen sgrinio** | Ffurflen ticio bocsys i ymarferwyr i'w cynorthwyo i ystyried y lefel reoli briodol o dan MAPPA. |

### Ymchwil a datblygu

Mae ymchwil academaidd wedi cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad MAPPA. Yn fwy diweddar, mae strwythur cyfarfodydd MAPPA wedi cael ei wella drwy ddilyn y dull 'Pedwar Piler' a ddatblygwyd gan yr Athro Hazel Kemshall er mwyn rheoli ac asesu risg mewn ffordd gymesur, dryloyw a chytbwys. Mae gan y dull Pedwar Piler (Kemshall, 2010) bedwar gweithgaredd neu 'biler' allweddol: goruchwyliaeth; monitro a rheoli; ymyriadau a thriniaeth; a chynllunio diogelwch dioddefwyr. Mae'r model hwn wedi'i fabwysiadu fel yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio ar gyfer strwythuro cyfarfodydd MAPPA i sicrhau bod camau rheoli risg, sy'n aml yn fesurau rheoli allanol, yn cael eu cydbwyso â gweithgareddau adsefydlu i hyrwyddo newid mewnol a ffactorau gwarchodol.

### Arolygiadau blaenorol ac adolygiadau annibynnol

Roedd ein harolygiad cyntaf o waith MAPPA cynnar yn 2006 wedi sefydlu man cychwyn ar gyfer cynnydd (Arolygiaethau Cwnstabliaeth, Prawf a Charchardai EM, 2006). Ar y cyfan, barnodd yr arolygwyr fod gwaith MAPPA'n cael ei wneud yn dda yn y rhan fwyaf o'r achosion. Fodd bynnag, roedd y gwaith yn y gymuned yn gryfach na'r gwaith mewn carchardai. Yn amlwg roedd angen i staff carchardai a phrawf dalu mwy o sylw i baratoi troseddwyr ar gyfer eu rhyddhau. Roedd MAPPA wedi eu cyflwyno heb gyllideb benodol ac roedd yr adnoddau'n anghyson rhwng gwahanol ardaloedd. Nid oedd amddiffyn y cyhoedd yn rhan o gynllun busnes pob asiantaeth; roedd angen arweinyddiaeth gryfach i wella safonau hyfforddiant, rhannu gwybodaeth a gweithio ar y cyd.

Cynhaliwyd arolygiad pellach o MAPPA yn 2011 (Arolygiaethau Cwnstabliaeth a Phrawf EM, 2011) gydag ôl-arolygiad yn 2015 (Arolygiaethau Cwnstabliaeth a Phrawf EM, 2015). Bu'r ddau arolygiad yn ystyried ansawdd y gwaith o reoli achosion Lefel 2 a 3 o dan MAPPA. Casglodd ein harolygiad yn 2015, er bod ansawdd y gwaith a wneir gyda throseddwyr MAPPA Lefel 2 a 3 wedi gwella o'i gymharu â 2011, bod angen gwella'r cynlluniau rheoli risg o hyd. Roedd ansawdd y cofnodion hefyd yn parhau i fod yn anghyson ac nid oedd yr awdurdodau cyfrifol (RA) a'r asiantaethau dyletswydd-i-gydweithredu (DTC) wedi'u cynrychioli yn y cyfarfodydd bob tro. Nid oedd y defnydd o ViSOR (y gofrestr troseddwyr treisgar a rhywiol yn flaenorol) wedi datblygu'n iawn fel offeryn gweithio ar y cyd, ac roeddem yn poeni'n arbennig am y defnydd o ViSOR mewn carchardai, lle'r oedd yn brin gweld gwybodaeth risg berthnasol wedi'i chofnodi.

Mae ymarfer MAPPA wedi dod dan y chwyddwydr mewn adolygiadau ac ymchwiliadau proffil uchel, gan gynnwys yr adolygiad annibynnol o MAPPA ar gyfer troseddwyr risg terfysgaeth (Hall, 2020) a chwestau'r Crwner i'r ymosodiad ar Fishmonger's Hall (Crwner EM, 2021). Roedd yr adolygiadau annibynnol o achosion Leroy Campbell (Arolygiaeth Prawf EM, 2018) a Joseph McCann (Arolygiaeth Prawf EM, 2020) wedi codi pryderon am y broses o osod lefelau o dan MAPPA gan gasglu, yn y ddau achos, bod rheolaeth ar Lefel 1 yn amhriodol. Yn yr achos olaf, cafodd y rheolaeth Lefel 2 ei gostwng 12 diwrnod ar ôl rhyddhau'r unigolyn o'r carchar, oedd yn rhy fuan.

## 1.3. Nodau ac amcanion

**Roedd yr arolygiad hwn yn ceisio ateb y cwestiynau canlynol:**

- Ydy'r llywodraethu a'r arweinyddiaeth gan asiantaethau'r awdurdodau cyfrifol yn cynorthwyo a hyrwyddo darparu dull ymatebol, ansawdd uchel wedi'i bersonoleiddio o ddarparu MAPPA?
- Ydy sgiliau'r holl staff sy'n rhan o MAPPA'n cynorthwyo i ddarparu trefniadau o ansawdd uchel?
- A oes gwybodaeth amserol a pherthnasol ar gael i gynorthwyo MAPPA ansawdd uchel?
- A oes trefniadau â phartneriaid statudol, darparwyr ac asiantaethau eraill wedi eu sefydlu ac yn cael eu cynnal a'u defnyddio'n effeithiol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd?
- Pa mor effeithiol yw MAPPA gyda chadw pobl yn ddiogel?

## 1.4. Sgôp yr arolygiad

Roedd sgôp yr arolygiad hwn yn ymwneud â rheoli achosion ar bob lefel a chategori o dan MAPPA lle’r oedd yr heddlu neu’r gwasanaeth prawf yn asiantaeth arweiniol. Roedd ein sampl achosion cymunedol yn cynnwys achosion ar drwydded ar ôl eu rhyddhau o’r carchar, yn ogystal â rhai gyda gorchymyn dedfryd ohiriedig neu gymunedol. Ni chafodd achosion lle’r oedd y gwasanaethau iechyd meddwl neu gyfiawnder ieuenctid yn asiantaeth arweiniol eu cynnwys o gofio bod ein ffocws ar reolaeth carchardai, prawf a’r heddlu o achosion. Ni wnaethom gynnwys achosion troseddwyr terfysgaeth a gafwyd yn euog, a ystyriwyd yn helaeth gan yr adolygiad annibynnol o MAPPA a ddefnyddir i oruchwylio troseddwyr terfysgaeth a risg-o-derfysgaeth, a wnaed gan Jonathan Hall CF ac a gyhoeddwyd yn 2020 (Hall, 2020).

### 1.5. Amlinelliad o’r adroddiad

| Pennod | Cynnwys |
|---|---|
| 2. Arweinyddiaeth, strategaeth, a pholisi | Mae’r bennod hon yn ystyried y trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu cenedlaethol ar gyfer MAPPA. Mae’n edrych ar drefniadau holl asiantaethau’r awdurdodau cyfrifol ac ar rôl a chyfrifoldebau byrddau rheoli strategol a swyddogion cynghori lleyg MAPPA. |
| 3. Adnabod, gosod lefelau a rhannu gwybodaeth o dan MAPPA | Mae’r bennod hon yn adolygu’r trefniadau ar gyfer adnabod troseddwyr sy’n gymwys ar gyfer MAPPA a gosod lefelau rheoli ar eu cyfer. Mae’n ystyried y prosesau a’r adnoddau sy’n ategol i ddarparu MAPPA. |
| 4. Cadw pobl yn ddiogel | Mae’r bennod hon yn nodi canfyddiadau ein harolygiadau achos ac yn trafod pa mor effeithiol yw MAPPA ar bob lefel reoli. |

# 2. Arweinyddiaeth, strategaeth, a pholisi

Mae'r bennod hon yn ystyried y trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth cenedlaethol ar gyfer MAPPA. Mae'n edrych ar drefniadau holl asiantaethau'r awdurdodau cyfrifol ac ar rôl a chyfrifoldebau byrddau rheoli strategol a swyddogion cynghori lleyg MAPPA.

## 2.1. Arweinyddiaeth a llywodraethu cenedlaethol

Ar lefel genedlaethol, llywodraethir MAPPA gan Grŵp Llywio Cenedlaethol yr Awdurdodau Cyfrifol (RANSG). Mae ei gylch gorchwyl yn cynnwys sicrhau bod prosesau MAPPA'n cael eu datblygu a'u rhannu â'r holl asiantaethau awdurdod cyfrifol (RA) a dyletswydd-i-gydweithredu (DTC) a rhanddeiliaid eraill. Mae'r grŵp yn cael ei gyd-gadeirio gan bennaeth Grŵp Amddiffyn y Cyhoedd (PPG) Gwasanaethau Prawf a Charchardai EM (HMPPS) a'r swyddog arweiniol ar gyfer Rheoli Troseddwyr Rhywiol a Threisgar (MOSOVO) o Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC). Ei nod yw hyrwyddo cysondeb wrth weithredu ymarfer gorau ledled Cymru a Lloegr. Mae'r rhai sy'n mynychu'r cyfarfodydd yn barnu eu bod yn werthfawr ac esboniadol. Y RANSG sy'n gyfrifol am ddatblygu'r cynllun busnes MAPPA cenedlaethol (a adolygir bob dwy flynedd) a ddefnyddir gan y byrddau rheoli strategol (SMB) fel sail i'w cynlluniau lleol. Clywsom am rwystredigaeth rhai cadeiryddion SMB gyda'r cylch cynllun busnes cenedlaethol ac nad oedd ganddynt ddigon o ran yn y broses; fodd bynnag, ar draws y rhanbarthau, mae anghysondeb o ran pwy sy'n mynychu'r RANSG, a allai effeithio ar ddosbarthu gwybodaeth yn yr ardaloedd lleol. Mae'r trefniadau'n sicrhau cyfeiriad clir a chyfathrebu effeithiol pan wneir newidiadau i MAPPA ar lefel genedlaethol. Fodd bynnag, gallent fod yn fwy effeithiol drwy adolygu'r aelodaeth a mynnu ar adborth gwell fel bod byrddau SMB yn gallu rhannu data a thueddiadau atgyfeirio er mwyn gwella cysondeb.

Mae ystod o ddigwyddiadau annisgwyl wedi rhwystro cynnydd y cynllun busnes MAPPA cenedlaethol presennol. Roedd adolygiad annibynnol o MAPPA ar gyfer achosion terfysgaeth a risg-o-derfysgaeth wedi cyfeirio ffocws y tîm cenedlaethol i'r maes gwaith hwn a chreu categori MAPPA newydd. Er hyn, mae'r tîm wedi diwygio'r dogfennau ynghyd â'r canllawiau ar gam-drin domestig a stelcian. Mae'r tîm hefyd wedi gwneud defnydd da o'r arbedion a wneir o gyfarfod ar-lein gan ddatblygu cyswllt mwy rheolaidd â chadeiryddion SMB. Mae cynlluniau hefyd i gryfhau'r canllawiau ar staff carchardai'n mynychu cyfarfodydd MAPPA. Dywedodd cadeiryddion SMB a chydlynwyr MAPPA yn ardaloedd ein hymweliadau fod y tîm MAPPA Cenedlaethol yn hygyrch ac ymatebol pan oedd angen cymorth arnynt.

### Strategaeth a pholisi MAPPA

Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder sy'n gyfrifol am ganllawiau a pholisi statudol MAPPA a'r tîm MAPPA Cenedlaethol sy'n eu drafftio - tîm amlddisgyblaethol sy'n cynnwys gweision sifil a staff ar secondiad o'r heddlu a HMPPS. Mae'r tîm yn datblygu canllawiau a pholisi ar gyfer asiantaethau'r awdurdodau cyfrifol mewn cydweithrediad â'r NPCC a'r Coleg Plismona, lle bo'n briodol. Mae'r tîm hefyd yn gyfle i'r rhai sy'n rhan o ddarparu MAPPA gael dod at ei gilydd i drafod ymarfer gorau a datblygu'r trefniadau; mae'r rhain yn cynnwys Grŵp Gwelliannau MAPPA (MIG) a fynychir gan gydlynwyr MAPPA, a fforwm ar gyfer cadeiryddion y byrddau SMB. Mae'r tîm hefyd yn gwe-letya gwefan MAPPA sy'n darparu cymunedau ar-lein y gall partïon budd ymuno â nhw i gyfrannu at drafodaethau. Mae'r wefan hefyd yn ffordd hawdd ei deall o gael gafael ar ganllawiau MAPPA. Oherwydd mai trefniadau lleol yw MAPPA, gall byrddau SMB ddewis sut i weithredu'r canllawiau. Fodd bynnag, gallai'r tîm MAPPA cenedlaethol wneud mwy i hyrwyddo ymarfer gorau ar sail gallu gweld y darlun cenedlaethol cyffredinol gyda'r data sydd ar gael iddynt. Er enghraifft, mae amrywiadau sylweddol rhwng ardaloedd MAPPA o ran nifer yr achosion a reolir ar Lefel 2 a 3. Gellid edrych yn fwy manwl ar hyn i weld pa ffactorau sy'n cyfrannu at hyn a chefnogi'r byrddau SMB i sicrhau y rheolir yr achosion iawn ar y lefel iawn.

Mae'r tîm MAPPA cenedlaethol yn ymgynghori â rhanddeiliaid, drwy grwpiau ffocws a'r wefan, ar unrhyw newidiadau i ganllawiau MAPPA neu i'r dogfennau. Er hyn, niferoedd cymharol fach sy'n

ymateb i ymgynghori ar newidiadau ac ystyriwyd bod sgôp i gynnwys mwy o staff rheng flaen mewn peilota newidiadau. Clywsom hefyd am y farn gymysg ymhlith uwch-arweinwyr yn y Gwasanaeth Prawf am amseriad a'r dull o gyflwyno Fframwaith Polisi Lefel 1 y Gwasanaeth Prawf, gan ddod yn fuan iawn ar ôl uno'r gwasanaethau ac ar adeg o newid sylweddol. Roedd pob rhanbarth hefyd wedi'i weithredu'n wahanol. Roedd hyn yn aneffeithlon a byddai wedi bod yn well pe bai wedi'i ddarparu drwy ddull cenedlaethol.

### Rheoli perfformiad

Nid oes data-bas canolog o achosion MAPPA sy'n golygu bod adrodd cynhwysfawr neu ddadansoddi data'n amhosib. Nid oes gan bob achos MAPPA gofnod ViSOR ac mae amrediad o wybodaeth yn cael ei storio ar draws systemau gwybodaeth yr heddlu, carchardai a phrawf heb lawer o ryngwyneb rhyngddynt. Rhaid i bob SMB gasglu a dadansoddi data ar y dangosyddion perfformiad allweddol (KPI). Mae'r rhain yn ymwneud ag adolygu achosion yn gyfnodol bob yn hyn a hyn, bod datgeliadau wedi eu hystyried a phenderfyniadau wedi eu cofnodi, a bod asiantaethau'n mynychu'r cyfarfodydd SMB a rhai Lefel 2 a 3. Roedd arolygiad 2015 (Arolygiaethau Cwnstabliaeth a Phrawf EM, 2015) yn argymell ailystyried y dangosyddion KPI hyn oherwydd nad ydynt yn gwneud digon i fesur na dangos canlyniadau MAPPA. Mae'r tîm MAPPA Cenedlaethol yn derbyn cyfyngiadau'r dangosyddion KPI presennol ac wedi eu hystyried ond heb eu newid eto oherwydd eu bod yn teimlo y byddai adnabod mesurau ychwanegol sy'n ystyried effaith MAPPA, yn hytrach na gwaith yr asiantaethau perthnasol, yn anodd a chymhleth. Er y derbyniwn y trafferthion hyn, mae angen dull mwy cydlynus o sicrhau ansawdd ac archwilio i sicrhau bod canlyniadau'n cael eu hystyried yn briodol fel mesur o ba mor effeithiol yw MAPPA.

Casglodd dadansoddiad o ddata ail-droseddu ar gyfer troseddwyr cymwys ar gyfer MAPPA gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn 2015 (Bryant, Peck a Lovbakke, 2015), oherwydd cyfyngiadau'r data a'r dulliau o ddadansoddi a ddefnyddiwyd, nad oedd yn bosib ynysu effaith MAPPA ar aildroseddu. Fodd bynnag, barnodd y gallai MAPPA fod wedi cyfrannu at leihau aildroseddu ac roedd yn bositif ynghylch potensial gwaith aml-asiantaethol gyda helpu i reoli troseddwyr rhywiol a threisgar yn y gymuned yn effeithiol. Yn lle creu dangosyddion KPI ychwanegol i asesu ansawdd, mae'r tîm MAPPA wedi comisiynu ymchwil i effeithiolrwydd MAPPA, oedd i'w chyhoeddi yng Ngorffennaf 2022. Mae'r tîm hefyd wedi datblygu offeryn sicrhau ansawdd fel bod byrddau SMB yn gallu gwirio a yw ansawdd y gwaith lleol yn effeithiol, er nad yw eto wedi'i weithredu.

### Fframwaith Polisi Lefel 1

Ar 31 Mawrth 2021, roedd 86,268 o bobl wedi cofrestru ar MAPPA Lefel 1,[12] tua 98% o gyfanswm y boblogaeth MAPPA. Yn Awst 2021, cyhoeddodd HMPPS y ddogfen *Probation Service Management of MAPPA Level 1 Cases Policy Framework*[13] i osod y safonau lleiaf sy'n ofynnol ar gyfer rheoli achosion ar Lefel 1. Cyn cyhoeddi'r ddogfen hon, nid oedd un dull cyffredin o reoli achosion Lefel 1 yn y Gwasanaeth Prawf. Fodd bynnag, roedd rhai ardaloedd wedi datblygu gweithdrefnau lleol. Roedd Adroddiad Blynyddol 2021 Arolygiaeth Prawf EM (Arolygiaeth Prawf EM 2022) yn ailadrodd y pryderon hirsefydlog nad yw achosion a aseswyd i fod yn cyflwyno risg ganolig o niwed difrifol yn cael eu rheoli cystal â rhai a aseswyd i fod yn cyflwyno risg uchel. O ystyried y bydd llawer o achosion MAPPA Lefel 1 yn cael eu hasesu fel risg ganolig, rydym yn croesawu dull ffurfiol o ddelio â'r achosion hyn; fodd bynnag, mae gennym bryderon na fydd y fframwaith hwn yn gwneud digon i newid pethau er gwell.

O dan y fframwaith, mae angen i weithwyr prawf adolygu'r lefel MAPPA bob chwe mis o leiaf, ar ôl newidiadau sylweddol neu dderbyn gwybodaeth bwysig, ond eto nid yw'n ei gwneud yn ofynnol i ymarferydd drafod achosion risg ganolig â'u rheolwr. Mae'r achosion hyn hefyd yn cael eu rheoli'n aml gan swyddogion Prawf, staff sy'n astudio ar gyfer y cymhwyster proffesiynol mewn gwaith prawf (PqiP) neu staff newydd gymhwyso fydd efallai heb y profiad i adnabod arwyddocâd digwyddiadau neu'r effaith o

[12] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2021). *Multi-Agency Public Protection Arrangements (MAPPA): annual report 2020 to 2021*.

[13] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1030209/mappa-level-1-pf.pdf

ganlyniad ar reoli risg. Ein pryder o hyd yw na fydd y Fframwaith Lefel 1 yn darparu'r craffu a'r trosolwg sydd ei angen ar gyfer achosion MAPPA Lefel 1 risg ganolig. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y rhan fwyaf o ardaloedd wedi sefydlu'r prosesau sicrhau ansawdd a gynhwysir yn y Fframwaith.

## 2.2. Arweinyddiaeth yn yr awdurdodau cyfrifol

### Carchardai

Roedd arweinyddiaeth ar MAPPA yn y carchardai'n gwella'n raddol. Gellid egluro hyn yn rhannol drwy waith diweddar swyddog arweiniol cenedlaethol Amddiffyn y Cyhoedd Carchardai'r HMPSS yn y tîm MAPPA Cenedlaethol, oedd wedi dechrau ymgysylltu'n dda â llywodraethwyr carchardai i'w hannog i gadw trosolwg ar eu prosesau amddiffyn y cyhoedd, a thrwy gyflwyno uwch-swyddogion prawf (SPO) yn yr unedau rheoli troseddwyr (OMU) mewn carchardai oedd yn cyfrannu eu gwybodaeth a'u profiad eu hunain o weithio o fewn MAPPA. Fodd bynnag, roedd rhai bylchau yn yr arweinyddiaeth yn parhau. Gorwedd y cyfrifoldeb am MAPPA mewn carchar gyda'r OMU sy'n cael ei arwain ar y cyd gan bennaeth y gwasanaethau rheoli troseddwyr (HOMS) a'r pennaeth rheoli troseddwyr (HOMD). Roedd rhai o'r carchardai y buom iddynt wedi dioddef diffyg staff yn y rolau allweddol hyn. Er enghraifft, ar un safle, nid oedd HOMD wedi bod mewn swydd ers tua wyth mis oedd wedi tanseilio cadw trosolwg ar gyfraniad y carchar i gyfarfodydd MAPPA cymunedol ar gyfer carcharorion Lefel 2 a 3, gwanhau effeithiolrwydd y cyfarfod rheoli risg rhyngadrannol (IRMM) a lleihau'r oruchwyliaeth a'r cymorth oedd ar gael i reolwyr troseddwyr carchar (POM), gan gynnwys gallu uwchgyfeirio problemau at reolwyr uwch yn y gymuned os oedd pryderon am risg.

Nid yw systemau adrodd data'r HMPPS yn cynorthwyo arweinwyr i adnabod nifer ac amrediad yr achosion MAPPA yn eu carchardai er mwyn goleuo dyrannu a rheoli adnoddau. Ar ddechrau ein hadolygiad, roedd yn bosib defnyddio tua 20 o wahanol 'faneri rhybudd' ar NOMIS[14] i adnabod carcharorion MAPPA. Arweiniodd hyn at ddyblygu a dryswch a dywedodd arweinwyr mewn rhai carchardai nad oeddent yn ymddiried yn yr adroddiadau i roi'r wybodaeth angenrheidiol iddynt. Ar nodyn mwy positif, mae gwaith ar y gweill i wella hyn. Pan wnaed ein gwaith maes, roedd HMPPS wedi dechrau symud at 'faneri rhybudd' newydd i geisio dod â chysondeb ac eglurder i adnabod achosion MAPPA.

Roedd diffyg staff mewn rhai carchardai wedi effeithio ar ansawdd y gwaith MAPPA. Roedd diffyg rheolwyr POM mewn rhai timau OMU wedi arwain at lwythi achosion trwm iawn; roedd gan rai llwythi achosion unigol dros 100 o garcharorion gan danseilio ansawdd y gwaith rheoli risg gyda charcharorion MAPPA. Gwelsom amrywiadau eang iawn ym maint y llwythi achosion gan reolwyr POM ond rheolaeth well o garcharorion MAPPA yn y safleoedd oedd â llwythi achosion is a mwy cytbwys. Er enghraifft roedd gan bob POM yn New Hall a Feltham B lwythi achosion rhesymol o 16 o garcharorion yn y naill le a 25 yn y llall. O ganlyniad, roeddent yn fwy tebygol o fod yn gyfarwydd ag amgylchiadau unigol y carcharorion oherwydd eu bod yn cael cyswllt rheolaidd â nhw. Roedden nhw yn eu tro'n llawer mwy tebygol o allu adnabod newid mewn agwedd neu ymddygiad a allai fod yn arwydd o risg uwch, ac ymateb i hynny drwy, er enghraifft, uwchgyfeirio at yr HOMD neu atgyfeirio'r achos i'w drafod yn yr IRMM.

Cafodd y model Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMiC) ei weithredu o fis Ebrill 2018 ymlaen fel fframwaith ar gyfer cydlynu a thracio siwrne unigolyn drwy eu cyfnod dan glo ac ar ôl eu rhyddhau. O dan y model hwn, mae gweithiwr allweddol (swyddog carchar fel arfer) yn cael ei ddyrannu i bob carcharor cymwys, sy'n gyfrifol am hyrwyddo perthnasoedd adsefydlu ac adeiladol rhwng staff a charcharorion i feithrin ymddygiad da. Ar y cyfan, nid oedd y model gweithiwr allweddol arfaethedig yn effeithiol eto gyda helpu i reoli risg. Ond mewn enghraifft o ymarfer gwell yn HMYOI Feltham B, roedd y model gweithiwr allweddol yn gweithio'n eithaf da gan gynorthwyo'r POM i reoli risg. Roedd tua 65% o'r sesiynau dyrannu gweithiwr allweddol wedi eu darparu yn y mis cyn i ni ymweld. Gwelsom dystiolaeth hefyd, o adolygiadau achos a chyfweliadau â charcharorion, eu bod yn derbyn sesiynau rheolaidd, fel arfer gydag aelodau cyson o staff oedd yn gyfarwydd â'u hamgylchiadau.

---

[14] NOMIS yw'r system gwybodaeth rheoli troseddwyr genedlaethol a ddefnyddir i gofnodi manylion am garcharor yn ystod eu hamser yn y carchar.

Fodd bynnag, pur anaml oedd y gwaith da hwn yn digwydd mewn carchardai eraill. Er enghraifft mewn un carchar, dim ond 2% o'r sesiynau dyrannu gweithiwr allweddol oedd wedi eu darparu yn y mis cyn i ni ymweld. Mae lefelau cyswllt mor isel yn amharu ar y potensial i waith allweddol gyfrannu at reoli risg.

Yn olaf, cawsom nad oedd y broses o drosglwyddo achosion o'r carchar i'r gymuned bob amser yn digwydd yn ddigon buan cyn rhyddhau, oedd yn gyfle wedi'i golli i rannu gwybodaeth. Lle'r oedd achosion yn cael eu trosglwyddo, roedd hyn yn aml yn gyfnewid anffurfiol, weithiau drwy e-bost, rhwng y carchar a'r gymuned. Roedd trosglwyddo o ansawdd gwell yn cynnwys y carcharor mewn cyfarfod tair-ffordd mewn da bryd cyn eu rhyddhau, ac yn cynnwys trafod MAPPA. Roedd hyn yn golygu y byddai'r carcharor wedi cyfarfod â'r person a fyddai'n eu goruchwylio yn y gymuned ac wedi cael cyfle i drafod amodau eu trwydded.

### Y Gwasanaeth Prawf

Y penaethiaid amddiffyn y cyhoedd rhanbarthol (Hop) yn y Gwasanaeth Prawf sy'n cadw trosolwg strategol ar MAPPA. Mae'r trefniadau'n amrywio ar draws gwahanol ranbarthau, yn bennaf oherwydd gwahaniaethau daearyddol. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o ranbarthau'n cynnwys nifer o ardaloedd MAPPA ac nid yw'r Hop yn gallu mynd i bob cyfarfod SMB ym mhob un o'u hardaloedd MAPPA bob tro. Mae Llundain a Manceinion Fwyaf yn eithriadau, gyda dim ond un SMB ar gyfer y rhanbarth. Mae rhai penaethiaid Hop yn rheoli'r cydlynwyr MAPPA yn y rhanbarth, gyda'r rôl rheoli llinell ar gyfer cydlynwyr yn gorwedd gyda phennaeth yr uned darparu prawf (PDU) mewn ardaloedd eraill. Yn Cumbria, mae'r cydlynydd MAPPA yn aelod o staff yr heddlu felly mae'r Hop ar gyfer Gogledd-Orllewin Lloegr yn rheoli holl gydlynwyr eraill y rhanbarth heblaw yn Cumbria. Mae gan ranbarth Llundain rôl arweinyddiaeth ychwanegol sef pennaeth swyddfa weithredol MAPPA Llundain, sy'n cadeirio'r SMB ac yn gyswllt i'r Awdurdodau Cyfrifol eraill ac i Swyddfa Plismona a Throseddu'r Maer (MOPAC). Er bod y trefniadau'n amrywio, roedd y cyfathrebu ar y cyfan yn effeithiol. Roedd gan bob rhanbarth ddull strategol o gyflwyno newidiadau sy'n effeithio ar MAPPA, drwy'r cynllun darparu rhanbarthol.

Oherwydd bod y strwythur rhanbarthol ond wedi'i greu pan unwyd y Gwasanaeth Prawf ym Mehefin 2021, roedd rhai penaethiaid Hop wedi bod yn y swydd am lai na blwyddyn. O ganlyniad, ni theimlai rai mor sicr eu bod yn mynd i'r cyfarfodydd cywir; er enghraifft, mae rhai'n rhan o'r RANSG (Grŵp Llywio Cenedlaethol yr Awdurdodau Cyfrifol) ac mae eraill yn mynychu cyfarfod cenedlaethol cadeiryddion y byrddau SMB (er nad ydynt yn cadeirio'r SMB lleol). Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o ranbarthau, gwelsom gysylltiadau priodol i'r tîm cenedlaethol er y byddai rhai'n elwa o gytuno ar ba gyfarfodydd y byddai'n fwyaf cynhyrchiol eu mynychu er mwyn ennill y manteision gorau.

Gwelsom amrywiadau sylweddol o ran dyrannu adnoddau i MAPPA. Mewn un ardal, mae'r heddlu a phrawf wedi buddsoddi mewn tîm MAPPA amlddisgyblaeth ar safle'r heddlu. Mae gan y tîm hwn ddau gydlynydd, un o'r heddlu a'r llall o'r gwasanaeth prawf. Mae yna hefyd ddirprwy gydlynydd, dau weinyddwr ViSOR, tri swyddog prawf a staff gweinyddol. Mewn cymhariaeth, mae gan y rhan fwyaf o ardaloedd eraill un cydlynydd MAPPA a gefnogir gan staff gweinyddol. Staff prawf sydd fel arfer yn llenwi'r rolau hyn. O reidrwydd, mae'r disgwyliadau o rôl y cydlynydd yn amrywio'n sylweddol gan ddibynnu ar faint eu hardal MAPPA a'r strwythurau sydd yn eu lle. Dywedodd rai cadeiryddion SMB wrthym mai trefniadau etifeddol oedd eu hadnoddau na chawsant eu hadolygu ers tro byd. Yn fwy cyffredin, cawsom fod y cydlynydd MAPPA yn gyswllt rhwng yr ochr ddarparu weithredol a ffocws strategol yr SMB. Yn aml iawn roedd hyn yn golygu casglu data KPI, cynnal cyswllt ag asiantaethau DTC a chynnig cymorth i gadeiryddion y cyfarfodydd MAPPA.

Yn Llundain, roedd y cydlynydd MAPPA dan gryn bwysau drwy fod yn gyfrifol am y trefniadau ym mhob un o'r 32 bwrdeistref. Yng Ngorllewin Sir Efrog, roedd y Gwasanaeth Prawf wedi buddsoddi mewn rheolwr MAPPA (gradd SPO) ym mhob PDU oedd yn gyfrifol am sgrinio atgyfeiriadau a chadeirio cyfarfodydd Lefel 2. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd eraill, swyddogion SPO gweithredol sy'n cadeirio cyfarfodydd Lefel 2 (weithiau gyda chyd-gadeirydd o'r heddlu) fel rôl ychwanegol ar ben rheoli tîm o staff prawf. Dywedodd lawer yn y sefyllfa hon eu bod yn cael trafferth paratoi'n iawn ar

gyfer cyfarfodydd oherwydd eu pwysau gwaith eraill gan ddibynnu'n aml ar weinyddwyr i'w briffio'n syth cyn y cyfarfodydd.

| Enghraifft o ymarfer da – Gogledd Cymru |
| --- |
| Ar ôl cydnabod y pwysau gwaith ar staff SPO, penderfynodd PDU Gogledd Cymru fuddsoddi mewn swyddi gweinyddu achosion ychwanegol i'w cefnogi, sef swyddogion 'CASPO'. Mae'r rôl yn cynnwys trefnu adolygiadau Lefel 1, tracio trosglwyddo achosion a lanlwytho cysylltiadau trosolwg i nDelius (y system rheoli achosion prawf) ar ôl goruchwylio staff i sicrhau y cofnodir achosion yn effeithiol. Drwy gael eu rhyddhau o waith gweinyddol, gall staff SPO ganolbwyntio'n well ar gefnogi staff a chadw trosolwg ar achosion. Teimlai staff Gogledd Cymru fod yr adnodd ychwanegol hwn wedi bod yn allweddol i effeithiolrwydd y broses adolygu Lefel 1 hirsefydlog. |

Mae ein harolygiadau gwaith achos yn rhoi tystiolaeth nad yw maint yr adnodd ar ei ben ei hun yn sicrhau'r rheolaeth MAPPA ansawdd gorau. Mewn ardaloedd lle'r oedd tîm MAPPA penodol gydag adnoddau da, teimlai'r ymarferwyr cyffredinol yn rhy bell o'r broses a heb yr hyder i wneud penderfyniadau am lefelau MAPPA. Roeddent yn wyliadwrus o herio'r arbenigedd yn y tîm ac felly'n gyndyn o wthio'n ôl bob tro os oedd achosion yn cael eu gwrthod ar gyfer rheolaeth Lefel 2. Lle y gwelsom yr ymarfer MAPPA gorau, roedd diwylliant wedi'i sefydlu lle'r oedd ymarferwyr a rheolwyr yn teimlo bod ganddynt feddiant o'r penderfyniadau a MAPPA wedi'i wreiddio yn eu hymarfer rheoli achosion cyffredinol.

Clywsom rai pryderon gan ymarferwyr nad oedd uwch-arweinwyr yn llwyr werthfawrogi'r effaith ar eu lles wrth weithio â llwyth o achosion risg uchel yn bennaf. Yn ein cyfweliadau ymarferwyr, dywedodd 37% nad oeddent yn teimlo bod sylw priodol wedi'i roi i'w diogelwch a'u lles wrth weithio ag achosion MAPPA. Er i ni weithiau weld enghreifftiau o drefniadau cydweithio mewn achosion cymhleth ac anodd, gellid gwneud mwy o ddefnydd o'r trefniant hwn i gefnogi ymarferwyr.

Gall systemau gwybodaeth y Gwasanaeth Prawf ddarparu adroddiadau gwybodaeth reoli cynhwysfawr os ychwanegir y cofrestriadau cywir at gofnodion achos. Gwelsom enghreifftiau ynysig o gofrestriadau anghywir ond ar y cyfan roedd gan gofnodion yr achosion 'faner' risg briodol.

### Yr heddlu

Gwelsom arweinyddiaeth gadarn ar lefel genedlaethol. Mae swyddog arweiniol Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) yn cyd-gadeirio'r RANSG, ac mae'r heddlu'n bresennol yn y grwpiau rhanbarthol. Gellir uwchgyfeirio unrhyw fater MAPPA rhanbarthol i'r grŵp cenedlaethol. Mae gwybodaeth bolisi a chanllawiau'n cael ei chylchredeg drwy'r cyfarfodydd hyn. Mae swyddog arweiniol yr NPCC yn gwthio newid drwy rwydwaith penaethiaid yr NPCC. Mae bwrdd rheoli troseddwyr rhyw a sefydlwyd gan y Swyddfa Gartref yn ddiweddar yn cysylltu'n uniongyrchol i'r grŵp trais ac amddiffyn y cyhoedd, i roi cysondeb.

Roedd yr holl heddluoedd i ni ymweld â nhw'n ymwybodol o'r tîm MAPPA Cenedlaethol a rôl yr NPCC. Roedd yr heddluoedd i gyd yn mynychu cyfarfod cenedlaethol Rheoli Troseddwyr Rhyw a Threisgar (MOSOVO) ac yn cael eu cynnwys mewn gweithgorau rhanbarthol wedi eu cysylltu i'r RANSG. Gwelsom femorandwm dealltwriaeth SMB priodol ynghyd â threfniadau rhannu gwybodaeth ym mhob heddlu.

Roedd gan bob heddlu swyddog strategol arweiniol ar gyfer MAPPA, ar raddfa uwch-swyddog priodol. Ym mhob heddlu, roedd y llywodraethu a'r trosolwg strategol ar achosion MAPPA'n cael ei reoli drwy gyfarfodydd perfformiad adrannol, oedd yna'n bwydo i drosolwg a pherfformiad cyffredinol yr heddlu. Roedd y dadansoddi data'n cynnwys lefelau staffio a llwythi gwaith, yn benodol ar gyfer MOSOVO neu unedau rheoli troseddwyr rhyw cyfatebol, i roi sicrwydd bod y pethau hyn yn cael eu monitro.

Yn y rhan fwyaf o heddluoedd, cyfrifoldeb yr unedau amddiffyn y cyhoedd neu amddiffyn pobl fregus oedd cadw trosolwg weithredol ar MAPPA. Roedd yr heddluoedd yn glynu'n briodol at bolisïau cenedlaethol a lleol ar MAPPA. Roedd tystiolaeth yn cael ei lledaenu drwy e-bost neu fwletinau ar lefel weithredol a gwyddai'r rheolwyr troseddwyr ble i gael gafael ar wybodaeth berthnasol. Roedd gan rai heddluoedd fforymau a phrosesau datblygiad proffesiynol parhaus i godi ymwybyddiaeth o MAPPA.

Nid oes canllawiau i heddluoedd ar sut i strwythuro cyfrifoldebau MAPPA mewn ardaloedd heddlu, felly mae'r trefniadau'n amrywio. Ym mhob heddlu i ni ymweld â nhw, roedd uned arbenigol i reoli troseddwyr rhyw; fodd bynnag, nid oedd pob heddlu wedi ehangu hyn i gynnwys rheoli troseddwyr treisgar. Yn aml iawn, rheolir troseddwyr treisgar Categori 2 a 3, gan gynnwys camdrinwyr domestig, ar draws gwahanol bortffolios heddlu, fel arfer gan y timau Rheoli Troseddwyr yn Integredig (IOM), troseddu difrifol a chyfundrefnol, y timau plismona lleol neu'r timau diogelu oedolion.

Un argymhelliad o arolygiad thematig blaenorol o MAPPA oedd bod heddluoedd yn sicrhau bod rheolwr troseddwyr heddlu'n cael ei ddyrannu i bob troseddwr treisgar a reolir o dan MAPPA Lefel 2 a 3; roeddem yn siomedig o weld nad oedd hyn wedi digwydd. Mae'r trefniadau presennol yn arwain at reolaeth ddigyswllt o droseddwyr treisgar. Mae diffyg dealltwriaeth o fanteision MAPPA gan unedau heblaw'r rhai sy'n rheoli troseddwyr rhywiol cofrestredig, sy'n arwain at nifer isel o atgyfeiriadau at MAPPA Lefel 2 a 3 gan yr heddlu. Yn Cumbria, gwelsom ymarfer da gyda rheoli'r cymhlethdod hwn. Roedd pob rheolaeth o droseddwyr yn dod gyda'r un portffolio sefydliadol ac felly'r un arweinyddiaeth. Gwelsom fod gan y staff i gyd ddealltwriaeth glir o'r rolau ar gyfer IOM a MOSOVO wrth reoli achosion MAPPA. Fodd bynnag nid oedd staff IOM oedd yn rheoli achosion Categori 2 a 3 wedi derbyn hyfforddiant ViSOR.

Roedd llwythi gwaith MOSOVO'r heddlu a'r unedau rheoli cyfatebol yn uchel, ac yn ormodol mewn rhai heddluoedd. Roedd llwythi gwaith rheolwyr troseddwyr yn amrywio o tua 50 yr un i ddwbl hyn. Lle'r oedd y llwythi gwaith yn llawer trymach na'r argymhellion, roeddem yn teimlo ei fod yn amharu ar reolaeth effeithiol o droseddwyr. Roedd rhai heddluoedd gyda llwythi gwaith trwm iawn yn llwyddo i gynnal disgwyliadau perfformiad cenedlaethol ond gan roi straen a phwysau trwm iawn ar eu staff. Roedd un heddlu wedi cymryd camau i adnabod y gwrthdaro rhwng adnoddau a disgwyliadau ac wedi penderfynu lleihau'r gwaith ar gyfer troseddwyr lefel isel a chanolig. O ganlyniad, roedd yn cwblhau llai o asesiadau risg, llai o ymweliadau cartref a llai o asesiadau o dan y system rheoli risg weithredol (ARMS) gan symud mwy o achosion i gael eu rheoli'n adweithiol, sy'n groes i'r safonau cenedlaethol. Mae'r heddlu'n cydnabod bod risg sylweddol i hyn, ac i liniaru hyn yn rhannol mae'n gwneud hap-samplo misol, gan gynnwys ymweliadau dirybudd a phrofion poligraff ar droseddwyr risg ganolig.

Cyfeiriodd reolwyr troseddwyr yr heddlu at ffynonellau lu o waith ychwanegol cynyddol fel profion poligraff a bod angen gweithredu ESafe.[15] Dywedodd reolwyr troseddwyr yr heddlu hefyd fod gorchmynion atal niwed rhywiol oddi wrth droseddau ar y we (SHPO), mewn rhai heddluoedd, yn cael eu creu gan y llysoedd (heb fewnbwn yr heddlu) gyda 17-20 o wahanol amodau i'w monitro. Teimlai staff fod hyn yn ormod iddynt ymdopi â fo.

Gwelsom gysylltiad clir rhwng llwythi gwaith ac effeithiolrwydd y gwaith. Mae llwythi gwaith trwm yn effeithio ar les staff, apêl y rôl a gallu recriwtio staff i'r timau arbenigol hyn. Er bod y rheolwyr troseddwyr i ni siarad â nhw'n ymwybodol bod cymorth lles ar gael, roedd eu barn am ei effeithiolrwydd yn amrywio. Teimlai rai timau nad oedd eu huwch-arweinwyr yn llwyr ddeall na gwerthfawrogi cymhlethdod rôl y rheolwr troseddwyr. Er enghraifft, dywedodd un rheolwr troseddwyr mai prin iawn o gydnabyddiaeth oedd i sut y gallai rheoli troseddwyr rhyw effeithio ar eu bywydau a pherthnasoedd personol, gan gynnwys â'u plant.

---

[15] Rhaglen feddalwedd yw ESafe y gellir ei gosod ar ffonau symudol a chyfarpar cyfrifiadurol fel bo'r heddlu'n gallu monitro a'u rhybuddio am unrhyw ymddygiad sydd wedi'i wahardd.

## 2.3. Hyfforddiant MAPPA

Mae canllawiau MAPPA'n nodi mai asiantaethau'r Awdurdodau Cyfrifol sy'n gyfrifol am hyfforddi eu staff a sicrhau bod holl aelodau'r byrddau SMB, y cydlynydd MAPPA a gweinyddwyr MAPPA'n derbyn hyfforddiant priodol. Yn ogystal, rhaid i'r SMB gynorthwyo'r asiantaethau DTC i adnabod anghenion hyfforddi eu staff o ran MAPPA. Dywedodd y rhan fwyaf o gadeiryddion Lefel 2 a 3 y Gwasanaeth Prawf wrthym eu bod wedi derbyn hyfforddiant o ansawdd da, fel arfer gan y cydlynydd MAPPA lleol.

Yn yr heddluoedd i ni eu harolygu, clywsom mai ychydig iawn o hyfforddiant ar gyfer eu rolau MAPPA a dderbyniodd aelodau o baneli sefydlog yr heddlu a chadeiryddion MAPPA'r heddlu. Roedd rhai wedi cysgodi pobl eraill neu wedi trafod y rôl â'r cydlynydd MAPPA. Mewn rhai heddluoedd, roedd y cwrs hyfforddiant ditectifs (PIP2) wedi rhoi ymwybyddiaeth o MAPPA. Yn Cumbria, clywsom fod yr holl swyddog-fyfyrwyr wedi cael pythefnos gyda'r tîm MOSOVO i ennill dealltwriaeth o'r gwaith. Yn ein grwpiau ffocws, teimlai rheolwyr troseddwyr yr heddlu eu bod yn ddigon parod i gymryd rhan mewn cyfarfodydd MAPPA ac yn hyderus am rannu gwybodaeth. Gall staff yr heddlu hefyd gael gafael ar ganllawiau ar-lein gan y Coleg Plismona, ar rolau allweddol ac egwyddorion MAPPA. Mae'r cynnwys yn cael ei graffu gan uned gwasanaethau cyfreithiol y Coleg i sicrhau ei fod yn gyfreithiol gywir ac yn cydymffurfio ag ymarfer da ar amrywiaeth.

Yn ein cyfweliadau â gweithwyr prawf, dywedodd 45% o'r staff a holwyd nad oedd eu sefydliad yn rhoi mynediad digonol at hyfforddiant MAPPA iddynt. Dywedodd staff yn y rhan fwyaf o ardaloedd na chawsant hyfforddiant wyneb yn wyneb ffurfiol ers tro, hyd yn oed cyn y pandemig. Clywsom fod yr hyfforddiant ar-lein yn cynnwys ymwybyddiaeth sylfaenol o lefelau a chategorïau MAPPA ond teimlai'r rhan fwyaf o staff y byddent yn elwa o fewnbwn ymarferol mwy dwys ar baratoi ar gyfer a chyflwyno achosion mewn cyfarfodydd MAPPA. Nid yw staff allweddol, gan gynnwys swyddogion cyswllt dioddefwyr a staff hosteli prawf yn y gymuned, fel arfer yn derbyn hyfforddiant MAPPA i'w paratoi ar gyfer y rôl, a dylid cywiro hyn. Teimlai rai staff hefyd fod angen hyfforddiant MAPPA aml-asiantaethol i'w helpu i ddeall rolau a chyfrifoldebau asiantaethau eraill sy'n rhan o ddarparu MAPPA, yn enwedig asiantaethau iechyd meddwl a gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion.

Yn y carchardai, gwelsom ddiffyg hyfforddiant a phrofiad yn ymwneud â MAPPA a dywedodd y rhan fwyaf o reolwyr troseddwyr carchardai eu bod yn dysgu drwy drafodaethau anffurfiol â rheolwyr troseddwyr prawf. I geisio cywiro hyn, roedd HMP High Down wedi trefnu rhai diwrnodau datblygu POM gyda ffocws ar MAPPA, gan gynnwys dadansoddi risg. Roedd arweinwyr yn Feltham wedi darparu peth hyfforddiant lleol ar y dull Pedwar Piler o reoli risg (wele'r adran Geirfa). Ond ar y cyfan, prin oedd yr hyfforddiant ac roedd hyn weithiau'n arwain at ddiffyg hyder gyda herio rheolwyr troseddwyr yn y gymuned wrth benderfynu beth oedd y lefel reoli MAPPA briodol.

## 2.4. Y byrddau rheoli strategol

Roedd penaethiaid PDU y Gwasanaeth Prawf yn cadeirio'r SMB mewn tair allan o'r chwe ardal i ni ymweld â nhw; yn Cumbria, uwch-arolygydd yr heddlu oedd y cadeirydd, ym Manceinion Fwyaf uwch-arolygydd, ac yn Llundain, pennaeth swyddfa weithredol MAPPA oedd yn y rôl. O dan ganllawiau MAPPA, rhaid i gadeiryddion yr heddlu fod ar raddfa prif gwnstabl cynorthwyol; roedd y rhai a welsom yn y rôl mewn swyddi digon uchel, ac yn anad dim, gyda'r wybodaeth iawn i wneud y gwaith i safon uchel er nad oeddent ar y raddfa angenrheidiol. Hefyd, mae'r swydd y disgwylir i gadeirydd SMB yr heddlu ei chyflawni'n llawer uwch nag ar gyfer cadeiryddion prawf. Mae'r rhan fwyaf o ardaloedd yn cylchdroi'r cadeirio rhwng yr awdurdodau cyfrifol er mai arweinwyr heddlu neu brawf sydd fel arfer yn y rôl. Mewn rhai ardaloedd, teimlai gadeiryddion SMB nad oedd ganddynt ddigon o amser ar gyfer y dasg, yn enwedig rhai oedd yn newydd i swydd pennaeth y PDU a chadeirydd yr SMB.

Roedd yr holl fyrddau SMB yn cwrdd yn rheolaidd a gyda chynrychiolaeth o'r asiantaethau DTC allweddol. Fodd bynnag mae rhai awdurdodau lleol yn enwebu un cynrychiolydd ar gyfer mwy nag un arbenigedd oherwydd diffyg adnoddau, er enghraifft gofal cymdeithasol plant a chyfiawnder ieuenctid, oedd yn ddi-fudd oherwydd eu diffyg cymhwyster i siarad dros y ddau wasanaeth.

Un o dasgau hanfodol yr SMB yw monitro a gwerthuso gwaith MAPPA i sicrhau ei fod yn gweithio’n dda yn ei ardal; mae sut y gwneir hyn yn cael ei benderfynu’n lleol. Dywedodd pob un o’r byrddau SMB y byddent yn croesawu mwy o arweiniad canolog i roi mwy o gysondeb ar draws gwahanol ardaloedd. Roedd holl gadeiryddion y byrddau SMB yn cydnabod er y byddai rhywfaint o amrywiadau lleol o hyd, y byddai mwy o gysondeb yn gymorth wrth drosglwyddo achosion, sydd weithiau’n gallu bod yn anodd os oes gwahanol farn am lefelau MAPPA.

Mae pob SMB yn ystyried bod adroddiadau gwybodaeth reoli yn rhan o’u prosesau monitro a gwerthuso. Mae cynnwys yr adroddiadau’n amrywio cryn dipyn rhwng ardaloedd. Lle y gwelsom ymarfer da, roedd y byrddau SMB yn craffu ar y gyfradd atgyfeirio ac yn ceisio deall patrymau a thueddiadau gan roi mwy o ffocws lle’r oedd yn ymddangos nad oedd MAPPA’n cael ei ddefnyddio’n foddhaol. Mewn ardaloedd eraill, roedd y ffocws hwn yn ddiffygiol. Ychwaith, nid oedd yr un o’r ardaloedd i ni ymweld â nhw’n rhoi digon o ffocws ar fonitro nodweddion gwarchodedig yr achosion MAPPA na’n ystyried unrhyw anghymesuredd. Roedd SMB Cumbria wedi cydnabod hyn a gyda chynlluniau i ddefnyddio paneli cynghori annibynnol i adolygu sampl o atgyfeiriadau ac ystyried materion amrywiaeth.

Mae pob bwrdd SMB yn talu sylw agos i’r dangosyddion KPI gan ymchwilio a rhoi sylw i fethu â mynychu cyfarfodydd lle bo angen. Nid yw’r dangosyddion KPI yn rhoi tystiolaeth o ansawdd cyfarfodydd MAPPA ac felly roedd gan bob SMB brosesau archwilio gan ddefnyddio’r templedi yn y set ddogfennau genedlaethol. Roedd ansawdd a pha mor aml oedd y gwaith yma’n cael ei wneud yn amrywio a gallai’r tîm MAPPA Cenedlaethol wneud mwy yn y rhan fwyaf o ardaloedd i sicrhau bod y broses archwilio’n arwain at ddatblygiad i gadeiryddion MAPPA a themâu i wella MAPPA’n gyffredinol. Roedd un SMB wedi datblygu perthynas weithio dda â’i fwrdd SMB cyfagos ar graffu ymarfer, fel y dangosir isod.

**Enghraifft o ymarfer da – Cumbria**

Roedd SMB Cumbria wedi datblygu archwiliad MAPPA ar y cyd â Lancashire, oedd yn digwydd yn flynyddol. Roedd cydlynwyr MAPPA, cynghorwyr lleyg a staff o’r awdurdodau RA ac asiantaethau DTC yn edrych ar sampl o achosion MAPPA Lefel 2 a 3, gan werthuso ystod o gyfarfodydd, cofnodion ac atgyfeiriadau, nodi canfyddiadau oedd yn berthnasol i bob ardal neu i’r ddwy, a gwneud argymhellion. Mae’r adroddiad hefyd yn adrodd ar y cynnydd a wnaed ers yr archwiliad diwethaf. Roedd archwiliad ar y cyd yn ffordd effeithiol o graffu’n allanol, rhannu’r dysgu a datblygu arferion gorau.

## 2.5. Cynghorwyr lleyg

O dan *Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003*, rhaid i fyrddau SMB benodi cynghorwyr lleyg di-dâl ym mhob ardal MAPPA. Eu rôl yw cyfrannu at fonitro a gwerthuso MAPPA a bod yn ‘gyfaill beirniadol i’r SMB. Fe wnaethom gyfarfod â chynghorwyr lleyg mewn pedair o’r chwe ardal i ni ymweld â nhw; roedd y ddwy arall wrthi’n penodi pobl newydd i’r rôl. Fel rôl wirfoddol, dywedodd rai byrddau SMB wrthym y cawsant drafferth yn recriwtio i’r rôl a bod cyfnodau felly wedi bod gyda neb yn y swyddi hyn. Fodd bynnag, pan lwyddir i ddod o hyd i’r bobl iawn, mae’n glir y medrant wneud cyfraniad gwerthfawr i ansawdd y trefniadau. Er enghraifft, roedd gan Cumbria unigolion ymroddedig a helpodd i ddatblygu adroddiadau gwybodaeth reoli ar gyfer yr SMB ac a wnaeth awgrymiadau am strwythur y cyfarfodydd Lefel 2 a 3, gan arwain at drafod materion dioddefwyr yn llawer cynt yn y drafodaeth i sicrhau eu bod yn cael eu hystyried yn llawn. Yng Ngogledd Cymru, roedd sgiliau a phrofiad y cynghorwyr lleyg wedi gwella gwybodaeth a dealltwriaeth o brosesau iechyd meddwl a niwroamrywiaeth a hefyd wedi cyfrannu at sefydlu perthynas dda ag asiantaethau lleol.

## 2.6. Casgliadau a goblygiadau

Drwy ddyluniad, mae angen meddiant a llywodraethu lleol o MAPPA i sicrhau ei fod yn ymatebol ac yn gyson â blaenoriaethau lleol. Mae canllawiau MAPPA’n darparu fframwaith caniataol gan ddisgrifio cyfrifoldebau asiantaethau’r awdurdodau cyfrifol i sefydlu SMB a’r rôl a ddylai chwarae.

Mae trefniadau llywodraethu cenedlaethol ymatebol, gyda chynrychiolaeth gadarn gan yr heddlu, carchardai a phrawf, yn eu lle. Mae canllawiau MAPPA'n cael eu hadolygu a'u diweddaru'n unol â chanfyddiadau adolygiadau annibynnol a ffynonellau dysgu eraill.

Fodd bynnag, mae canllawiau MAPPA'n cael eu dehongli'n anghyson ar draws Cymru a Lloegr sy'n cael effaith negyddol ar gyflwyno MAPPA mewn rhai ardaloedd. Ychwaith, nid yw prosesau sicrhau ansawdd wedi eu gwreiddio'n iawn yn lleol na'n cael eu coladu'n genedlaethol i nodi'r diffygion mewn rhai ardaloedd. Mae hyn felly'n arwain at ymarfer ynysig heb ddigon o graffu arno mewn rhai ardaloedd MAPPA, sy'n rhy wahanol i ymarfer ardaloedd eraill. Mae rhai byrddau SMB yn cydnabod hyn gan groesawu gweld mwy'n cael ei wneud yn ganolog i hyrwyddo ymarfer gorau a rhoi mwy o arweiniad i fyrddau SMB. Mae hyfforddiant MAPPA'n amrywiol ac nid oes gan yr holl staff sy'n rhan o'r broses MAPPA gydag asiantaethau'r tri awdurdod cyfrifol fynediad at ddigon o fewnbwn i roi hyder iddynt yn eu rôl. Nid oes fformiwla ar gyfer penderfynu ar yr adnoddau i'w dyrannu i MAPPA, sy'n rhoi pwysau ychwanegol ar reolwyr gweithredol sydd angen cadeirio cyfarfodydd ac sydd hefyd yn cyflawni tasgau cydlynu mewn rhai achosion.

# 3. Adnabod, gosod lefelau a rhannu gwybodaeth o dan MAPPA

Mae’r bennod hon yn adolygu’r trefniadau ar gyfer adnabod troseddwyr MAPPA cymwys a gosod lefelau rheoli. Mae’n ystyried y prosesau a’r adnoddau sy’n ategu’r gwaith o ddarparu MAPPA.

## 3.1. Adnabod a gosod lefelau

Roedd achosion sy’n awtomatig gymwys ar gyfer MAPPA (Categori 1 a 2) yn cael eu hadnabod gan staff prawf llys ar y pwynt dedfrydu drwy broses effeithlon ym mhob ardal y buom iddi. Ar gyfer achosion cymunedol, mae canllawiau prawf yna’n gofyn am benderfyniad gwybodus, o fewn 15 diwrnod i’r apwyntiad cyntaf, am ba lefel reoli a fyddai’n briodol i’r unigolyn. Mewn rhai ardaloedd, roedd yn bryder gweld bod gweinyddwyr yn gyfrifol am ychwanegu cofrestriad Lefel 1 diofyn yn lle ‘baneru’ cymhwyster ar gyfer MAPPA yn y cam dyrannu. O ganlyniad, roedd ymarferwyr yn derbyn yr achosion gan gymryd yn ganiataol bod y penderfyniad gwybodus wedi’i wneud yn barod ac felly nid oeddent yn gwneud eu hasesiad eu hunain na’n trafod y lefel MAPPA â’r rheolwr.

**Yn y carchar**

Ar gyfer achosion carcharu, dylid penderfynu ar y lefel chwe mis cyn rhyddhau er mwyn gallu gwneud y gwaith cyn-rhyddhau priodol. Mae cyfathrebu a chyswllt rhwng rheolwr troseddwyr y carchar (POM) a’r rheolwr troseddwyr cymunedol (COM) yn hanfodol i sicrhau asesu risg a rheoli effeithiol drwy gydol y ddedfryd ac ar ôl rhyddhau. Dylai hyn fod yn arbennig o berthnasol pan asesir addasrwydd carcharor i gael ei ryddhau ar drwydded dros dro (ROTL), er enghraifft. Fodd bynnag, yn ymarferol roedd cysoni’r prosesau ROTL, Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa (OMIC) a MAPPA’n cyflwyno heriau. Ar gyfer carcharorion gyda dedfrydau hir, gall ROTL ddigwydd ymhell cyn i’r broses OMIC o drosglwyddo o’r carchar ddigwydd a chyn i sgrinio ar gyfer MAPPA ddigwydd. Mae hyn yn golygu bod carcharorion weithiau’n cael ROTL heb lefel reoli MAPPA wedi’i chadarnhau na swyddog prawf yn y gymuned i adrodd iddynt, a heb benderfyniad am gyfraniad aml-asiantaethol. Mewn dau garchar y buom iddynt, roedd 58 o garcharorion MAPPA yn derbyn ROTL yn rheolaidd ac o’r rhain nid oedd gan 46 lefel reoli wedi’i chadarnhau. Er bod y trafodaethau risg rhwng y carchar a’r gymuned ar y cyfan yn cael eu hysgogi gan yr asesiad addasrwydd, nid oedd digon o sylw’n cael ei roi i ystyried y lefel reoli MAPPA cyn dechrau ROTL, er y newidiadau risg y gallai hyn ei gyflwyno. Nid yw canllawiau MAPPA’n gofyn gosod lefel reoli tan y pwynt cyn-rhyddhau ac erbyn hynny gallai’r ROTL eisoes fod wedi digwydd.

Yn yr achosion yn y gymuned i ni eu harolygu, aseswyd bod y gwaith cyn-rhyddhau’n foddhaol gyda thri chwarter y sampl, fodd bynnag roedd yn amlwg waeth mewn achosion Lefel 1 lle nad oedd digon o gyfathrebu rhwng y POM a’r COM.

| Enghraifft o ymarfer gwael |
|---|
| Roedd Aftab yn y carchar am anafu o dan adran 18. Roedd wedi’i adnabod i fod yn disgyn i MAPPA Categori 2 ond nid oedd lefel reoli wedi’i gosod ar ei gyfer. Roedd ar amodau agored a 15 mis i ffwrdd o gael ei ryddhau, ac wedi bod yn defnyddio ROTL i dreulio amser yn ei gartref teuluol. Nid oedd sgrinio MAPPA na throsglwyddo i’r gymuned yn ofynnol, o ystyried faint o amser oedd ar ôl cyn ei ryddhau. Fodd bynnag, byddem wedi disgwyl gweld cyfathrebu ac asesu risg gwell cyn cytuno ar ROTL, gan ystyried cyfyngiadau posib a threfniadau a fyddai’n rhan o’i ryddhau ar drwydded. Er bod y carcharor yn derbyn cyswllt da gan y POM, ni chynigiwyd unrhyw apwyntiadau prawf yn y gymuned yn ystod ROTL, er i’r carcharor ofyn am hyn.<br><br>Gyda mwy o fewnbwn gan y COM, byddai’r trosglwyddiad yn fwy llyfn ar y pwynt rhyddhau gyda chyfle i sefydlu perthynas a help i sefydlu disgwyliadau a ffiniau ar gyfer ei gyfnod ar drwydded. |

Mae asesu risg ac anghenion carcharorion yn cael ei wneud gyda’r offeryn asesu OASys (adran Geirfa) ac yn allweddol i oleuo penderfyniadau a chynlluniau i reoli’r risg o niwed ar ôl rhyddhau.

Gwelsom ddiffygion yn yr ardal hon, oedd i gyd yn tanseilio gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ac amserol. Yn yr enghreifftiau gwaelaf nid oedd OASys o gwbl ac roedd yn anodd gweld sut y gellid gwneud unrhyw benderfyniadau gyda chyfiawnhad am reolaeth MAPPA. O'r 48 achos a adolygwyd, nid oedd gan dri charcharor OASys o gwbl ac roedd yr asesiadau ar gyfer tua thraean o'r carcharorion yn ein sampl dros flwyddyn oed. Nid oedd tua hanner y carcharorion yn ein sampl ychwaith wedi cael unrhyw adolygiad o risg ac anghenion yn dilyn newid sylweddol mewn amgylchiadau. Er enghraifft roedd un carcharor wedi dychwelyd at amodau caeedig ar ôl cymryd cyffuriau pan oedd ar ROTL ac nid oedd y cynllun rheoli risg na'r asesiad wedi'i adolygu i adlewyrchu unrhyw newid mewn risg. Mewn rhai achosion, gwelsom asesu a rheoli gwell - yn bennaf ar gyfer rhai gyda dedfrydau oes o garchar a rhai oedd angen ymddangos o flaen bwrdd parôl.

**Yn y gymuned**

Mae dogfen Q MAPPA'n rhan o set ddogfennau genedlaethol MAPPA i gynorthwyo penderfyniadau ynghylch lefelau MAPPA, ond nid yw'n orfodol ei defnyddio. Nid oedd gan dros ddwy ran o dair o'r achosion prawf a welsom ffurflen Q MAPPA ar eu cofnodion achos.

Mae'r canllawiau MAPPA'n disgrifio'r meini prawf ar gyfer penderfynu lefelau MAPPA ond nid yw'n diffinio sut i wneud hyn. Er enghraifft yn ôl y canllawiau, dylai asiantaethau ystyried rhoi lefel reoli 2 i achosion os byddai cyfarfodydd aml-asiantaethol ffurfiol yn ychwanegu gwerth at reolaeth yr asiantaeth arweiniol o'r risg o niwed difrifol, ond yn gadael i fyrddau SMB benderfynu beth yw 'ychwanegu gwerth'. Bydd adnoddau'r ardal leol, i raddau, yn effeithio ar a oes angen uwchgyfeirio achosion i dderbyn y gwasanaethau angenrheidiol. Mae'n anochel felly y bydd cyfran yr unigolion a reolir ar bob lefel yn amrywio rhwng ardaloedd. Gall y proffil troseddu mewn lleoliad daearyddol hefyd effeithio ar broffil y llwyth achosion MAPPA. Fodd bynnag, gwelsom gryn wahaniaeth o ran sut y dehonglir y meini prawf gan arwain at ddiwylliant ac arferion MAPPA gwahanol, a di-fudd weithiau.

Mewn rhai ardaloedd, mae'r meini prawf wedi cael eu dehongli'n rhy gul ac ystyrir bod ond angen atgyfeirio at Lefel 2 neu 3 i 'ddad-rwystro' mynediad at wasanaeth penodol, er enghraifft os oes angen llety ac ni ddaethpwyd o hyd i lety drwy'r llwybrau atgyfeirio arferol. Yn ein barn ni, mae hyn yn ddiffiniad rhy gul sy'n diystyru gwerth trosolwg a chraffu aml-asiantaethol ar gyfer rhai achosion cymhleth. Lle y gwelsom ddehongli cyfyngedig, roedd y gweithwyr prawf yn fwy pesimistaidd am MAPPA ac yn gweld fawr ddim gwerth yn y trefniadau, heblaw mewn amgylchiadau prin. Gellir crynhoi barn yr ymarferwyr yn y sylwadau canlynol.

> *"Nid oes rheswm dros fynd ag [achos] i MAPPA Lefel 2 oni bai fod yr asiantaethau'n gwrthod ymgysylltu.*
> *Byddwn yn gwybod na fyddai atgyfeiriad Lefel 2 yn cael ei gytuno felly ni fyddwn yn atgyfeirio."*

> *"Dim ond ymarfer copïo a gludo yw ffurflenni atgyfeirio, sy'n cymryd am byth, ac nid yw atgyfeirio at MAPPA'n cael ei annog. Dim ond tua thri achos [Lefel 2] yr ydw i wedi'i gael felly wela i mo'r fantais."*

Roedd prosesau sgrinio rhy fiwrocrataidd mewn rhai ardaloedd. Roedd y rhain hefyd yn tueddu i fod lle'r oedd y trothwyon uchaf, gan felly arwain at y gyfran isaf o achosion yn cael eu rheoli ar Lefel 2 a 3. Er enghraifft, mewn un ardal fetropolitan, roedd 99.5% o'r holl achosion yn cael eu rheoli ar Lefel 1. Mewn cymhariaeth, ar draws pob ardal MAPPA, mae cyfran yr achosion a reolir ar Lefel 1 yn amrywio o'r isaf ar 94.2% i'r uchaf ar 99.8%.[16] Er bod yr amrywiadau hyn yn eithaf bach, mae nifer yr unigolion y maen nhw'n ei gynrychioli weithiau'n sylweddol gan ddibynnu ar faint y boblogaeth MAPPA yn yr ardal.

---

[16] Data o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1028933/MAPPA_Annual_Report_2020-21_Area_Tables.xlsx

Mae un ardal yn cynnal cyfarfodydd aml-asiantaethol ffurfiol â chynrychiolwyr o bedair asiantaeth o leiaf i drafod atgyfeiriadau. Yn yr ardal hon, teimlai'r ymarferwyr eu bod yn cael eu heithrio o'r penderfyniadau a soniodd lawer am ddiffyg hyder mewn trefniadau MAPPA. Dywedodd un wrthym:

> *"Rydym yn lwcus o gael rhywun i Lefel 2. Dwn i ddim pwy sydd ar y paneli sgrinio, nid ydym yn cael gwybod. Mae'n mynd i'r ether. Weithiau derbyniwn resymau am y penderfyniad, dro arall ddim byd. Mae pobl yn tueddu i osgoi MAPPA ar bob cyfrif. Mae atgyfeiriadau'n cymryd am byth cyn cael eu gwrthod ac i ni ei wneud ein hunain."*

| **Enghraifft o ymarfer gwael** |
| --- |
| Roedd Kurt yn cael ei reoli ar drwydded ar ôl ei ddedfrydu am stelcian. Roedd ganddo hefyd gysylltiadau â throseddu cyfundrefnol difrifol a throseddau cyffuriau. Roedd y gweithiwr prawf wedi atgyfeirio Kurt at MAPPA Lefel 2 a'r panel sgrinio lleol wedi derbyn yr atgyfeiriad. Ar ôl nifer o gyfarfodydd, teimlai'r panel MAPPA Lefel 2 fod y risg yn cyfiawnhau uwchgyfeirio at Lefel 3 i sicrhau bod digon o adnoddau i reoli'r achos yn ddiogel. Roedd wedyn angen i'r ymarferydd wneud atgyfeiriad MAPPA llawn arall i ofyn am reolaeth Lefel 3. Trafodwyd yr atgyfeiriad yn y panel sgrinio lleol a'i wrthod ar ôl barnu bod Lefel 2 yn ddigon. Roedd hyn yn broses aneffeithlon a gor-fiwrocrataidd oedd yn tanseilio penderfyniad y panel Lefel 2. Dylai'r achos fod wedi cael ei uwchgyfeirio'n syth at Lefel 3 heb gynnwys y panel sgrinio. |

Roedd un ardal brawf yn annog ymarferwyr i ymgynghori â swyddog prawf o'r tîm MAPPA cyn gwneud atgyfeiriad. Dywedodd ymarferwyr mai un o ganlyniadau disgwyliedig trafodaethau o'r fath oedd eu cynghori i beidio ag atgyfeirio ond yn hytrach cynnal cyfarfod rhwng gweithwyr proffesiynol; gan eu gadael yn teimlo'n ddi-sgil. Erbyn y pwynt hwn, roeddent eisoes wedi trafod yr achos â'u rheolwr a chytuno y dylid atgyfeirio'r achos. Dywedodd ymarferwyr nad oeddent yn teimlo bod ganddynt yr awdurdod i herio penderfyniadau oherwydd yr argraff mai'r tîm MAPPA oedd yr arbenigwyr. Lle'r oedd ymarferwyr yn mynegi barn fwy negyddol am MAPPA, roedd cyfran uwch o achosion nad oedd, yn ein harolygiad, wedi eu rhoi ar y lefel MAPPA gywir gan amharu ar reoli'r risg o achosi niwed difrifol.

Lle'r oedd y gweithwyr prawf yn fwy optimistaidd am MAPPA, roedd ganddynt ddealltwriaeth glir o'i bwrpas ac wedi eu cefnogi gan broses sgrinio dryloyw a didramgwydd. Mewn achosion brys, roedd cydlynwyr yn gallu gwneud penderfyniadau gweithredol am atgyfeiriadau i gyflymu'r broses. O ganlyniad, teimlai ymarferwyr yn rhan o'r broses ac yn gallu herio os oeddent yn anghytuno â phenderfyniad am atgyfeirio. Cafodd hyn ei grynhoi gan un ymarferydd fel hyn:

> *"Credaf ei fod yn gweithio'n dda ac yn rhoi mynediad hawdd at Lefel 2, hyn yn oed ar fyr rybudd os oes angen. Mae'n hawdd iawn trafod â'n cydlynydd MAPPA."*

Teimlai staff fod manteision clir mynychu cyfarfodydd Lefel 2 a 3 yn cynnwys rhannu gwybodaeth, atebolrwydd a sicrwydd eu bod yn gwneud eu gorau i gefnogi a rheoli achosion cymhleth sy'n cyflwyno risg o niwed difrifol. Dywedodd un wrthym:

> *"Mae MAPPA'n gyfle i ni ddysgu ac ail-asesu ar sail gwybodaeth gan eraill a weithiwn â nhw. Mae gennym berthynas dda iawn â'n hasiantaethau partner ond mae bob amser yn beth da cael persbectif pobl eraill drwy achosion Lefel 2 ac mae'n ein helpu i sefydlu perthynas â rhai nad ydym yn gweithio'n agos iawn â nhw."*

Yn yr heddlu, gwelsom ddealltwriaeth gymysg o'r prosesau ar gyfer uwchgyfeirio i Lefel 2 neu 3, er enghraifft pur anaml oedd achosion Lefel 1 yr heddlu'n cael eu huwchgyfeirio mewn rhai heddluoedd. Roedd ein grwpiau ffocws â rheolwyr troseddwyr RSO yr heddlu'n cyflwyno dealltwriaeth amrywiol o fanteision uwchgyfeirio achosion yr heddlu at MAPPA Lefel 2 neu 3; dywedodd rai rheolwyr troseddwyr wrthym nad oedd yn ystyriaeth ar gyfer achosion Lefel 1 yr

heddlu. Mewn rhai heddluoedd, y farn oedd mai achosion prawf oedd rhai Lefel 2 a 3 yn bennaf neu na fyddai atgyfeiriadau gan yr heddlu'n cael eu cymeradwyo; roedd hyn yn arbennig o wir lle'r oedd argraff bod nifer gyfyngedig o achosion a allai gael eu rheoli'n realistig ar y lefelau hyn. O ganlyniad, roeddent yn dibynnu ar gyfarfodydd proffesiynol llai ffurfiol. Teimlai rai rheolwyr troseddwyr yr heddlu fod hyn yn colli holl bwynt y ffaith bod cyfarfodydd MAPPA yn ychwanegu strwythur, ffocws ac impetws i achosion lle'r oedd swyddog eisoes efallai'n methu â gwneud cynnydd drwy ddulliau llai ffurfiol. I'r gwrthwyneb, roedd rhai rheolwyr troseddwyr yn trafod unigolion â'u rheolwyr llinell a'r cydlynydd MAPPA ac yn hyderus i atgyfeirio.

Mewn rhai ardaloedd, y cydlynydd MAPPA (neu'r rheolwr MAPPA) a ditectif-arolygydd o'r heddlu sy'n cyd-sgrinio atgyfeiriadau i wneud penderfyniad. Ein barn ni oedd fod y broses effeithlon ac ymatebol hon yn elwa o fewnbwn dwy asiantaeth heb fod yn rhy fiwrocrataidd. Roedd ymarferwyr yn yr ardaloedd hyn yn croesawu hyn. Roedd y diwylliant gorau'n bodoli lle'r oedd MAPPA wrth galon yr ymarfer yn y PDU a lle y teimlai'r ymarferwyr yn rhan o'r broses benderfynu.

## 3.2 Set ddogfennau MAPPA

Mae'r tîm MAPPA Cenedlaethol yn darparu set o ddogfennau sy'n cynnwys ffurflen ar gyfer pob cam o'r broses MAPPA. Anogir defnyddio'r dogfennau hyn; fodd bynnag, mae gan fyrddau SMB hawl i ymadael o'r templedi a'u haddasu i'w trefniadau lleol ond rhaid iddynt gadw gwybodaeth allweddol mewn rhai dogfennau hanfodol, fel y ffurflen atgyfeirio (MAPPA A).

Mae ymarferwyr yn ystyried bod ffurflen atgyfeirio MAPPA A yn feichus a hirfaith i'w llenwi. Dywedodd rai ymarferwyr fod yr amser a gymerir i gwblhau'r atgyfeiriad yn rhwystr a bod rhai'n osgoi atgyfeirio o bwrpas o'r herwydd. Mae'r ffurflenni hefyd yn gofyn am wybodaeth fanwl sydd gan amlaf ar OASys neu nDelius, ond eto bod yn rhaid iddynt drosglwyddo'r manylion i'r ffurflen atgyfeirio. Gan gyfeirio at eu pwysau gwaith trwm, roedd llawer yn cwestiynu pam fod angen gwneud hyn gan fynegi rhwystredigaeth nad oedd y systemau gwybodaeth yn ddigon soffistigedig i gofnodi'r wybodaeth bresennol yn awtomatig i arbed amser.

Mewn arolygiadau blaenorol, gwelsom broblemau ag ansawdd cofnodion cyfarfodydd. Mae gwelliannau wedi eu gwneud i ateb rhai o'r diffygion ond arhoswn yn bryderus nad yw gwybodaeth bwysig yn cael ei diweddaru bob tro, yn benodol y cynllun rheoli risg. Oherwydd natur gronnus y ddogfen (MAPPA B), ar gyfer achosion a adolygwyd droeon, mae'r cofnodion yn mynd yn hir a beichus sy'n ei gwneud yn anodd gwahaniaethu rhwng camau gweithredu presennol, a'r diweddaraf arnynt, a rhai cyfarfodydd blaenorol. Mewn tua thraean o'r achosion, nid oedd y cofnodion yn ddigon manwl ac nid oedd camau gweithredu clir, a'r diweddaraf arnynt, wedi eu cofnodi. Gan amlaf roedd y cofnodion yn cael eu cynhyrchu'n brydlon ond roedd hyn yn amrywio o ardal i ardal. Yn Cumbria, mae camau gweithredu'n cael eu dosbarthu'n syth ar ôl y cyfarfodydd sy'n ymarfer da fel bod manylion y tasgau gan y rhai sy'n gyfrifol amdanynt yn syth yn lle gorfod aros i dderbyn y cofnodion llawn.

Ar ôl ymgynghori drwy'r grwpiau ffocws a gwefan MAPPA, mae'r tîm MAPPA Cenedlaethol wedi diwygio dogfennau allweddol i gwtogi'r atgyfeiriad cychwynnol a symleiddio'r ffordd y cynhyrchir cofnodion. Mae'r templedi newydd yn edrych yn addawol ond heb ddechrau cael eu defnyddio eto, felly nid yw eu heffaith yn glir.

## 3.3. Cyfarfodydd MAPPA

### Agenda

Mae canllawiau a dogfennau cenedlaethol MAPPA erbyn hyn yn cynnwys y dull 'Pedwar Piler' o gynllunio a rheoli risg a ddatblygwyd gan yr Athro Hazel Kemshall (Kemshall, 2010) ac yn seiliedig ar: goruchwylio; monitro a rheoli; ymyriadau a thriniaeth; a chynllunio diogelwch dioddefwyr. I ddechrau, nid oedd pob ardal MAPPA'n defnyddio'r dull i gynnal eu cyfarfodydd ac amrywiol o hyd yw lefel ei wreiddio mewn ymarfer. Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn ei groesawu oherwydd mae'n cyd-fynd â hyfforddiant rheoli risg, er na welsant i gyd ei effaith ar gyfarfodydd MAPPA. Dywedodd un wrthym:

> *"Ni sylwais fod cyfarfodydd MAPPA'n cofleidio'r Pedwar Piler ond mae'n ddefnyddiol i'm hatgoffa fel ymarferydd."*

Dywedodd rai cadeiryddion eu bod yn cynnwys y Pedwar Piler yn y cynllun wrth gefn ond nid ar gyfer strwythuro'r cyfarfod cyfan. O'i ddefnyddio'n dda, gwelsom fod y dull yn rhoi strwythur ac eglurder a helpu i gydbwyso'r cynllun rheoli risg i sicrhau bod pob 'piler' yn derbyn yr un faint o sylw. Heb y dull hwn, gall cyfarfodydd fynd i ganolbwyntio'n ormodol ar gyfyngiadau heb roi sylw dyledus i ymyriadau a thriniaeth.

Roedd rhai swyddogion cyswllt dioddefwyr (VLO) a welsom yn poeni bod materion dioddefwyr yn aml yn cael eu gadael tan ddiwedd yr agenda ac felly'n colli allan ar amser a ffocws. Clywsom hefyd fod y cadeirydd yn aml yn dod atynt olaf i gael diweddariad ar gyfer cyfarfod. Fodd bynnag, gwelsom enghreifftiau lle'r oedd cadeirydd y cyfarfod yn cadarnhau eu rôl fel rhan o'u cyflwyno ac yn gofyn i'r VLO roi diweddariad gwybodaeth yn gynnar yn y cyfarfod. Roedd hyn yn ymarfer da a roddai ystyriaethau dioddefwyr wrth galon y cyfarfod.

Clywsom feirniadaeth yn y grwpiau ffocws fod cyfarfodydd MAPPA yn rhedeg dros eu hamser gyda gormod o rannu gwybodaeth nad oedd yn hanfodol i risg ar ddechrau'r cyfarfodydd yn aml. Effaith hyn yw bod diweddaru'r cynllun rheoli risg, sef y rhan bwysicaf o'r cyfarfod o bosib, yn cael ei ruthro ac weithiau ddim yn cael sylw o gwbl.

### Presenoldeb

Ers dechrau pandemig Covid-19, mae cyfarfodydd MAPPA wedi eu cynnal ar-lein drwy fideo-gynadledda. Mae'r rhan fwyaf yn croesawu'r newid gan ddweud bod angen llai o deithio sy'n gallu bod yn rhwystr i fynychu, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

Roedd gan y rhan fwyaf o'r ardaloedd baneli sefydlog ar gyfer cyfarfodydd Lefel 2 a 3. Maen nhw'n cynnwys cynrychiolwyr o asiantaethau RA a DTC sy'n dod i bob cyfarfod MAPPA, gan gynnwys rhai nad oes gan eu hasiantaeth rôl uniongyrchol. Y dull arall yw bod gan bob cyfarfod banel pwrpasol yn cynnwys staff sy'n gweithio'n uniongyrchol â'r achos neu sydd wedi eu gwahodd oherwydd bod angen eu cyfranogiad. Yn ein barn ni, y panel sefydlog oedd fwyaf manteisiol oherwydd ei fod yn datblygu gwybodaeth ac arbenigedd MAPPA y cynrychiolwyr. Maen nhw'n bwynt cyswllt i'w hasiantaethau ac yn gallu helpu eu staff rheng flaen sydd efallai ond yn cael cyswllt anaml ag achos MAPPA ac yn gweld y broses fel un ddyrys. Gwelsom sawl enghraifft lle'r oedd y panel sefydlog wedi rhoi cyngor manwl ac arbenigol, gan osgoi gwastraffu amser gyda chamau gweithredu ychwanegol. Roedd eu gwerth yn arbennig o amlwg gyda chyngor tai a deall y llwybrau iechyd meddwl a gofal cymdeithasol oedolion.

Wrth arolygu gwaith achos, roedd cyfranogi da a pharod gan y rhan fwyaf o'r asiantaethau perthnasol yn y cyfarfodydd MAPPA. Ond mewn nifer fach o achosion, gwelsom fylchau presenoldeb gan y gwasanaethau cymdeithasol plant ac oedolion, iechyd a thai. Dywedodd y rhan fwyaf o gadeiryddion MAPPA y gallent uwchgyfeirio problemau absenoldeb i'r SMB am sylw, er i rai cadeiryddion Lefel 3 ddweud eu bod yn aml yn cael eu cyfeirio'n ôl atynt yn eu rôl fel pennaeth y PDU.

## 3.4. Categori 3

Ar gyfer unigolion nad ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer Categori 1 na 2 ond sydd wedi cyflawni trosedd i awgrymu eu bod yn gallu achosi niwed difrifol ac mae angen rheolaeth aml-asiantaethol Lefel 2 neu 3 arnynt, gellir eu hatgyfeirio drwy Gategori 3. Roedd adroddiad gan HMICFRS yn 2021 (HMICFRS, 2021) a gomisiynwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref mewn ymateb i lofruddiaeth Sarah Everard wedi adnabod diffyg rheolaeth aml-asiantaethol o unigolion a gyflwynai'r risg fwyaf o niwed drwy gam-drin domestig. Fel rhan o'i arolygiad, gofynnodd HMICFRS i heddluoedd adnabod y pum unigolyn a oedd yn eu barn nhw'n cyflwyno'r bygythiad mwyaf i ferched a genethod yn ardal eu heddlu lleol. O'r 40 oedd wedi eu hadnabod, dim ond tri oedd yn cael eu rheoli o dan MAPPA.

I ymchwilio mwy i'r mater, fe wnaethom ofyn i bob ardal brawf roi rhestr o'r holl unigolion a aseswyd i fod yn cyflwyno risg uchel neu uchel iawn o achosi niwed difrifol a gyda 'baner' cam-drin domestig ar eu cofnod ond heb eu cofrestru o dan MAPPA. Fe wnaethom ddewis 20 achos o bob un (lle'r oedd y rhestr yn fwy na hyn) gan edrych ar y cynllun rheoli risg ar gyfer yr unigolyn. Ein bwriad oedd ystyried a oedd ymarferwyr yn gyfarwydd â defnyddio Categori 3 ar gyfer y cohort hwn ac yn barod i ystyried atgyfeirio. Mewn 83 allan o'r 117 achos i ni edrych arnynt, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod MAPPA wedi'i ystyried yn eu cynllun rheoli risg. Mewn nifer fach o achosion, gwelsom wallau cofnodi lle'r oedd yr achosion yn cael eu rheoli o dan MAPPA ond heb eu cofnodi felly ar system rheoli achosion nDelius. Mewn 18 achos, roedd tystiolaeth fod MAPPA wedi cael ei ystyried ond y penderfynwyd nad oedd ei angen, er bod rhai'n cynnwys atgyfeiriad fel un o'r camau posib yn y cynllun wrth gefn. Mewn 15 enghraifft, roedd llinell yn y cynllun rheoli risg yn dweud 'ddim yn gymwys ar gyfer MAPPA', oedd yn anghywir a di-fudd.

Ceisiodd Fframwaith Polisi Lefel 1 y Gwasanaeth Prawf, ac ychwanegiadau diweddar i ganllawiau MAPPA, atgoffa ymarferwyr i ystyried Categori 3 mewn achosion lle y gallai cam-drin domestig neu stelcian fod yn broblem. Yn Llundain, roedd cynnydd wedi bod mewn achosion Categori 3 o 61 ym Mawrth 2020 i 103 ar adeg ein cyfweliadau. Ar ddechrau'r pandemig, roedd rhanbarth prawf Cymru wedi gwneud gwaith archwilio targed ar gam-drin domestig gan ofyn i bob ymarferydd ystyried a oedd angen atgyfeirio camdrinwyr domestig risg uchel at MAPPA. Roedd mwy'n gyfarwydd â defnyddio Categori 3 na mewn ardaloedd eraill. Yn ystod ein grŵp ffocws â chadeiryddion Lefel 2 yng Ngogledd Cymru, clywsom:

> *"Gwelir MAPPA fel drws agored i wthio yn ei erbyn mewn achosion dedfrydau byr cymhleth o gam-drin domestig risg uchel ac sydd angen trosolwg aml-asiantaethol."*

Yn yr heddlu, gwelsom ddiffyg ymwybyddiaeth gyffredinol o'r potensial i ddefnyddio Categori 3 er i rai enghreifftiau ynysig ddangos pa mor werthfawr y gall yr opsiwn hwn fod ar gyfer unigolion nad ydynt yn awtomatig gymwys, ond sydd er hynny angen craffu a throsolwg aml-asiantaethol i reoli eu risg.

| **Enghraifft o ymarfer da – Heddlu Dyfnaint a Chernyw** |
| --- |
| Cafwyd Alban yn euog o droseddau difrod troseddol i gerbydau ac roedd wedi'i gysylltu i droseddau tebyg eraill. Roedd ganddo hanes o broblemau iechyd meddwl a chyflyrau niwro-wahanol oedd yn dangos eu hunain mewn dicter, rhwystredigaeth ac ymddygiad ailadroddus. Dywedodd ei fod yn difrodi cerbydau yn lle gweithredu ar ei ysfa i frifo merched oedd ar ben eu hunain. Drwy ymgysylltu'n rhagweithiol â'r heddlu lleol, penderfynodd swyddogion MOSOVO fod yr achos yn cyfiawnhau ei atgyfeirio at MAPPA. Roedd rheolaeth ar y lefel hon yn denu sylw a phrofiad y tîm MOSOVO ynghyd â mynediad at ystod o wasanaethau cymorth nad oedd y plismyn lleol efallai'n ymwybodol ohono. |

Roedd peth tystiolaeth o ddiffyg dealltwriaeth dda o'r llwybrau rhwng MAPPA a fforymau aml-asiantaethol eraill. Er enghraifft, gall achosion gyda risg newydd nad ydynt yn awtomatig gymwys ar gyfer MAPPA gael eu hatgyfeirio at MARAC neu IOM. Fodd bynnag, pur anaml yr ailystyrir yr achosion hyn i'w hatgyfeirio at reolaeth Categori 3, Lefel 2, hyd yn oed lle y mae'r risg a'r anghenion yn cynyddu a chyfiawnhau trosolwg a rheolaeth aml-asiantaethol.

Ymddengys bod pryderon am agor y llifddorau ar gyfer atgyfeiriadau Categori 3.
Dywedodd un cydlynydd wrthym y gallai ton o achosion newydd fod yn *"fygythiad systematig i weithrediad MAPPA"*. Er nad oeddem yn rhannu'r pryderon hyn, byddai ardaloedd lleol yn elwa o adolygu eu hadnoddau MAPPA ac ystyried a yw'r staffio, rolau a chyfrifoldebau'n cwrdd yn iawn â'r angen a lefel y gwaith.

## 3.5. ViSOR a rhannu gwybodaeth

Databas cenedlaethol o bobl beryglus yw ViSOR sy'n cadw gwybodaeth am bob troseddwr y rhoddwyd amodau cofrestru fel troseddwr rhywiol iddynt ar ôl eu cael yn euog o drosedd, a phobl dreisgar a allai fod yn beryglus. Cafodd ViSOR ei weithredu ar draws pob heddlu yn 2005 cyn cael ei gyflwyno i'r Gwasanaeth Prawf yn 2007 a'r gwasanaeth carchardai yn 2008. Nod ViSOR yw sicrhau bod asiantaethau MAPPA'n cyfrannu a rhannu gwybodaeth a manylion achosion troseddwyr MAPPA i wella cyfathrebu er mwyn rheoli risg, amddiffyn y cyhoedd a throsglwyddo achosion yn effeithiol. ViSOR hefyd yw'r storfa ddynodedig ar gyfer cofnodion MAPPA.

Yn ein harolygiad diwethaf o MAPPA, cawsom nad oedd y carchardai a phrawf yn defnyddio ViSOR fel offeryn gwaith cyffredin. Lle'r oedden nhw'n defnyddio'r system, pur anaml oedd ansawdd y wybodaeth o safon uchel. Yn siomedig, ychydig iawn sydd wedi newid ac nid yw'r argymhellion a wnaethom yn ein harolygiad diwethaf wedi eu gweithredu. Yn yr arolygiad hwn, aseswyd bod ViSOR yn cael ei ddefnyddio'n weithredol fel offeryn rhannu gwybodaeth dim ond mewn 38% o'r achosion i ni eu harolygu. Fel yn ein harolygiadau blaenorol, cawsom fod defnydd yr heddlu o ViSOR yn sefydlog ers tro gyda gwybodaeth risg berthnasol o wahanol systemau heddlu'n cael ei hychwanegu at y data-bas bron ym mhob achos a arolygwyd. Ond nid oedd hyn yn digwydd bob tro gydag achosion y tu allan i MOSOVO neu unedau cyfatebol oherwydd pur anaml yr oedd staff IOM neu dimau eraill yn defnyddio neu'n derbyn hyfforddiant ViSOR. Yn ôl canllawiau ViSOR, nid oes raid i achosion Categori 2 Lefel 1 fod â chofnod ViSOR felly nid yw'r wybodaeth bob amser yn cael ei chofnodi ar un system ganolog sydd ar gael i'r heddlu a phrawf.

Mae nifer o broblemau wedi rhwystro'r Gwasanaeth Prawf rhag gwneud mwy o ddefnydd o ViSOR. Yn gyntaf, mae oedi wedi bod gyda rhoi staff drwy'r lefel fetio angenrheidiol. Yn ôl cofnodion staff ar y system SOP[17], mae tua 2,000 o staff yn cael eu fetio ar hyn o bryd er bod y tîm ViSOR cenedlaethol yn meddwl bod y ffigur yn uwch oherwydd bod y cofnodion yn anghyflawn. Ar 31 Rhagfyr 2021, roedd 4,490 o swyddogion prawf, 5,739 o swyddogion gwasanaeth prawf a 1,218 o uwch-swyddogion prawf mewn swydd yn y Gwasanaeth Prawf. Yn ogystal, mae nifer o weinyddwyr achosion a ddylai fod â mynediad at ViSOR sy'n golygu bod nifer sylweddol o bobl sy'n dal i fod angen fetio a hyfforddiant arnynt.[18]

O'r blaen roedd mynediad at derfynellau cyfrifiadurol gyda ViSOR arnynt yn rhwystr i staff prawf oherwydd nad oedd digon ohonynt. Oherwydd pandemig Covid-19, mae mwy o staff prawf yn gweithio o gartref. Er eu bod bellach yn gallu defnyddio ViSOR o'u gliniaduron, ni chaniateir mynediad o bell; rhaid iddynt fod wedi cysylltu drwy gebl rhwydwaith mewn swyddfa. Hefyd oherwydd y pandemig, cafodd gyrsiau hyfforddi eu canslo neu eu gohirio felly nid yw'r uchelgais o fod â 14,000 o ddefnyddwyr ViSOR prawf erbyn diwedd 2020 wedi'i gyflawni.

Yn ogystal â'r rhwystrau strwythurol i ddefnyddio ViSOR, nid yw'r rhan fwyaf o staff i ni siarad â nhw'n gweld gwerth yn y system. Clywsom am rwystredigaeth gyda gorfod dyblygu gwybodaeth a gedwir ar systemau rheoli achosion prawf a'u bod yn hytrach yn rhannu gwybodaeth gyda chydweithwyr yn yr heddlu a'r carchardai drwy e-bost. O'r 67 o weithwyr prawf y gwnaethom eu cyfweld, ni ddywedodd yr un eu bod yn defnyddio ViSOR yn uniongyrchol, dywedodd 11% fod ganddynt fynediad drwy weinyddwr, roedd gan 4 fynediad ond nid oeddent yn defnyddio'r system, a dywedodd 52 (78%) nad oeddent yn defnyddio ViSOR o gwbl. Dywedodd y mwyafrif llethol o ymarferwyr nad oedd ViSOR yn rhan o'u hymarfer ac na wyddent ba werth y gallai ei ychwanegu. Dywedodd rai eu bod yn gwybod y gallent ddewis gwybodaeth o nDelius i'w hallforio i ViSOR ond ychydig ohonynt oedd yn defnyddio hyn na'n deall pryd i wneud. Dywedodd un ymarferydd:

> *"Er fy mod yn arfer â 'baneru' achosion ar gyfer ViSOR ar nDelius, dw i heb wneud hyn ers tro byd a dwn i ddim pam a dweud y gwir. Dw i'n tueddu i e-bostio'r wybodaeth yn uniongyrchol. Nid yw rhannu gwybodaeth ar ViSOR yn rhywbeth sy'n cael ei drafod na'i annog."*

---

[17] SOP yw'r system rheoli achosion adnoddau dynol a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Prawf.
[18] MOJ. (2021). *HMPPS workforce quarterly: December 2021.*

Roedd effaith methu â defnyddio ViSOR yn glir mewn nifer o'r achosion a arolygwyd. Roedd enghreifftiau lle na wyddai'r gweithwyr prawf am wybodaeth risg hollbwysig oedd ar ViSOR ac achosion lle nad oedd yr heddlu wedi cael eu diweddaru ar newidiadau pwysig.

**Enghraifft o ymarfer gwael**

Roedd Albert wedi'i gael yn euog o lofruddiaeth a'i ryddhau ar drwydded oes ar ôl bod yn y carchar. I ddechrau roedd yn cael ei reoli o dan MAPPA Lefel 2 oherwydd pryderon am risg o niwed iddo gan bobl yn y gymuned yn yr ardal lle'r oedd y llofruddiaeth wedi digwydd. Roedd cyfarfod MAPPA o blaid ei symud i rywle newydd ac wedi dyfeisio cynllun sbardun a fyddai'n hysbysu'r heddlu i ymateb pe bai Albert yn cysylltu â nhw mewn argyfwng. Cafodd y lefel MAPPA ei gostwng oherwydd bod yr holl drefniadau angenrheidiol yn eu lle. Fodd bynnag penderfynodd Albert symud tŷ ond nid oedd y gweithiwr prawf wedi diweddaru'r heddlu ar ei gyfeiriad newydd. Nid oedd y wybodaeth wedi'i chofnodi ar ViSOR ac felly nid oedd y sbardun mwyach yn effeithiol.

**Enghraifft o ymarfer gwael**

Cafodd Daryl ei ryddhau ar drwydded am droseddau rhyw yn erbyn plentyn. Roedd ganddo hanes o droseddau eraill, gan gynnwys cam-drin domestig, bod ag arfau yn ei feddiant, lladrata, a throseddau cyffuriau. Fel troseddwr rhyw cofrestredig, roedd ganddo reolwr troseddwyr heddlu a gweithiwr prawf. Dywedodd Daryl wrth ei weithiwr prawf fod ganddo berthynas newydd; fodd bynnag, nid oedd ei weithiwr prawf wedi gofyn am fanylion am ei bartner newydd a heb rannu gwybodaeth am y berthynas â'r plismon-arolygydd. Dywedodd yr ymarferydd wrthym pe bai Daryl yn dod i sylw'r heddlu, y byddai'n disgwyl i'r heddlu gysylltu â hi. Ar ôl gwirio systemau gwybodaeth yr heddlu, cadarnhawyd bod yr heddlu wedi cael eu galw i gyfeiriad Daryl droeon yn ddiweddar oherwydd helynt rhyngddo ef a'i bartner. Nid oedd y wybodaeth yma wedi'i chofnodi ar ViSOR. Felly nid oedd y staff cyfrifol yn yr heddlu na'r gwasanaeth prawf yn ymwybodol a heb gymryd unrhyw gamau i reoli'r risg hon.

Mewn carchardai, defnydd prin iawn o ViSOR a wnaed gyda'r rhan fwyaf o garcharorion MAPPA ac nid oedd yn cefnogi gwaith aml-asiantaethol. Er bod gan bob carchar y buom iddo fynediad at ViSOR, fel arfer dim ond un neu ddau o bobl oedd â mynediad, mewn adrannau fel yr OMU neu ddiogelwch. Edrychwyd ar gofnodion ViSOR y carcharorion yn ein sampl a chasglu bod gan achosion Categori 1 fel arfer gofnod ViSOR, a rhai Categori 2, Lefel 2 hefyd. Fodd bynnag pur anaml oedd gan garcharorion Categori 2, Lefel 1 yn ein sampl gofnod ViSOR. Ychwaith, nid oedd gan bob adran ddiogelwch fynediad at ViSOR, oedd yn fwlch, a dywedodd arweinwyr fod fetio i gael mynediad at ViSOR yn cymryd rhy hir. Yn olaf, nid oedd gwiriadau sicrhau ansawdd i sicrhau cofnodi effeithiol yn cael eu gweithredu ym mhob carchar. Oherwydd diffyg mynediad, ni allai staff weithiau gael gafael yn sydyn ar gofnodion cyfarfodydd MAPPA.

Mae system i ddisodli ViSOR, MAPPS (system amddiffyn y cyhoedd aml-asiantaethol) wrthi'n cael ei datblygu gan ddisgwyl ei lansio erbyn diwedd 2023. Disgrifir y system fel un bositif. Mae wedi'i hadeiladu ar lwyfan mwy modern a bydd yn fwy defnyddiol o ran perfformiad a rhannu gwybodaeth o systemau gwybodaeth eraill gan gynnig profiad llawer mwy effeithlon i ddefnyddwyr. Fodd bynnag, bydd y system newydd yn dibynnu ar ddata wedi'i fewnforio o ViSOR a'i llwyddiant felly'n dibynnu ar ddefnyddio ViSOR yn y cyfamser.

**Rhannu gwybodaeth**

Ar y cyfan cawsom fod cyfathrebu da'n digwydd rhwng yr heddlu a staff prawf a dywedodd ein grwpiau ffocws gyda staff yn y ddau wasanaeth fod ganddynt berthynas waith bositif a chefnogol. Fodd bynnag, mewn ardaloedd gyda throsiant staff uchel mewn timau MOSOVO a swyddfeydd prawf, roedd hyn yn achosi problemau. Gwelsom enghreifftiau lle'r oedd rheolwyr troseddwyr yr heddlu wedi cofnodi sawl ymgais i gysylltu â'r gweithiwr prawf ond yn ofer. Gwelsom hefyd enghreifftiau o staff prawf yn e-bostio rheolwyr troseddwyr yr heddlu nad oedd mwyach yn gweithio yn y tîm perthnasol. Wedi dweud hynny, gwnaed ymdrechion mewn rhai ardaloedd i feithrin perthynas waith agos drwy gydleoli staff neu roi mesurau yn eu lle i sicrhau cyfathrebu rheolaidd.

| **Enghraifft o ymarfer da – Gogledd Cymru** |
| --- |
| Yn ystod pandemig Covid-19, roedd yr heddlu a phrawf wedi dechrau cynnal cyfarfodydd tasg a chydlynu aml-asiantaethol i drafod gwybodaeth newydd gan yr heddlu neu brawf. Mae staff SPO yn mynychu cyfarfodydd o bell i gytuno â chydweithwyr yr heddlu ar gamau priodol i reoli risg ar y cyfle cyntaf posib. Mae'r cyfarfodydd yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyfnewid yn ddiymdroi'n dilyn unrhyw ddigwyddiad ac yn gyfle i'r ddwy asiantaeth gytuno ar ba gamau i'w cymryd. Ar ôl bod mor ddefnyddiol, maen nhw bellach wedi eu mabwysiadu fel ymarfer parhaol. |

## 3.6. Adolygiadau achos difrifol

Roedd gan y rhan fwyaf o'r ardaloedd broses ar gyfer adnabod achosion sydd angen adolygiad achos difrifol (SCR) gorfodol o dan MAPPA neu y dylid eu hystyried fel achos disgresiynol. Roeddem yn bryderus o weld nad oedd gan un ardal broses ar waith ond fe wnaethant ein sicrhau eu bod wedi cywiro'r sefyllfa ar ôl i ni dynnu eu sylw at y mater.

Yn genedlaethol, mae nifer yr adolygiadau SCR yn fach ond ar gynnydd oherwydd bod mwy o achosion disgresiynol yn cael eu hadolygu. Roedd adroddiad blynyddol cenedlaethol MAPPA am 2021 yn datgelu bod 168 o unigolion MAPPA dan reolaeth y gwasanaeth prawf wedi eu cyhuddo o drosedd pellach difrifol (SFO), 88% ohonynt yn cael eu rheoli ar Lefel 1. Yn yr un flwyddyn roedd 15 achos wedi derbyn SCR.[19] Derbynnir achosion disgresiynol os oes pryder bod methiannau wedi bod gyda rheolaeth MAPPA o'r achos. Defnyddiodd rai byrddau SMB is-grŵp i ystyried a ddylid comisiynu adolygiad, oedd yn broses gadarn yn ein barn ni. Mae adolygiadau SCR yn hir a chostus a dylid ond eu cynnal lle y credir na fyddai adolygiadau eraill wedi trafod rôl MAPPA'n ddigonol ac unrhyw ddysgu a fyddai'n deillio o'r achos. Yn y rhan fwyaf o achosion lle y mae rhywun dan reolaeth MAPPA'n cyflawni trosedd difrifol, mae pob un o'r asiantaethau RA yn cwblhau adolygiad mewnol. Gwelsom fawr ddim tystiolaeth bod dysgu o adolygiadau SFO y gwasanaeth prawf ac adolygiadau rheolaeth fewnol cyfochrog gan yr heddlu'n cael ei rannu ag asiantaethau RA a DTC os nad oedd SCR wedi'i gwblhau, a gellid gwella ar hyn.

## 3.7. Casgliadau a goblygiadau

Mae achosion sy'n awtomatig gymwys ar gyfer MAPPA'n cael eu hadnabod yn syth ar y pwynt dedfrydu; fodd bynnag, ni wneir penderfyniadau am y lefel reoli yn ddigon buan bob tro, neu gan roi rhesymau clir drostynt. Ar gyfer unigolion yn cael eu rhyddhau ar drwydded, mae hyn yn cael effaith andwyol ar ansawdd y rheoli risg ar ôl rhyddhau.

Mae arferion MAPPA yn amrywio'n sylweddol gan arwain at ddealltwriaeth ddarniog o'i bwrpas a'i fanteision i ymarferwyr mewn rhai ardaloedd. Weithiau, cynhelir cyfarfodydd rhwng gweithwyr proffesiynol yn lle cyfarfodydd MAPPA ond yn aml heb drosolwg gan reolwyr a heb gael eu cofnodi'n ffurfiol. Er eu bod yn ffordd ddefnyddiol ychwanegol o gynorthwyo gweithio'n gydlynus, ni ddylid eu gweld fel opsiwn arall mewn achosion cymhleth lle y mae angen dull ffurfiol o sicrhau atebolrwydd.

Fel arfer mae presenoldeb da yng nghyfarfodydd MAPPA a'r asiantaethau'n atebol am fethiannau drwy'r dangosyddion KPI. Fodd bynnag, mae'r dull presennol o gofnodi cyfarfodydd yn creu

[19] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2021). *Multi-Agency Public Protection Arrangements (MAPPA) annual report 2020 to 2021*.

dogfennau sy'n feichus i'w defnyddio ac felly nid yw gwybodaeth hanfodol bob tro'n cael ei diweddaru.

Mae ymwybyddiaeth o Gategori 3 ymhlith ymarferwyr yn cynyddu. Fodd bynnag, mae'n llwybr aneglur o hyd ar gyfer rhai sy'n cyflwyno risg o niwed cam-drin domestig, yn enwedig i rai sy'n cyflawni troseddau lefel is dros gyfnod hirach o amser ond sy'n cyflwyno risg wirioneddol o niwed i'w dioddefwyr drwy gam-drin hirdymor.

Er bod rhannu gwybodaeth a'r berthynas rhwng asiantaethau'r awdurdodau cyfrifol ar y cyfan yn dda, ni ddefnyddir ddigon ar ViSOR, heblaw gan staff yr heddlu. Mae cynlluniau i roi sylw i hyn ar ei hôl hi, sy'n bygwth llwyddiant y system newydd.

# 4. Cadw pobl yn ddiogel

Mae'r bennod hon yn trafod canfyddiadau ein harolygiadau o achosion a pha mor effeithiol yw MAPPA ym mhob lefel reoli.

## 4.1. Llais y bobl sydd ar brawf

Fe wnaethom gomisiynu cwmni Penal Reform Solutions (PRS) i gasglu barn pobl ar brawf oedd yn dod o dan MAPPA. Roedd gan bob ymchwilydd a ymunodd â ni brofiadau byw o'r system cyfiawnder troseddol. Rydym yn ddiolchgar am ddealltwriaeth y 41 o unigolion a gymrodd ran ac a roddodd adborth drwy sgyrsiau ffôn ffurfiol ag ymchwilwyr.

Y canfyddiad mwyaf trawiadol oedd na wyddai dros hanner y bobl a holwyd eu bod yn dod o dan MAPPA. Yn wir, ar ôl ein hwythnos gyntaf o waith maes, roeddem yn poeni mai'r cyswllt â PRS oedd yn gwneud y datgeliad hwn; fe wnaethom ofyn i'r Gwasanaeth Prawf sicrhau bod y cyfranogwyr yn ymwybodol o'r gwaith yr oeddem yn ei wneud. Gallai hyn fod wedi dylanwadu ar yr ymateb yn yr wythnosau canlynol. Hyd yn oed ymhlith y rhai a wyddai am eu statws MAPPA, yn aml ni wyddent beth a olygai iddynt. Teimlai rai'n rhwystredig bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal i'w trafod ac nad oeddent yn gallu cyfrannu. Siaradodd lawer am y stigma o gael y label MAPPA'n gysylltiedig â nhw oherwydd eu hargraff ei fod yn golygu eu bod yn beryglus neu, fel y disgrifiodd rhai, yn 'fwystfil'.

Roedd rhai o'r cyfranogwyr yn fwy positif gan sôn am y cymorth a gawsant gan wahanol asiantaethau a oedd, y tybient, yn rhan o MAPPA. Rhai o'r prif themâu gyda'r profiadau positif oedd teimlad bod rhywun yn gwrando arnynt a derbyn cymorth cyson. Roedd y rhan fwyaf yn anfodlon pan oedd gweithwyr yn newid ac yn cael trafferth ymgysylltu'n ystyrlon pan oedd staff yn newid yn rheolaidd. Lle'r oedd y berthynas yn gweithio'n dda, gallai drawsnewid pethau. Dywedodd un cyfranogwr am ei gweithiwr prawf:

> *"fe wnaeth fy helpu 110 y cant efo fy iechyd meddwl ac agor drysau nad oedd erioed ar agor o'r blaen... Ni allaf egluro pa mor falch ydw i o fy swyddog prawf. Mae pobl yn sôn pa mor dda ydw i bellach."*

Roedd sylwadau positif hefyd am y berthynas gyda rheolwyr troseddwyr yr heddlu oedd yn cynnig arweiniad ar ddatgelu troseddau i ddarpar gyflogwyr mewn ffordd gefnogol.

Mae'r farn a gasglwyd yn cefnogi canfyddiadau ein harolygiad nad yw unigolion yn cael digon o wybodaeth am MAPPA'n aml na'n cael cyfle i gyfrannu.

## 4.2. Rheolaeth Lefel 1 yn y gymuned

Yng nghyfarfodydd ein harolygiad, roeddem yn holi staff prawf ar bob gradd am y Fframwaith Polisi Lefel 1; roedd rhai'n croesawu strwythur ac eglurder ei ddisgwyliadau ond teimlai eraill ei fod yn cyflwyno biwrocratiaeth ddiangen drwy ychwanegu ffurflen arall i'w llenwi. Roedd gan rai rheolwyr bryderon na fydd yn hwyluso'r nod o adolygu achosion yn drylwyr pan fo'r ymarferydd yn gwneud y gwaith hwn ei hun. Rydym eisoes wedi dweud ein bod yn rhannu eu pryderon. Dywedodd un rheolwr:

> *"Mae'r cyfrifoldeb yn cael ei roi arnyn nhw [yr ymarferwyr]. Nid yw'n ehangu'r dadansoddiad o'r achos os yw'n aros gyda'r ymarferydd."*

Ni wnaeth ein harolygiad o achosion Lefel 1 fawr ddim i'n hargyhoeddi eu bod yn cael digon o sylw a ffocws. O'r 60 o achosion Lefel 1 i ni eu harolygu, dim ond 23 (41%) a dderbyniodd adolygiad ffurfiol o'r lefel honno. Mewn ychydig dros hanner yr achosion Lefel 1, nid oedd MAPPA Q ar gofnod yr achos a'r rhesymeg dros y lefel reoli'n aneglur. Gwelsom 13 achos (22% o'r achosion Lefel 1 i ni eu harolygu) lle'r oeddem yn teimlo y dylent fod yn cael eu rheoli ar lefel uwch.

O ran achosion Lefel 1, fe wnaeth un gweithiwr prawf grynhoi'r hyn a glywsom gan nifer o bobl:

*"Dw i'n tueddu i anghofio eu bod yn MAPPA; rhoddir llai o bwyslais i'r achosion hyn."*

Arferid â disgrifio achosion Lefel 1 yng nghanllawiau MAPPA fel achosion 'rheolaeth un asiantaeth' i adlewyrchu nad oedd angen cyfarfodydd aml-asiantaethol. Addaswyd y disgrifiad bellach i 'cymorth aml-asiantaethol ar gyfer rheoli risg gan asiantaeth arweiniol, gyda rhannu gwybodaeth' i bwysleisio bod angen parhau i rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau ar gyfer yr achosion hyn, er y diffyg cyfarfodydd ffurfiol. Fodd bynnag, yn ein harolygiadau o achosion, dim ond mewn ychydig dros hanner yr achosion Lefel 1 oedd y wybodaeth yn cael ei rhannu'n foddhaol i gynorthwyo gyda rheoli'r risg o niwed. Dywedodd un ymarferydd prawf:

*"Mae rheolaeth Lefel 1 yn rhywbeth sydd angen ei wella. Naw gwaith allan o 10 os oes arést, nid yw'r wybodaeth am hyn yn cael ei chyfathrebu. Mae rhannu gwybodaeth yn wael. Mae llawer o drosiant staff yn yr heddlu a'r gwasanaeth prawf sy'n ei gwneud yn anodd dod o hyd i'r person iawn".*

**Enghraifft o ymarfer gwael**

Cafodd Vince ei ddedfrydu i orchymyn dedfryd ohiriedig yn cynnwys gofyniad i gwblhau rhaglen achrededig i gywiro ei droseddu rhywiol. Mae wedi aildroseddu droeon yn ystod ei gyfnod dan oruchwyliaeth. Fe'i haseswyd i fod yn cyflwyno risg uchel o niwed i blant. Ni chafodd y lefel MAPPA ei hadolygu ac ni chafwyd trafodaeth yn dilyn y troseddu pellach, er y dystiolaeth bod Vince yn parhau i ddangos ymddygiad rhywiol difater a bod ganddo feddyliau rhywiol anweddus parhaus.

Er mwyn amddiffyn y cyhoedd, teimlai'r arolygwyr fod angen dilyn dull aml-asiantaethol cydlynus i ddelio â'r risg yr oedd Vince yn ei chyflwyno, o ran ei risg o niwed a'i aildroseddu parhaus. Felly dylid bod wedi ystyried cynyddu'r lefel MAPPA i sicrhau craffu aml-asiantaethol ynghyd ag adnoddau ychwanegol o bosib.

Er mwyn deall a rhoi sylw i'r rhesymau am y troseddu, rhaid cael asesiad trylwyr o anghenion a'r risgiau a gyflwynir gan yr unigolyn. Gwelsom yn y rhan fwyaf o achosion fod gan yr asesiadau ar gyfer achosion Lefel 1 ffocws da ar y ffactorau cysylltiedig â throseddu, risg o niwed, ymatal a chael y person ar brawf i ymgysylltu. Fodd bynnag, yn rhy aml nid oedd gwiriadau cam-drin domestig digonol wedi eu gwneud, a bron yn nhraean yr achosion lle'r oedd angen, nid oedd digon o wybodaeth am ddiogelu plant wedi cael ei rhannu. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd, clywsom gan swyddogion cyswllt dioddefwyr (VLO) na ofynnir iddynt fel mater o drefn am wybodaeth i oleuo adolygiadau Lefel 1. Yn ein harolygiadau o achosion Lefel 1, nid oedd anghenion y dioddefwr yn cael eu hystyried cystal ag anghenion achosion Lefel 2 a 3.

Roedd y cynllun cyn-rhyddhau ar gyfer Lefel 1 hefyd yn llai effeithiol nag ar gyfer Lefel 2 a 3. Aseswyd gennym fod cynllunio cyn-rhyddhau boddhaol wedi'i wneud mewn 65% o'r achosion Lefel 1 o'i gymharu ag 88% o rai Lefel 2. Yn rhy aml, roedd y cynllunio'n digwydd yn rhy hwyr neu ddim yn talu sylw i risgiau penodol yr achos.

**Enghraifft o ymarfer gwael**

Cafodd Guy ei ddedfrydu i 12 mis o garchar am drosedd o glwyfo plentyn ifanc. Roedd yn cael ei reoli ar Lefel 1. Roedd y cofnodion yn awgrymu hanes sylweddol o gam-drin domestig wedi'i gysylltu â cham-drin sylweddau, yn erbyn nifer o bartneriaid a'i fam. Cafodd ei ryddhau ar gyrffyw cadw yn y cartref (HDC) i gyfeiriad ei bartner. Ar ôl 16 diwrnod, cafodd ei alw'n ôl am dynnu ei dag yn ystod ffrae gyda'i bartner pan oedd dan ddylanwad alcohol. Ar ddyddiad ei ryddhau, caniatawyd iddo unwaith eto fyw gyda'i bartner ac ni chafodd unrhyw apwyntiad wedi'i gofnodi

am ddau fis ar ôl ei ryddhau. Ni wnaed unrhyw waith ymyrraeth â Guy i ddelio â'i ymddygiad troseddu.

Dylai'r asesiad ar gyfer HDC fod wedi gwrthod cyfeiriad ei bartner fel opsiwn oherwydd y cam-drin domestig a dylid bod wedi chwilio am gyfeiriad arall. Yn ogystal, dylai ei gynllun cyn-ryddhau fod wedi cynnwys apwyntiadau rheolaidd a threfniadau i fonitro ei berthnasoedd yn ofalus a rhoi sylw i'w ymddygiad camdriniol.

Roedd y cynllunio ar gyfer achosion Lefel 1 yn wannach nag ar gyfer Lefel 2, gyda dim ond 56% ohonynt gyda chynllun wrth gefn effeithiol, o'i gymharu â 69% o rai Lefel 2.

Roedd ein sampl yn rhychwantu cyfnod pandemig Covid-19 ac felly roedd y gwasanaeth prawf, am lawer o'r amser, yn gweithio o dan fodel darparu 'eithriadol' oedd yn cyfyngu ar ddisgwyliadau o gael cyswllt wyneb yn wyneb ac, yn hytrach ac mewn rhai achosion, yn caniatáu apwyntiadau dros y ffôn neu drwy fideo-gynadledda er mwyn lleihau cyswllt cymdeithasol a lledaeniad y feirws. Fe wnaethom ystyried hyn wrth arolygu'r achosion. Er hyn, roeddem o'r farn bod lefel a natur y cyswllt yn ddigonol i gefnogi'r cynllun rheoli risg dim ond mewn 53% o'r achosion Lefel 1. Roedd adolygu ymarfer hefyd yn llai effeithiol gydag achosion Lefel 1. Gwelsom ormod o achosion lle na ystyriwyd yn foddhaol sut yr oedd digwyddiadau o bwys neu wybodaeth newydd yn effeithio ar risg achosion. Daethom i'r casgliad fod yr adolygu'n canolbwyntio'n foddhaol ar gadw pobl yn ddiogel mewn llai na hanner yr achosion i ni eu harolygu.

Roedd ansawdd y gwaith o reoli a goruchwylio achosion MAPPA Categori 1 gan yr heddlu'n gyson ac o ansawdd da ar draws pob lefel ar y cyfan. Ar Lefel 1, fel ar Lefel 2 a 3, gwelsom gofnodi gwybodaeth manwl a chyson ar ViSOR a systemau eraill yr heddlu ynghyd ag asesiadau risg cywir a chynlluniau rheoli risg priodol. Gwnaed defnydd da o gyfarfodydd rhwng gweithwyr proffesiynol gan ddisodli'r cyfarfodydd MAPPA mewn rhai achosion.

Er bod ansawdd y gwaith o reoli achosion Lefel 1 yn y rhan fwyaf o ardaloedd y buom iddynt yn llai positif nag ar gyfer Lefel 2 a 3, roedd eithriadau nodedig. Yng Ngogledd Cymru, roedd ansawdd y gwaith rheoli achosion ar draws y tair lefel MAPPA'n gymharol, ac yn gryf ar bob lefel. Mae gan Ogledd Cymru broses sefydlog ers tro ar gyfer adolygu achosion Lefel 1, sy'n cynnwys yr ymarferydd prawf a'u SPO.

**Enghraifft o ymarfer da – PDU Gogledd Cymru**

Roedd Eamon yn y carchar am droseddau rhywiol yn erbyn plentyn. Cyn ei ryddhau, roedd angen dod o hyd i lety addas a gwnaed atgyfeiriadau i'r gwasanaethau tai. Mae Eamon yn eithaf ynysig yn y gymuned a rhoddwyd cymorth hefyd i gael mynediad at addysg a gyda dod o hyd i waith. Er ei asesu i fod yn cyflwyno risg uchel o niwed i blant, a bod nifer o asiantaethau'n cyfrannu, mae Eamon wedi cael ei reoli'n llwyddiannus ar MAPPA Lefel 1. Mae cydweithio cryf wedi bod rhwng yr heddlu a phrawf wrth ymweld â'r cartref ac ar wneud yr asesiadau ARMS (system weithredol rheoli risg) angenrheidiol. Mae ei lefel MAPPA wedi cael ei hadolygu'n rheolaidd gan y gweithiwr prawf a'r SPO, a'u cofnodi, yn defnyddio gwybodaeth gan y tîm rhaglenni ac asiantaethau eraill a fu'n gweithio ag Eamon. Mae'r adolygiadau wedi arwain at gamau gweithredu pwrpasol gan ychwanegu at ansawdd rheoli'r achos. Llwyddodd Eamon i ddod o hyd i rywle parhaol i fyw, a'i gadw, a hefyd i gwblhau rhaglen achrededig yn ystod ei gyfnod ar drwydded.

Dim ond mewn 32% o'r achosion Lefel 1 y cafodd ein prif gwestiwn, sef a oedd statws MAPPA wedi gwella'r gwaith rheoli risg o niwed ac amddiffyn y cyhoedd, ei ateb yn gadarnhaol.

## 4.3. Rheolaeth Lefel 1 mewn carchardai

Roedd rhannu gwybodaeth rhwng y carchar a'r gymuned am ymddygiad a risg barhaus unigolyn yn rhy brin mewn llawer o'r achosion a ystyriwyd i fod yn Lefel 1. Yn aml iawn, roedd diffyg asesiad

ystyrlon neu wybodus i ategu'r penderfyniad i reoli'r achos ar Lefel 1 a phur anaml oedd y rhesymau am y penderfyniad hwnnw'n cael eu cofnodi. Ni welsom ychwaith fawr ddim tystiolaeth bod y rheolwr troseddwyr cymunedol wedi gofyn am wybodaeth gan y carchar wrth benderfynu rheoli'r carcharor ar Lefel 1 a dywedodd rheolwyr POM wrthym mai pur anaml yr oedden nhw'n rhan o'r broses ymgynghori - er bod gan y carchar yn aml y dystiolaeth a'r arsylwadau diweddaraf ar ymddygiad a risg a allai arwain at atgyfeirio at Lefel 2.

**Enghraifft o ymarfer gwael**

Roedd Gulshan yn y carchar am ymosod yn rhywiol ar blentyn ac roedd ganddo chwe wythnos ar ôl. Roedd wedi ei adnabod fel MAPPA Categori 1, Lefel 1. Nid oedd gan y carcharor OASys, cynllun dedfrydu na chynllun rheoli risg. Roedd y cyfathrebu rhwng y carchar a'r gymuned wedi bod yn wael; nid oedd unrhyw dystiolaeth o reoli risg o niwed, ac anghenion adsefydlu Gulshan, yn gydweithredol. Nid oedd y POM wedi siarad â'r carcharor wyneb yn wyneb, yn hytrach roedd wedi dibynnu ar wybodaeth am y carcharor - nid oedd unrhyw wiriadau wedi bod ar y cyfeiriad y byddai'n cael ei ryddhau iddo i gadarnhau a allai fod risg i blant, neu a ddylid dod o hyd i rywle arall. Heb asesiad roedd yn anodd barnu a oedd ei reoli ar Lefel 1 yn briodol.

Roedd rhannu gwybodaeth rhwng gwahanol adrannau yn y carchardai hefyd yn anfoddhaol. Mewn un carchar, cawsom wybod nad oedd gwybodaeth a gasglwyd drwy fonitro cyfathrebu gan garcharorion yn cael ei rhannu fel mater o drefn â rheolwyr POM. Pur anaml oedd bod yn achos MAPPA Lefel 1 yn ychwanegu gwerth clir at reoli risg; dim ond mewn 3 allan o 24 achos y gwelsom hyn. Roedd staff rheoli troseddwyr yn ymwybodol o'r risg a gyflwynai hyn a dywedodd un:

> *"Nid ydym yn rhoi llawer o amser na sylw i'r achosion Lefel 1 a gwyddom mai'r rheiny yw'r rhai sy'n achosi problemau."*

Yn yr achosion Lefel 1 oedd yn cael eu rheoli'n well, gwelsom elfennau o drafodaethau aml-asiantaethol rhwng y carchar a'r gymuned am lefel risg y carcharor fel rhan o'r broses sgrinio, yn ogystal ag adolygiad i benderfynu a oedd yn parhau i fod yn briodol.

**Enghraifft o ymarfer da – HMP Hatfield**

Roedd Shane mewn carchar agored am achosi marwolaeth drwy yrru'n beryglus ac wedi cael ei adnabod fel MAPPA Categori 2, Lefel 1. Wrth gyrraedd HMP Hatfield a chyn unrhyw ROTL, roedd y rheolwr troseddwyr cymunedol wedi cwblhau sgrinio MAPPA Q. Roedd hyn yn egluro'r rhesymau dros benderfynu pam y gellid rheoli'r carcharor yn ddiogel ar y lefel hon. Ar ôl blwyddyn cafodd y penderfyniad ei adolygu a gofynnwyd i'r heddlu am y wybodaeth ddiweddaraf ar ôl ei ryddhau ar ROTL yn y gymuned. Roedd penderfyniadau'r achos wedi eu gwneud ar sail cyfiawnhad ac yn aml-asiantaethol gyda chyfathrebu da rhwng y carchar, y carcharor a'r rheolwr troseddwyr cymunedol.

Y diffyg rhannu gwybodaeth oedd y prif bryder ar gyfer carcharorion oedd o fewn chwe mis i gael eu rhyddhau ond eto heb lefel reoli MAPPA wedi'i chadarnhau, yn aml oherwydd bod y cyfathrebu neu'r rhannu gwybodaeth rhwng y carchar a'r rheolwr troseddwyr cymunedol wedi bod yn brin. Roedd hyn yn ffactor gyda 14 carcharor yn ein sampl (29%) gyda rhai ohonynt ar fin cael eu rhyddhau heb i gynllun rheoli risg cadarn fod yn ei le. Er enghraifft:

**Enghraifft o ymarfer gwael**

Roedd Ashley yn y carchar am 'achosi niwed corfforol drwy yrru'n gynddeiriog' a byddai'n cael ei ryddhau mewn pedair wythnos. Roedd wedi'i adnabod fel MAPPA Categori 2 ond ni osodwyd lefel. Nid oedd ganddo asesiad o'i risg a'i anghenion ac felly dim cynllun ar gyfer ei amser dan glo. Roedd y cyfathrebu rhwng y carchar a'r gymuned wedi bod yn wael; nid oedd ei achos wedi cael ei drosglwyddo ac nid oedd sgrinio MAPPA wedi'i wneud eto. Ar adeg ein harolygiad, ni wyddai'r carchar beth fyddai'r cynllun ar gyfer rheoli risg y carcharor ar ôl ei ryddhau.

Roedd posibilrwydd pryderus i risgiau gael eu colli mewn carchardai gyda llwythi achosion trwm, cyswllt gwael rhwng y rheolwyr POM a'r carcharorion, a diffyg trosolwg gan arweinwyr. Ni allai bob carchar adnabod carcharorion heb lefel MAPPA er y gallai'r newidiadau sy'n cael eu gwneud gan HMPPS i wella adrodd data, a symleiddio'r baneri rhybudd a ddefnyddir i adnabod carcharorion MAPPA, helpu i ddatrys y broblem.

Yn ein sampl, cafodd 12 achos eu hadnabod i fod yn cyflwyno risg ganolig o niwed. Mae rheolaeth weithredol a chyson yn bwysig i adnabod unrhyw newid mewn risg. Fel y dywedodd Arolygiaeth Prawf EM yn ei hadroddiad blynyddol yn 2021,[20] roedd rheolaeth o achosion gyda risg ganolig yn sylweddol waeth o'i gymharu â rhai a gyflwynai risg uchel o niwed. Mae ein canfyddiadau'n cadarnhau hyn gydag achosion risg ganolig yn dangos y gwendidau mwyaf o ran rheoli risg. Er enghraifft:

**Enghraifft o ymarfer gwael**

Roedd Paul yn y carchar am ladrata ac wedi'i asesu fel risg ganolig o niwed, gan ddisgwyl cael ei ryddhau mewn tua 5 wythnos. Roedd wedi'i adnabod fel MAPPA Categori 2, Lefel 1. Nid oedd yr OASys wedi cael ei adolygu'n dilyn newid o bwys mewn amgylchiadau – yn yr achos hwn, cymryd cyffuriau tra'r oedd ar ROTL – ac roedd yr asesiad risg o niwed wedi dyddio. Casglodd yr arolygwyr "oherwydd ei fod yn achos MAPPA risg ganolig, na chafodd y flaenoriaeth angenrheidiol o safbwynt amddiffyn y cyhoedd". Roedd angen adolygiad llawn, gan gynnwys ei ddefnydd o gyffuriau yn y carchar, i greu cynllun i gefnogi a rheoli Paul ar ôl ei ryddhau.

Roedd achosion risg ganolig o niwed hefyd yn fwy tebygol o gael eu rheoli gan reolwyr troseddwyr yn y carchar ac nid gan staff prawf, oedd heb yr hyder na'r ymwybyddiaeth bob tro i uwchgyfeirio pethau i'w harweinwyr. O ganlyniad roedd gan fylchau mewn rheoli risg potensial i gael eu diystyru.

## 4.4. Rheolaeth Lefel 1 a 2 yn y gymuned

Fe wnaethom arolygu 42 o achosion Lefel 2 a phedwar achos Lefel 3. At ei gilydd, roedd yr achosion Lefel 2 a 3 yn cael eu rheoli'n well na'r rhai Lefel 1; fodd bynnag, roedd lle i wella o hyd mewn rhai achosion, yn enwedig gydag adnabod yr holl risgiau y gallai unigolion eu cyflwyno, a sicrhau bod mesurau priodol yn eu lle i'w rheoli.

Fel gydag achosion Lefel 1, ar y cyfan roedd yr asesiadau o risg ac anghenion ar gyfer Lefel 2 a 3 o ansawdd boddhaol. Roedd yr asesiadau'n canolbwyntio ar ffactorau oedd yn gysylltiedig â throseddu a risg o niwed yn nhri chwarter yr achosion. Fodd bynnag, roedd bylchau o hyd o ran cael gwybodaeth gan yr heddlu am hanes cam-drin domestig ac mewn 29% o'r achosion Lefel 2, nid oedd unrhyw wiriadau wedi eu gwneud. O ystyried natur gudd cam-drin domestig, disgwyliwn i wiriadau gael eu gwneud ym mhob achos i sicrhau y rheolir yr holl risgiau a gyflwynir gan unigolyn.

Roedd yr achosion Lefel 2 a 3 yn ein sampl yn fwy tebygol o fod wedi cael eu lefel MAPPA wedi'i phenderfynu'n brydlon oherwydd bod yr achosion hyn yn cael eu hadnabod yn amlach fel risg uchel neu uchel iawn ac felly'n cael mwy o sylw. Roedd y cynllunio cyn-rhyddhau'n drylwyr yn y rhan

[20] Arolygiaeth Prawf EM. (2022). *Annual report 2021: inspection of probation services*.

fwyaf o achosion, gan arwain at gynllunio gwell yn gyffredinol a ffocws cliriach ar gadw pobl yn ddiogel.

| Enghraifft o ymarfer da – Gogledd Cymru |
| --- |
| Roedd Frank yn y carchar am dreisio. Cyfeiriodd y gweithiwr prawf yr achos at MAPPA Lefel 2 a chynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ddau fis cyn rhyddhau. Roedd y cyfarfodydd MAPPA'n hwyluso gwaith rhannu gwybodaeth da rhwng yr asiantaethau perthnasol, gan gynnwys iechyd meddwl, gan helpu i gynllunio ei ryddhau a chynorthwyo cyfranogi positif. Roedd yr heddlu'n rhannu gwybodaeth am bobl a allai gyflwyno risg o niwed i Frank a chymerwyd camau i'w amddiffyn. Roedd cyfathrebu da rhwng y POM a'r COM i drafod cynlluniau rhyddhau a daethpwyd o hyd i le mewn hostel prawf yn y gymuned ar gyfer ei ryddhau. Roedd y POM yn cael trafodaethau rheolaidd â Frank i'w ddiweddaru ar ganlyniad y cyfarfodydd, gan gynnwys yr amodau a fyddai ar ei drwydded ar ôl ei ryddhau. Cynhaliwyd cyfarfodydd tair ffordd rhwng Frank, y POM a'r COM i asesu gwaith ymddygiad troseddol a wnaed yn y carchar ac i drefnu gwaith pellach ar ôl ei ryddhau. |

Roedd y cynllunio ar gyfer achosion Lefel 2 a 3 yn rhoi sylw boddhaol i'r ffactorau cysylltiedig â throseddu a risg o niwed ac yn rhoi blaenoriaeth i'r ffactorau pwysicaf yn nhri chwarter yr achosion a welsom. Roedd cynlluniau rheoli risg yn aml o ansawdd gwell nag a welsom ar Lefel 1 ac fel arfer gydag amserlen benodol, ac yn disgrifio rôl asiantaethau eraill yn glir o ran eu cyfrifoldeb am gamau gweithredu. Fodd bynnag, er mantais y cyfarfodydd aml-asiantaethol i'w goleuo, nid oedd y cynlluniau wrth gefn bob amser yn rhoi sylw i ffactorau amlwg oedd â photensial i gynyddu risg pob unigolyn o achosi niwed neu aildroseddu. Er enghraifft, dim ond camau gweithredu cyffredinol oedd gan rai, fel defnyddio gorfodaeth am ddiffyg cydymffurfio. Mewn achosion lle y tybiwyd nad oedd y cynllunio'n foddhaol, y rheswm mwyaf cyffredin oedd methu â chynllunio ar gyfer holl risgiau'r achos. Er enghraifft, methu â chynllunio i symud person i lety 'dilyn ymlaen' ar ôl arhosiad hir mewn hostel prawf yn y gymuned, ar gyfer carcharor hirdymor oedd yn amlwg angen cymorth arno. Mewn achosion eraill, er bod ffocws ar gamau gweithredu cyfyngus a fyddai'n lleihau risg yn y tymor hir, nid oedd digon o ffocws ar helpu unigolion i gryfhau cyneddfau mewnol a dod o hyd i opsiynau yn lle troseddu drwy ymyriadau neu weithgareddau adeiladol.

Roedd y cyfathrebu rhwng asiantaethau y tu allan i'r cyfarfodydd MAPPA ffurfiol yn dda gan amlaf ac yn digwydd drwy e-bost a galwadau ffôn. Pur anaml y gwelsom weithwyr proffesiynol yn cyfarfod rhwng cyfarfodydd MAPPA a fyddai efallai wedi bod yn fwy buddiol nag aros am y cyfarfod ffurfiol i rannu gwybodaeth neu ddelio â phroblem. Mewn rhai achosion gwelsom dystiolaeth o ymarferwyr yn gohirio penderfyniadau'n annerbyniol tan y cyfarfod MAPPA.

Mewn naw achos yn ein sampl, roedd y lefel MAPPA wedi'i gostwng yn rhy gyflym gan roi rhesymeg nad oeddem yn cytuno â hi, er enghraifft lle'r oedd camau gweithredu anorffen yn ymwneud â diogelu plant. Yn yr achosion hyn bu'n rhaid i'r gweithiwr prawf gwblhau'r camau gweithredu heb bwysau MAPPA y tu ôl iddynt ac, yn anochel, nid oeddent wedi llwyddo. Weithiau, roedd paneli MAPPA wedi gostwng lefel achosion ar y ddealltwriaeth y byddai cyfarfodydd rhwng gweithwyr proffesiynol yn parhau, i rannu gwybodaeth a rheolaeth aml-asiantaethol. Pur anaml y gwelsom hyn yn digwydd ac yn rhy aml roedd momentwm yr achos wedi'i golli ar ôl ei ostwng i Lefel 1.

| Enghraifft o ymarfer gwael |
| --- |
| Roedd Vik wedi'i ddedfrydu am droseddau'n gysylltiedig ag ecsbloetio plant yn rhywiol a'i ryddhau ar drwydded ar ôl cyfnod o garchar. Roedd yn cyflwyno risg uchel o niwed i blant ac roedd ganddo hanes o gam-drin domestig. Cafodd ei reoli i ddechrau ar Lefel 1 nes i bryderon hanesyddol pellach, tebyg i'w droseddau blaenorol, ddod i'r amlwg. Cafodd ei atgyfeirio at Lefel 2 gyda'r cyfarfodydd yn canolbwyntio ar adnabod yr holl blant yn ei deulu i sicrhau bod mesurau diogelu yn eu lle i'w gwarchod. Roedd nifer o wasanaethau cymdeithasol plant yn rhan o'r achos |

mewn gwahanol ardaloedd; nid oedd rhai wedi ymgysylltu'n brydlon â MAPPA ac roedd gwybodaeth heb gael ei derbyn. Roedd Vik hefyd wedi datgelu ei fod yn bwriadu priodol ac roedd gan ei bartner blant. Penderfynodd y panel MAPPA ostwng yr achos i Lefel 1 ar y sail y gallai'r gweithiwr prawf, gyda chymorth eu rheolwr, fynd ar ôl y wybodaeth. Ni ystyriwyd datgelu ei droseddau i'w bartner na diogelu ei phlant. Ni dderbyniwyd llawer o'r wybodaeth oedd ei hangen, er ymdrechion gorau'r gweithiwr prawf, a theimlai'r arolygwyr y dylai MAPPA fod wedi cadw'r achos nes y byddai'r holl gamau gweithredu anorffen wedi cael eu cwblhau gyda mesurau diogelu priodol yn eu lle.

Roedd dros dri chwarter yr achosion yn ein sampl Lefel 2 wedi bod yn byw mewn hosteli prawf yn y gymuned yn ystod eu dedfryd. Mewn rhai ardaloedd, clywsom fod cofrestriad ar Lefel 2 yn un o'r gofynion i sicrhau lle; fodd bynnag, oherwydd bod gan 40% o'n sampl Lefel 1 hefyd le yn yr hosteli hyn, nid oedd hyn yn digwydd bob tro. Mae hosteli prawf yn y gymuned yn adnodd gwerthfawr gan gynnig monitro a rheolaeth ategol ynghyd â chymorth ac ail-addasu i'r gymuned ar gyfer unigolion sydd wedi bod yn y carchar am gyfnodau hir. Fodd bynnag, clywsom am rwystredig gan staff rhai hosteli bod ymarferwyr prawf weithiau'n eu gweld dim ond fel ffynhonnell lety, gan arwain at atgyfeiriadau amhriodol.

Mewn bron i un o bob tri o'r achosion Lefel 2 i ni eu harolygu, roedd yn aneglur a oedd pobl ar brawf wedi cael gwybod am eu statws MAPPA neu wedi cael cyfle i gyfrannu at gyfarfodydd. Mae llais yr unigolyn yn rhan hanfodol o ddull Pedwar Piler MAPPA ond roedd yn ymddangos i fod ar goll. Nid yw'r agenda genedlaethol (MAPPA C) yn ysgogi cadeiryddion MAPPA i ofyn am y wybodaeth hon, sy'n ddiffyg mawr. Bron bob tro, roedd cyfarfodydd MAPPA'n ystyried nodweddion gwarchodedig ac amgylchiadau personol unigolion, oherwydd maen nhw'n rhan o'r agenda.

Mewn 58% o achosion Lefel 2, ni welsom fod ViSOR wedi cael ei ddefnyddio'n weithredol fel offeryn rhannu gwybodaeth; nac ychwaith mewn dau allan o'r pedwar achos Lefel 3 i ni eu hadolygu. Mewn rhai achosion, nid oedd y cynllun rheoli risg oedd wedi'i lanlwytho i ViSOR, a chynllun yr asiantaeth arweiniol, yn cyd-fynd. Roedd hyn fel arfer oherwydd na chafodd y cynllun rheoli risg MAPPA ei ddiweddaru'n dilyn cyfarfod ond cynllun yr asiantaeth arweiniol wedi cael ei ddiweddaru, neu fel arall. Clywsom gan weithwyr prawf, pan gynhelir cyfarfodydd MAPPA'n aml, bod cwblhau asesiad OASys llawn i ddiweddaru cynlluniau'n anodd oherwydd pwysau gwaith. O ganlyniad, bron mewn traean o'r achosion Lefel 2, nid oedd adolygiad digon prydlon wedi bod yn dilyn y cyfarfod MAPPA er mwyn diweddaru'r ffactorau o bwys.

Er y ffocws cychwynnol cadarn ar y ffactorau sy'n gysylltiedig â risg o niwed, roedd pethau'n amlwg ar goll o'r cynllun rheoli risg mewn 23% o'r achosion Lefel 2 i ni eu hadolygu. Er enghraifft, methu ag ystyried yr holl ddioddefwyr posib neu ffocws cul ar y brif drosedd gan ddiystyru ymddygiad blaenorol.

Mae rhai achosion yn parhau i fod yn destun cyfarfodydd MAPPA Lefel 2 neu 3 tan ddiwedd eu dedfryd, pan ddaw rôl statudol y gwasanaeth prawf i ben. Rôl MAPPA yn yr achosion hyn ddylai paratoi ar gyfer hyn ac ystyried trefniadau wrth gefn a allai leihau'r risg i'r cyhoedd ar ôl i fesurau goruchwylio ddod i ben. Mewn nifer fach o achosion, mae'r agwedd yma ar gynllunio'n cael ei diystyru. Er enghraifft roedd un achos a welsom yn mynd drwy'r broses barôl a'r holl waith yn canolbwyntio ar beth fyddai ei angen pe bai parôl yn cael ei ganiatáu. Fodd bynnag, roedd y cyfarfodydd MAPPA wedi methu ag ystyried y posibilrwydd y gallai aros yn y carchar tan ddiwedd ei ddedfryd a chael ei ryddhau heb drwydded. Dylai'r cyfarfod fod wedi adnabod hyn drwy gynllun wrth gefn a thalu sylw i ba fesurau y gellid rhoi yn eu lle pe bai hyn yn digwydd, er enghraifft gorchmynion sifil a llety a allai gynnig cyfyngiadau priodol.

Ym mhob achos Lefel 3 ac mewn 73% o rai Lefel 2, aseswyd bod MAPPA wedi cyfrannu at reoli'r risg o achosi niwed difrifol ac amddiffyn y cyhoedd. Roeddem yn teimlo weithiau nad oedd hyn wedi digwydd, er enghraifft os nad oedd uwchgyfeirio at Lefel 2 wedi arwain at y canlyniad oedd mewn golwg drwy atgyfeirio neu os oedd lefel yr achos wedi cael ei gostwng yn rhy fuan gyda chamau gweithredu anorffen nad oedd yna'n cael eu cwblhau.

| Enghraifft o ymarfer da – Gogledd Cymru |
| --- |
| Cafwyd Ralph yn euog o fod ag arf ymosodol yn ei feddiant a chafodd orchymyn o ddedfryd ohiriedig. Digwyddodd ei drosedd y tu allan i'w ardal ei hun ac roedd yr adroddiad cyn-dedfrydu'n codi pryderon am safbwyntiau eithafol. Ceisiodd y gweithiwr prawf gasglu gwybodaeth am Ralph gan asiantaethau perthnasol ond heb fawr o lwyddiant. Cafodd ei atgyfeirio at Lefel 2 o dan Gategori 3. Drwy'r cyfarfod MAPPA, cafodd y wybodaeth angenrheidiol ei chasglu a chodwyd pryderon ychwanegol am gam-drin domestig. Ar sail y cynllun rheoli risg a baratowyd o ganlyniad, gallodd yr asiantaethau ymateb yn ddi-oed ar ôl i'w amgylchiadau newid a'i risg gynyddu. |

## 4.5. Rheolaeth Lefel 2 mewn carchardai

Roedd tystiolaeth glir o ychwanegu gwerth i reoli risg carcharorion ar MAPPA Lefel 2. Fe wnaeth yr arolygwyr adolygu naw achos Lefel 2 a chanfod, ym mhob un heblaw am un, bod MAPPA wedi ychwanegu gwerth i'r rheolaeth o risg. Ymhlith y rhesymau am hyn oedd: cyfathrebu gwell rhwng y carchar a'r gymuned wrth benderfynu gwneud achos yn un Lefel 2; trafodaeth reolaidd o achosion Lefel 2 yn yr IRMM; a chynlluniau rheoli risg aml-asiantaethol wedi eu goleuo'n well gan bawb. Er enghraifft:

| Enghraifft o ymarfer da – HMP New Hall |
| --- |
| Roedd Sally yn y carchar am gynnau tân yn fwriadol ac wedi'i hadnabod fel MAPPA Categori 2 wedi'i rheoli ar Lefel 2. Roedd yr asesiad o'i risg ac anghenion wedi cael ei adolygu cyn ei rhyddhau i adlewyrchu ei hamser dan glo. Roedd y POM yn cael cyswllt rheolaidd â Sally a'r COM, ac oherwydd bod ganddynt wybodaeth dda am yr unigolyn, roeddent yn gallu cyfrannu'n ystyrlon i'r cyfarfodydd MAPPA. Roedd yr atgyfeiriad at Lefel 2 wedi arwain at baratoi a chymorth gwell ar gyfer rhyddhau gan sicrhau bod Sally'n mynd i hostel prawf yn y gymuned a allai gwrdd â'i hanghenion. Casglodd yr arolygwyr: "mae rôl MAPPA wedi ychwanegu gwerth drwy gyfrannu at gynllunio rhyddhau ymarferol". |

Roedd cyfraniadau ysgrifenedig at gyfarfodydd MAPPA (MAPPA F) o ansawdd boddhaol neu dda ond nid yn cael eu cymeradwyo gan reolwr bob tro. Thema gyffredin yn yr adroddiadau anfoddhaol oedd diffyg dadansoddi'r risg o niwed, a dim ond rhestru mesurau gan y carchar fel gwrandawiadau dyfarnu, rhybuddion ymddygiad neu adroddiadau gwybodaeth, heb fawr ddim dehongliad o'u harwyddocâd. Gwelsom enghreifftiau o ymarfer gwell yn HM YOI Feltham B, yn benodol o ran cofnodi a dadansoddi'r ymddygiad oedd yn gysylltiedig â'r trosedd.

Ar gyfer cyfarfodydd MAPPA Lefel 2 a 3, o dderbyn digon o rybudd roedd staff carchardai fel arfer yn mynychu, fel arfer drwy alwad fideo, gan ôl-ddilyn ar weithredu pan fo angen. Roedd y POM a'r uwch-weithiwr SPO hefyd yn mynychu cyfarfodydd Lefel 3 mewn rhai safleoedd, oedd yn ymarfer da. Roedd cynlluniau i orfodi presenoldeb gan y carchar mewn cyfarfodydd MAPPA cyn-rhyddhau, ac i ddiwygio'r ffurflen MAPPA F, ar y gweill er mwyn gwella dadansoddi risg a rhannu gwybodaeth rhwng y carchar a'r gymuned.

Roedd rheolaeth o achosion yn aml wedi'i danseilio gan oedi cyn atgyfeirio at MAPPA, cyswllt gwael rhwng y POM a'r carcharor a dyrannu rheolwr troseddwyr cymunedol yn hwyr, oedd weithiau ond yn cymryd drosodd pan oedd y carcharor ar fin cael ei ryddhau.

| Enghraifft o ymarfer gwael |
| --- |
| Oedolyn ifanc yn y carchar am ladrata oedd Lee, a fyddai'n cael ei ryddhau yn yr wythnosau nesaf. Roedd yn cael ei reoli o dan MAPPA Lefel 2, Categori 2 ac wedi'i asesu i fod yn cyflwyno |

risg uchel o niwed iddo'i hun ac i eraill. Roedd yn cyflwyno nifer o broblemau rheoli oherwydd ymddygiad fel cynnau tanau a hunan-anafu. Er i'r carchar wneud peth gwaith rhagweithiol, roedd oedi wedi bod gyda dyrannu'r achos i'r rheolwr troseddwyr cymunedol. O ganlyniad, roedd cyfraniad yr asiantaethau eraill – fel tai ac iechyd – yn rhy hwyr i gynllunio'n effeithiol ar gyfer rhyddhau gan olygu bod yr unigolyn yn agored i hunan-anafu ac yn risg i eraill. Barnodd yr arolygwyr nad oedd rheolaeth Lee o dan MAPPA'n foddhaol ar y cyfan, gan gasglu: "roedd angen cyfranogiad gwahanol asiantaethau'n gynnar yn yr achos hwn, ac ni ddigwyddodd hynny".

## Monitro cyfathrebu carcharorion

Gall carchardai ymyrryd â chyfathrebu carcharorion drwy fonitro'r post sy'n dod iddynt a gwrando ar eu galwadau ffôn, er mwyn amddiffyn y cyhoedd. Cafwyd heriau gyda gwneud y gwaith hwn yn effeithiol yn y blynyddoedd diwethaf. Fel i Arolygiaeth Carchardai EM ei adrodd o'r blaen, mae'r cynnydd mewn ffonau 'yn y gell' wedi gorlwytho'r system monitro galwadau ac mewn rhai carchardai roedd nifer fawr o alwadau'n aros i gael eu gwrando.

O gael ei drefnu'n dda, roedd monitro'n offeryn pwysig i oleuo cynlluniau rheoli risg. I wneud hyn, roedd angen i garchardai sicrhau bod galwadau'n cael eu gwrando'n brydlon gan staff gyda gwybodaeth dda am yr achosion unigol, bod y recordiadau o'r sgyrsiau hyn o ansawdd da a bod y wybodaeth ar gael yn barod i staff oedd yn rhan o reoli'r risg o niwed. Er enghraifft:

**Enghraifft o ymarfer da – HMP New Hall**

Roedd Sian yn y carchar am gam-drin ac esgeuluso plentyn ac wedi'i hasesu i fod yn cyflwyno risg uchel o niwed, MAPPA Categori 2, Lefel 2. Ers cyrraedd HMP New Hall, roedd galwadau ffôn a phost Sian wedi cael eu monitro. Gwrandawyd ar ei galwadau ffôn y diwrnod ar ôl iddynt ddigwydd a gwyddai staff fod angen blaenoriaethu'r galwadau oherwydd eu bod yn gyfarwydd â'r carcharor a'i pherthynas â'r bobl yr oedd yn eu ffonio. Yn dilyn recordio a monitro ei galwadau'n effeithiol, cafwyd nad oedd y galwadau a dderbyniai Sian gan ei phlant yn cael eu goruchwylio'n iawn gan yr oedolyn yn y cartref, ac roedd tystiolaeth o ymddygiad rheolgar gan Sian tuag at ei phlant. Rhannwyd y wybodaeth yma'n brydlon â'r POM a fu'n trafod yr achos â'r COM, a gododd yr achos wedyn yn yr IRMM a'i atgyfeirio at MAPPA Lefel 2. Golygai hyn y gallai'r gwasanaethau plant ddiogelu'r plant yn briodol a gallai'r asiantaethau gynllunio i ryddhau'r carcharor yn effeithiol, drwy ystyried lle mewn hostel prawf yn y gymuned yn lle dychwelyd i'r cartref teuluol.

Yn yr achos uchod, roedd yr arolygydd wedi nodi:

> *"chwaraeodd fonitro rôl bwysig gyda rheoli'r risg bresennol ac yn y dyfodol. Dangosodd ba mor bwysig yw monitro achosion a chasglu'r wybodaeth berthnasol; a chadarnhau'r pryderon am ei risg i'w phlant".*

Fodd bynnag, pur anaml y gwelsom y gwaith da hwn mewn carchardai eraill. Yn hytrach, gwelsom broblemau'n ymwneud â monitro galwadau ffôn carcharorion oedd yn tanseilio rheoli risg. Mewn rhai carchardai, nid oedd digon o staff i wneud y gwaith gan arwain at oedi gyda gwrando ar alwadau; mewn un carchar roedd oedi o bedwar mis. Roedd yr oedi hefyd yn arwain at beidio ag adnabod risgiau taer a pheidio â chymryd camau i amddiffyn y cyhoedd.

**Enghraifft o ymarfer gwael**

Roedd Kevin yn y carchar am drosedd trais yn y cartref ac wedi'i adnabod fel Categori 2, Lefel 1. Roedd wedi'i asesu i fod yn cyflwyno risg uchel o achosi niwed difrifol i ferched yr oedd mewn perthynas â nhw. Roedd tystiolaeth ei fod wedi cysylltu â'i bartner blaenorol o'r carchar ac wedi bygwth ei brifo. Nid oedd wedi'i roi ar y rhestr fonitro pan gyrhaeddodd ac, oherwydd problemau

staffio, roedd oedi o fis o ran galwadau'n aros i gael eu monitro. Dros y cyfnod hwn, roedd wedi cysylltu â phartner newydd 475 gwaith mewn un mis, ac un diwrnod wedi ei ffonio 43 gwaith. Roedd cynnwys y galwadau ffôn yn destun pryder; roedd yn aml yn bygwth brifo ei bartner ac yn dangos ymddygiad rheolgar. Roedd oedi cyn gallu adnabod y risgiau hyn, a rhannu'r wybodaeth wedyn, wedi cyflwyno risg o niwed i ddioddefwyr yn y gymuned.

Roedd galwadau ffôn carcharorion yn aml yn cael eu monitro gan staff gwahanol bob tro, a staff oedd heb eu hyfforddi mewn adnabod risg o niwed. Roedd y wybodaeth a gasglwyd o wrando ar alwadau'n aml felly'n wael iawn ac wedi methu ag adnabod risgiau newydd. Yn yr enghreifftiau gwaethaf, roedd saff nos mewn swyddfeydd diogelwch yn gwrando ar alwadau a rhai ohonynt yn anghyfarwydd ag amgylchiadau'r achos. Er enghraifft, mewn un recordiad clywsom '[carcharor] yn siarad â merch ifanc', ac un arall yn dweud 'sgwrs gyda dynes', ond oherwydd na allai'r staff adnabod y berthynas rhwng y carcharor a'r person yr oeddent yn eu ffonio, roeddent mewn sefyllfa wael i adnabod patrymau ymddygiad a risgiau newydd. Mewn enghraifft well, roedd staff o'r tîm amddiffyn y cyhoedd yn gwrando ar alwadau. Roeddent yn gallu cynnig cysondeb, yn gyfarwydd â'r achos o ran perthnasoedd ac ymddygiad troseddol blaenorol, ac wedi eu lleoli yn yr uned OMU ac felly'n gallu rhannu gwybodaeth yn brydlon.

Nid oedd logiau monitro ar gael bob tro i reolwyr POM oedd yn eu hatal rhag derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am risg o niwed a gallu gwneud trefniadau effeithiol ar gyfer rhyddhau. Nid oedd galwadau gan garcharorion mewn iaith heblaw Saesneg yn cael eu cyfieithu bob tro.

Yn olaf, nid oedd gan baneli MAPPA a staff eraill sy'n rheoli risg o niwed ddealltwriaeth dda o gylch gwaith a phwrpas y broses monitro galwadau. Weithiau mewn cyfarfodydd MAPPA roedd disgwyl i'r carchar fod yn gallu gwrando'n rheolaidd ar alwadau carcharorion i gasglu gwybodaeth. Mewn un achos, er bod y carcharor wedi'i dynnu'n briodol oddi ar y rhestr monitro galwadau (oherwydd nad oedd lle i boeni), roedd y gweithiwr prawf cymunedol wedi gofyn am fonitro ychwanegol. Nid oedd hyn o fewn cylch gwaith cyfreithiol y carchar gan awgrymu bod angen eglurder gwell rhwng asiantaethau o ran cylch gwaith a phwrpas ymyrryd â chyfathrebu yn y carchar.

## 4.6. Casgliadau a goblygiadau

Yn rhy aml, nid yw MAPPA Lefel 1 yn golygu llawer o gwbl naill ai i'r ymarferwyr cyfrifol yn y carchar, prawf neu'r heddlu, neu i'r asiantaethau partner. Mae'r diffyg craffu a ffocws ar achosion Lefel 1 y Gwasanaeth Prawf yn arwain at reoli risg yn anfoddhaol mewn gormod o achosion.

Mae methu â chynllunio'n foddhaol cyn rhyddhau, a methu ag adnabod pa mor bwysig yw deall ymddygiad yn y carchar a sut y mae'n trosglwyddo i'r gymuned, yn cael effaith negyddol ar reoli risg yn drylwyr. Ychwaith, nid oes digon o adnoddau yn eu lle i fonitro cyfathrebu gan garcharorion yn effeithiol. Nid yw paneli MAPPA bob amser yn deall y broses na'n defnyddio'r opsiwn yn ddigon da, gan arwain at golli cyfleoedd.

Ar nodyn mwy positif, gwelsom fod cyfarfodydd MAPPA Lefel 2 a 3 yn ychwanegu gwerth sylweddol at reoli achosion. Mae dod ag asiantaethau at ei gilydd gyda'r gynrychiolaeth iawn, ar y lefel iawn, yn hwyluso rhannu gwybodaeth a rhoi mynediad at wasanaethau na fyddai efallai wedi digwydd y tu allan i'r fforwm MAPPA. Mae MAPPA hefyd yn ychwanegu gwerth drwy drosolwg a chraffu ar achosion cymhleth. Mewn rhai achosion, mae hyn yn golygu rhoi sicrwydd bob yr holl asiantaethau'n gwneud eu gorau glas i atal y risgiau a gyflwynir gan unigolyn, hyd yn oed lle nad oes fawr o obaith o weld newid.

# Dogfennau Cyfeiriol


Bryant, S., Peck, M. a Lovbakke, J. (2015*). Reoffending Analysis of MAPPA Eligible Offenders*. London: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Hall, J (2020). *Terrorist Risk Offenders: Independent Review of Statutory Multi-Agency Public Protection Arrangements*. Llundain: Jonathan Hall QC.

Crwner EM (2021). Cwestau Fishmongers' Hall. Ar gael yn: https://fishmongershallinquests.independent.gov.uk/

Arolygiaethau Cwnstabliaeth, Prawf a Charchardai EM (2006). *Putting Risk of Harm in Context*. Manceinion.

Arolygiaethau Cwnstabliaeth, Tân ac Achub EM (2021). *Police response to violence against women and girls - final inspection report*. Llundain.

Arolygiaethau Cwnstabliaeth a Phrawf EM (2011). *Putting the pieces together: An inspection of Multi-Agency Public Protection Arrangements.* Manceinion.

Arolygiaethau Cwnstabliaeth a Phrawf EM. (2015). *A follow-up inspection of Multi-Agency Public Protection Arrangements*. Manceinion.

Arolygiaethau Prawf EM (2018) *Independent review of the case of Leroy Campbell: final report.* Manceinion.

Arolygiaethau Prawf EM (2020) *Independent review of the case of Joseph McCann.* Manceinion

Arolygiaethau Prawf EM (2022). *2021 Annual Report: Inspections of probation services.* Manceinion

Kemshall, H. (2010). 'The role of risk, needs and strengths assessment in improving the supervision of offenders.' Yn: F. McNeill, P. Raynor a C. Trotter (gol), *Offender Supervision: New directions in theory, research and practice*. Willan.

Kemshall, H. (2014), wedi'i ddyfynnu yn Arolygiaethau Prawf EM (2018). *The quality of public protection work (probation services)*. Manceinion.

https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprobation/wp-content/uploads/sites/5/2018/10/2018-02-The-quality-of-public-protection-work-probation-services.pdf

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2021). *Multi-Agency Public Protection Arrangements (MAPPA): annual report 2020 to 2021.* Llundain

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2021). *Offender Management Statistics quarterly: July to September 2021.* Llundain.

# Atodiad 1: Geirfa

| | |
|---|---|
| **Rhaglen achrededig** | Rhaglen waith a gyflwynir i droseddwyr unigol neu mewn grwpiau o dan un o ofynion gorchymyn cymunedol neu orchymyn dedfryd ohiriedig, neu fel rhan o ddedfryd o garchar neu amod ar drwydded. Mae rhaglenni achrededig yn cael eu hachredu gan y Panel Achredu Gwasanaethau Cywirol fel bod yn effeithiol gyda lleihau'r tebygolrwydd o aildroseddu. |
| **ARMS** | Mae'r System Rheoli Risg Weithredol (ARMS) yn darparu fframwaith ar gyfer gweithio gyda dynion sy'n droseddwyr rhywiol ac yn cael eu goruchwylio'n statudol. Mae'n cynorthwyo i asesu risg ddeinamig a ffactorau gwarchodol (wele Gyfarwyddyd Prawf PI 15/2015). |
| **COM** | Rheolwr troseddwyr cymunedol |
| **DTC** | Asiantaethau a ddisgrifir o dan adran 325(3) *Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003* fel rhai sydd a 'dyletswydd i gydweithredu' â'r awdurdod cyfrifol, sef heddluoedd a gwasanaethau carchardai a phrawf, ar asesu a rheoli troseddwyr MAPPA. |
| **Y Pedwar Piler** | Wedi'i ddatblygu gan Brifysgol De Montfort, dyfeisiwyd y dull Pedwar Piler i sefydlu rhwydweithiau cymorth ar gyfer troseddwyr, a gwella ffactorau gwarchodol, er mwyn lleihau eu risg o aildroseddu. Mae'n ffordd o reoli ac asesu risg mewn ffordd gymesur, dryloyw a chytbwys. Mae gan y dull Pedwar Piler bedwar gweithgaredd neu 'biler' allweddol: goruchwylio; monitro a rheoli; ymyriadau a thriniaeth; a chynllunio diogelwch dioddefwyr. |
| **ETE** | Addysg, hyfforddiant a chyflogaeth: gwaith i wella dysgu a rhagolygon cyflogaeth unigolyn. |
| **HMPPS** | Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS): yr asiantaeth sy'n gyfrifol am y gwasanaethau carchardai a phrawf. Wele'r nodyn isod ar NOMS. |
| **Rheoli Troseddwyr yn Integredig (IOM)** | Mae Rheoli Troseddwyr yn Integredig yn rhoi ymateb traws-asiantaethol i'r bygythiadau troseddu ac aildroseddu a wynebir gan gymunedau lleol. Mae'r troseddwyr mwyaf parhaus a phroblematig yn cael eu hadnabod a'u rheoli ar y cyd gan asiantaethau partner sy'n gweithio gyda'i gilydd. |
| **IRMM** | Cyfarfod rheoli risg rhyngadrannol: cyfarfod mewnol yn y carchar i drafod y risg a gyflwynir gan garcharor. |
| **Gweithiwr allweddol** | O dan y model OMIC, gweithwyr allweddol yw swyddogion carchar band 3 sy'n cael eu dyrannu i hyrwyddo perthnasoedd adsefydlu ac adeiladol rhwng staff a charcharorion i feithrin ymddygiad da. |
| **PDU** | Uned darparu prawf |
| **MAPPA** | Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Aml-Asiantaethol: y gwasanaethau prawf, heddlu, carchardai ac asiantaethau eraill yn gweithio gyda'i gilydd yn lleol i reoli troseddwyr sy'n cyflwyno risg uwch o niwed i eraill. Lefel 1 yw rheolaeth gan asiantaeth unigol, lle y gellir rheoli'r risgiau a gyflwynir gan y troseddwr gan yr asiantaeth sy'n gyfrifol am oruchwylio neu reoli achos y troseddwr. Ar gyfer Lefelau 2 a 3, mae angen rheolaeth weithredol aml-asiantaethol. |
| **MARAC** | Cynhadledd Asesu Risg Aml-Asiantaethol: cyfarfod lle y mae gwybodaeth yn cael ei rhannu am yr achosion cam-drin domestig sy'n cyflwyno'r risg |

| | |
|---|---|
| | uchaf, rhwng cynrychiolwyr o'r heddlu lleol, iechyd, amddiffyn plant, tai, ymarferwyr a Chynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA), prawf ac arbenigwyr eraill o'r sectorau statudol a gwirfoddol. Mae'r cynrychiolwyr yn trafod opsiynau ar gyfer gwella diogelwch y dioddefwr a'u troi'n gynllun gweithredu cydlynus. |
| **MoJ** | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| **MOSOVO** | Rheoli Troseddwyr Rhywiol neu Dreisgar; mae'r cwrs hyfforddiant hwn yn dysgu sgiliau a gwybodaeth i ymarferwyr yn unedau amddiffyn y cyhoedd yr heddlu er mwyn gallu adnabod a rheoli troseddwyr rhyw, troseddwyr treisgar a throseddwyr peryglus eraill sy'n dod o dan y Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Aml-Asiantaethol. |
| **nDelius** | National Delius: y system rheoli achosion gymeradwy a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Prawf yng Nghymru a Lloegr. |
| **NOMS** | Y Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol: tan fis Ebrill 2017, dyma'r asiantaeth oedd yn gyfrifol am y gwasanaethau carchardai a phrawf, sydd wedi'i hail-enwi yn Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM (HMPPS). |
| **OASys** | Y system asesu troseddwyr a ddefnyddir yng Nghymru a Lloegr gan y Gwasanaeth Prawf i fesur risg ac anghenion troseddwyr dan oruchwyliaeth. |
| **OMIC** | Rheoli Troseddwyr yn y Ddalfa: y fframwaith sy'n cydlynu a thracio siwrne unigolyn drwy eu cyfnod dan glo ac ar ôl eu rhyddhau. |
| **P-NOMIS** | System wybodaeth rheoli troseddwyr y gwasanaeth carchardai; data-bas a ddefnyddir mewn carchardai i reoli troseddwyr. |
| **PO** | Swyddog prawf: dyma'r term a ddefnyddir ar gyfer swyddog cyfrifol 'cymwysedig' a astudiodd gwrs addysg uwch am ddwy flynedd. Mae enw'r cymhwyster a chynnwys yr hyfforddiant yn amrywio gan ddibynnu ar bryd y cafodd ei astudio. Yn gyfrifol am reoli achosion mwy cymhleth. |
| **POM** | Rheolwr troseddwyr (yn y) carchar |
| **PS** | Y Gwasanaeth Prawf: gwasanaeth cenedlaethol a ddaeth i rym ym Mehefin 2021. Ei rôl yw darparu gwasanaethau i'r llysoedd a rheoli grwpiau penodol o droseddwyr, gan gynnwys rhai sy'n cyflwyno risg uchel neu uchel iawn o niwed difrifol a rhai sy'n dod o dan MAPPA. |
| **PSO** | Swyddog gwasanaeth prawf: y term a ddefnyddir am swyddog cyfrifol a recriwtiwyd yn wreiddiol heb unrhyw gymhwyster. Yn gallu astudio hyfforddiant a bennir yn lleol i 'gymhwyso' fel swyddog gwasanaeth prawf neu astudio ymhellach i gymhwyso fel swyddog prawf. Yn gallu rheoli pob achos heblaw'r rhai mwyaf cymhleth gan ddibynnu ar lefel eu hyfforddiant ac arbenigedd. Mae rhai swyddogion PSO yn gweithio yn y llys ac yn gyfrifol am ysgrifennu adroddiadau cyn-dedfrydu. |
| **PSR** | Adroddiad cyn-dedfrydu. Unrhyw adroddiad sy'n cael ei baratoi ar gyfer llys, a'i gyflwyno'n llafar neu'n ysgrifenedig. |
| **Gofyniad Gweithgarwch Adsefydlu (RAR)** | Ers Chwefror 2015, pan ddaeth *Deddf Adsefydlu Troseddwyr* i rym, gall y llysoedd nodi nifer y diwrnodau RAR i'w cynnwys mewn gorchymyn; mater i'r gwasanaeth prawf yw penderfynu pa waith yn union sydd i'w wneud yn ystod y diwrnodau RAR. |
| **Awdurdodau cyfrifol** | Y tri awdurdod cyfrifol o dan MAPPA yw'r heddlu, prawf a'r carchardai. |

| | |
|---|---|
| **RMP** | Cynllun rheoli risg: sy'n disgrifio sut y bwriedir rheoli'r risg o niwed i eraill. |
| **RM2000** | Proses asesu risg sy'n cael ei chydnabod yn genedlaethol sy'n defnyddio manylion hanes troseddu rhywiol blaenorol dyn (oedolyn) troseddol i ragweld y risg o'u cael yn euog eto yn y dyfodol am droseddau rhyw. |
| **ViSOR** | Databas cenedlaethol cyfrinachol sy'n cefnogi MAPPA. Yn hwyluso proses effeithiol o rannu gwybodaeth am droseddwyr treisgar a rhywiol rhwng asiantaethau'r tri awdurdod cyfrifol sy'n rhan o MAPPA (yr heddlu, prawf a'r carchardai). Nid yw ViSOR yn acronym mwyach, dyma enw ffurfiol y data-bas. |

# Atodiad 2: Methodoleg

Roedd yr arolygiad hwn yn ceisio ateb y cwestiynau canlynol:

**Ydy'r llywodraethu a'r arweinyddiaeth yn darparu dull ymatebol, ansawdd uchel wedi'i bersonoleiddio o gyflwyno MAPPA?**

- A oes arweinyddiaeth effeithiol o MAPPA ar lefel genedlaethol, gyda gweledigaeth a strategaeth glir yn eu lle?
- Ydy gweledigaeth a strategaeth MAPPA'n blaenoriaethu ansawdd y gwasanaeth a chadw at y dystiolaeth?
- A oes fframwaith llywodraeth effeithiol ar gyfer MAPPA a chynlluniau darparu clir sy'n sicrhau bod y weledigaeth a'r strategaeth yn cael eu troi'n ymarfer?
- Ydy'r holl asiantaethau partner sy'n rhan o MAPPA'n deall y polisïau lleol a chenedlaethol?
- Ydy'r prosesau ar gyfer dyrannu lefelau MAPPA'n gweithio?
  - Ydy'r canllawiau'n cael eu dilyn yn gyson?
  - Ydy'r prinder adnoddau wedi lleihau faint sy'n cael eu rheoli ar lefel uwch?
  - Ydy'r penderfyniadau am ostwng lefelau MAPPA'n briodol a seiliedig ar dystiolaeth?
  - Beth sy'n atal rhai unigolion gyda risg RoSH uchel rhag dod o dan drefniadau MAPPA?
  - Ydy'r ddeddfwriaeth wedi'i geirio'n rhy gul?
- A oes arweinyddiaeth effeithiol yn lleol, gyda chysylltiadau priodol i grwpiau aml-asiantaethol eraill, i geisio rheoli'r risg o niwed?
- Ydy MAPPA'n cael ei chefnogi gan ddigon o adnoddau?

**Ydy sgiliau'r staff yn cynorthwyo i ddarparu MAPPA o ansawdd uchel?**

- Ydy'r cadeiryddion ac aelodau'r paneli sefydlog yn cael eu cynorthwyo i ddarparu MAPPA o ansawdd uchel?
- Ydy achosion MAPPA'n cael eu dyrannu i staff gyda hyfforddiant a phrofiad priodol?
- Ydy'r holl staff sy'n gweithio ar achosion MAPPA, o bob asiantaeth berthnasol, yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau a rhai eu hasiantaethau partner yn MAPPA?
- Ydy'r trosolwg gan reolwyr yn effeithiol?

**A oes gwybodaeth amserol a pherthnasol ar gael i gynorthwyo MAPPA ansawdd uchel?**

- Ydy'r canllawiau angenrheidiol yn eu lle i gynorthwyo staff i ddarparu MAPPA o ansawdd uchel?
- Ydy'r gweithdrefnau ar gyfer adolygu lefelau risg yn rhai cadarn?
- A oes dadansoddi digon trylwyr a diweddar yn digwydd o broffil achosion MAPPA, gan gynnwys yn ôl nodweddion gwarchodedig ac amgylchiadau personol?
  - Sut y mae'r ardaloedd yn monitro cyfraddau aildroseddu neu fesurau niwed eraill eu poblogaethau MAPPA i fonitro pa mor effeithiol yw eu trefniadau, ac yn ceisio eu gwella?
- Ydy achosion cymwys yn cael eu hadnabod yn amserol a'u 'baneru' ar systemau rheoli achosion?
- Ydy'r systemau TGCh, gan gynnwys ViSOR, yn helpu i gyfnewid gwybodaeth yn effeithiol â phartneriaid, fel bo angen?
- Ydy targedau perfformiad a gwybodaeth reoli'n cymell MAPPA o ansawdd uchel?
- Ydy'r systemau TGCh, gan gynnwys ViSOR, yn helpu i gynhyrchu gwybodaeth reoli, gan gynnwys data ar anghenion a ffactorau amrywiaeth achosion MAPPA?

- A wneir defnydd effeithiol o ddadansoddi, tystiolaeth a dysgu, gan gynnwys adolygiadau SCR ac SFO MAPPA, i gymell gwelliannau ar draws yr holl asiantaethau?
- Ydy'r meini prawf ar gyfer gwneud adolygiadau SCR MAPPA'n ddigon clir? A wneir digon o adolygiadau SCR MAPPA aml-asiantaethol yn dilyn troseddau SFO?

**A oes trefniadau â phartneriaid statudol, darparwyr ac asiantaethau eraill yn cael eu sefydlu, cynnal a'u defnyddio'n effeithiol i ddarparu gwasanaethau o ansawdd?**

- A oes cydweithrediad effeithiol rhwng asiantaethau'r awdurdodau cyfrifol a dyletswydd-i-gydweithredu o fewn a'r tu allan i gyfarfodydd MAPPA ffurfiol?
- Ar gyfer achosion Lefel 1, a oes cyfnewid gwybodaeth priodol rhwng asiantaethau a gwaith aml-asiantaethol effeithiol?
- Ydy'r gwasanaethau cymorth angenrheidiol yn cael eu hadnabod ar gyfer unigolion a reolir o dan MAPPA?
- Ydy gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth sensitif, yn cael ei rhannu'n gyson lle bo'n briodol rhwng timau diogelwch y carchardai, prawf a, lle bo'n berthnasol, y Bwrdd Parôl?

**Pa mor effeithiol yw MAPPA gyda chadw pobl yn ddiogel?**

- Ydy'r atgyfeiriadau at MAPPA o ansawdd uchel gan ddarparu asesiad trylwyr a rhoi rhesymau clir o ran manteision rheolaeth aml-asiantaethol?
- Ydy anghenion dioddefwyr yn cael digon o flaenoriaeth ar lefel strategol ac ymarferol?
- A roddir digon o ffocws a sylw i anghenion adsefydlu ac ailsefydlu unigolion a reolir o dan MAPPA, gan ddilyn dull cyfunol o amddiffyn ac integreiddio.[21]
- A oes cysylltiadau priodol i drefniadau aml-asiantaethol eraill, e.e. IOM a MARAC (lle bo'n berthnasol)?
- Ydy'r cynrychiolwyr yn y cyfarfodydd MAPPA ar y raddfa iawn ac yn gallu cyfranogi'n llawn?
- Ydy'r cynlluniau rheoli risg MAPPA o ansawdd uchel ac yn cael eu hadolygu a'u diweddaru fel bo angen?
- Ydy MAPPA'n talu digon o sylw i nodweddion gwarchodedig ac amgylchiadau personol unigolion ac effaith y pethau hyn ar eu gallu i ymgysylltu a chydymffurfio â'u goruchwyliaeth?
- Ydy unigolion sy'n dod o dan MAPPA'n deall ei bwrpas a'i effaith ar eu goruchwyliaeth? Ydyn nhw'n rhan o gynllunio i reoli risg ac adolygu risg?

## Gwaith maes

Cwblhawyd ein gwaith maes cychwynnol mewn dwy ran, yn y gymuned ac mewn carchardai. Aeth arolygwyr o Arolygiaethau Cwnstabliaeth, Tân ac Achub a Phrawf EM ar ymweliad â chwe ardal cyfiawnder troseddol (Dyfnaint a Chernyw, Cumbria, Llundain, Gorllewin Sir Efrog, Manceinion Fwyaf, a Gogledd Cymru) gan ddewis sampl o un uned darparu prawf ym mhob ardal. Roedd ein safleoedd gwaith maes yn cynnwys ardaloedd metropolitan a rhai mwy gwledig er mwyn cael darlun mwy crwn. Fe wnaethom gyd-arolygu cyfanswm o 107 o achosion, gan gynnwys rhai ar bob lefel a chategori MAPPA. Cafodd 67 o ymarferwyr prawf, oedd yn gyfrifol am yr achosion yn ein sampl, eu cyfweld. Yn ogystal â'n sampl, ym mhob ardal ystyriwyd cynlluniau rheoli risg 20 o achosion a aseswyd i fod yn cyflwyno risg uchel neu uchel iawn o achosi niwed difrifol gyda 'baner' cam-drin domestig nad oedd yn cael eu rheoli gan MAPPA er mwyn asesu'r defnydd a wneir o MAPPA Categori 3. Ym mhob ardal gwaith maes, cynhaliwyd cyfarfodydd a grwpiau ffocws yn cynnwys: staff sy'n rheoli achosion MAPPA, uwch-swyddogion prawf (SPO), cadeiryddion a staff MAPPA, asiantaethau dyletswydd-i-gydweithredu (DTC), swyddogion cyswllt dioddefwyr, staff

---

[21] Dyma'r hyn a ddisgrifir gan yr Athro Hazel Kemshall fel dull cytbwys o reoli risg sy'n canolbwyntio ar: ymatal ac adsefydlu; newid ymddygiad difater a chwrdd ag anghenion dilys; lleihau risg a lleihau ymddygiad sy'n arwain at aildroseddu; ac osgoi bod yn or-ymwthiol gyda phobl nad yw eu risg yn cyfiawnhau hynny.

hosteli prawf yn y gymuned, uwch-arweinwyr sy'n gyfrifol am amddiffyn y cyhoedd, a chadeiryddion byrddau rheoli strategol (SMB). Cynhaliodd HMICFRS hefyd grwpiau ffocws ac uwch-arweinwyr a staff yr heddlu. Gwnaed gwaith arsylwi mewn pum cyfarfod MAPPA ac un cyfarfod SMB.

Ymwelodd arolygwyr o Arolygiaethau Carchardai a Phrawf EM â chwe charchar, gan gynnwys un carchar preifat, carchar agored, dau garchar caeedig a dau garchar merched. (HMP New Hall, HMYOI Feltham, HMP High Down, HMP Hatfield, HMP Oakwood, HMP Drake Hall) gan adolygu achosion 48 o garcharorion a chyfweld 37 ohonynt. Cafodd yr arolygwyr gyfarfodydd â staff rheoli achosion yn cynnwys rheolwyr troseddwyr y carchar neu'r gwasanaeth prawf (POM) ac uwch-swyddogion prawf (SPO). Carcharorion Categori 2, Lefel 1 oedd y sampl yn bennaf; fodd bynnag, fe wnaethom gynnwys nifer fach o gategorïau a lefelau MAPPA eraill i bwrpas cymhariaeth. Roedd y carcharorion yn ein sampl yn cynnwys cymysgedd o rai a aseswyd i fod yn cyflwyno risg ganolig, uchel ac uchel iawn o niwed.

Ar ôl y gwaith maes cychwynnol, cawsom wythnos o gyfarfodydd ag uwch-arweinwyr a chynghorwyr polisi'r heddlu, prawf a'r carchardai gyda chyfrifoldeb cenedlaethol am MAPPA a ViSOR.

**Nodweddion y sampl achosion**

| Rhyw | Nifer | % |
|---|---|---|
| Dynion | 94 | 88% |
| Merched | 13 | 12% |

| Hil a chategori ethnig | Nifer | % |
|---|---|---|
| Gwyn | 73 | 70% |
| Du a lleiafrifol ethnig | 26 | 25% |
| Grwpiau eraill | 3 | 3% |
| Heb ei gofnodi'n glir | 2 | 2% |

| Dedfryd | Nifer | % |
|---|---|---|
| Gorchymyn cymunedol | 11 | 10% |
| Gorchymyn dedfryd ohiriedig | 14 | 13% |
| Trwydded | 82 | 77% |

| Categori MAPPA presennol | Nifer | % |
|---|---|---|
| Categori 1 | 57 | 54% |
| Categori 2 | 38 | 36% |
| Categori 3 | 11 | 10% |

| Lefel uchaf o reolaeth MAPPA | Nifer | % |
|---|---|---|
| Lefel 1 | 60 | 57% |
| Lefel 2 | 42 | 40% |
| Lefel 3 | 4 | 4% |

| Gradd y gweithiwr prawf presennol neu'r un diwethaf | Nifer | % |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Swyddog prawf (aelod o staff gyda chymhwyster prawf cydnabyddedig) | 93 | 89% |
| Staff dan hyfforddiant (aelod o staff sy'n astudio rhaglen hyfforddiant ffurfiol er mwyn **ennill** cymhwyster swyddog prawf) | 7 | 7% |
| Swyddog gwasanaeth prawf (aelod o staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda defnyddwyr gwasanaeth **a heb** gymhwyster swyddog prawf cydnabyddedig) | 5 | 5% |

# Atodiad 3: Tablau data

**Tabl 1** Cyfran yr achosion ar bob lefel reoli MAPPA yn yr ardaloedd gwaith maes i ni eu harolygu.[22]

| Ardal | Canran yr holl achosion a reolir ar Lefel 1 | Canran yr holl achosion a reolir ar Lefel 2 | Canran yr holl achosion a reolir ar Lefel 3 |
|---|---|---|---|
| Manceinion Fwyaf | 99.5% | 0.4% | 0.1% |
| Cumbria | 97.7% | 2.3% | 0% |
| Dyfnaint a Chernyw | 99.2% | 0.7% | 0.1% |
| Llundain | 98% | 1.7% | 0.4% |
| Gorllewin Sir Efrog | 98.5% | 1.5% | 0% |
| Gogledd Cymru | 96.9% | 3% | 0.1% |

Cymerwyd yr holl ddata o adroddiad blynyddol MAPPA 2020-2021 sydd ar gael yn:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1028933/MAPPA_Annual_Report_2020-21_Area_Tables.xlsx

**Tabl 2** Y gyfran o'n cwestiynau allweddol a atebwyd yn bositif yn yr achosion a arolygwyd gennym. Nid yw achosion Lefel 3 wedi eu cynnwys oherwydd bod y sampl yn fach.

| Cwestiynau allweddol | Ymateb positif - achosion Lefel 1 | Ymateb positif - achosion Lefel 2 |
|---|---|---|
| Ydy'r asesu'n canolbwyntio ddigon ar gadw pobl yn ddiogel? | 65% | 74% |
| Ar y cyfan, a oedd y cynllunio cyn-rhyddhau'n foddhaol? | 65% | 88% |
| Ydy'r cynllunio'n canolbwyntio ddigon ar gadw pobl yn ddiogel? | 61% | 79% |
| A wnaeth y statws MAPPA wella rheoli'r risg o niwed ac amddiffyn y cyhoedd? | 32% | 73% |
| A wnaeth gweithredu a darparu gwasanaethau gydbwyso rheoli risg ag anghenion adsefydlu'r person ar gyfnod prawf, gan ddilyn dull cyfunol o amddiffyn ac integreiddio? | 52% | 64% |
| Ydy'r adolygu'n canolbwyntio ddigon ar gadw pobl yn ddiogel? | 49% | 74% |

[22] Oherwydd cyfannu, efallai nad yw'r canrannau'n adio i 100 y cant.